



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru: Deall er mwyn Dylanwadu

**ADRODDIAD TERFYNOL
Hydref 2009**

Pwyntiau Cysylltu

Yn achos ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:
Siân Jones, ffôn: 01685 729126
E-bost: SJ&LGRsearch&Informationunit@cymru.gsi.gov.uk

Awduron

Sarah Forster - Geoeconomics
Russell Pask - The Research Unit
Ben Taylor ac Ali Torbett - Sector Projects

Cyhoeddwr

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Leoliad

Merthyr Tudful

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ein comisiynu i gynnal yr astudiaeth hon. Diolch yn arbennig i Siân Jones a Karyn Pittick o'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yng Nghymru am eu cymorth a'u cyngor drwy gydol y prosiect. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i bawb y buom yn eu cyfweld am roi o'u hamser, am eu parodrwydd i ateb ein cwestiynau a'u safbwyntiau gwerthfawr. Diolch yn arbennig hefyd i Simon Harris (Prif Weithredwr, Canolfan Cydweithredol Cymru), Trish Fretten (Pennaeth Cymorth Economaidd Cymunedol, yr Is-adran Cymunedau, Llywodraeth Cynulliad Cymru) a Sara Ahmad (Adran y Prif Weinidog, Llywodraeth Cynulliad Cymru) a oruchwyliodd ac a gyflwynodd sylwadau ar ddrafftiau'r adroddiadau fel aelodau o Grŵp Llywio'r Prosiect. Hoffem hefyd ddiolch i Andrea Westall, fu'n gweithredu fel cyngorydd arbenigol, am ei mewnwelediad a'i harweiniad gwerthfawr.

Crynodeb gweithredol

Briff ymchwil

- Ym mis Mai 2008, comisiynwyd Sector Projects, Geoeconomics a The Research Unit gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal ymarfer i fapio a rhoi darlun sylfaenol o weithgarwch mentrau cymdeithasol ledled Cymru. Nod cyffredinol yr astudiaeth oedd sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a manylach o faint, cwmpas, natur, iechyd a rôl mentrau cymdeithasol yng Nghymru, a dadansoddi sut y gallai Llywodraeth y Cynulliad gefnogi'r sector yn fwy effeithiol.

Mae'r astudiaeth hon yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu mentrau cymdeithasol i ffynnu a thyfu, ac yn cyflenwi Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru a lansiwyd ym mis Ionawr 2009.

Diffiniad o fenter gymdeithasol

Yn unol â Llywodraeth y DU, dyma ddiffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o fenter gymdeithasol:

"busnes a chanddo amcanion sy'n bennaf yn rhai cymdeithasol ac y caiff ei wargedion eu hail-fuddsoddi'n bennaf yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na bod y busnes yn seiliedig ar yr angen i gynyddu'r elw i'r eithaf ar gyfer cyfranddalwyr."

Er mwyn addasu'r diffiniad eang hwn i ddibenion gweithredu ac fel bo modd cymharu ag ymarferion mapio cenedlaethol a rhanbarthol eraill, defnyddiwyd tri phrawf cydnabyddedig i adnabod mentrau cymdeithasol. Dyma nhw:

- Cyfeiriadaeth menter** – yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer marchnad benodol;
- Nodau cymdeithasol** – nodau cymdeithasol ac/neu amgylcheddol clir; a
- Pherchnogaeth gymdeithasol** – sefydliadau ymreolaethol a chanddynt elfen o lywodraeth gyfranogol sy'n cynnwys rhanddeiliaid ac ymddiriedolwyr, a'r elw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gymuned neu ei rannu ymysg rhanddeiliaid.

Cafodd y sefydliadau hefyd eu rhannu yn ôl y gyfran o incwm a enillir fel bo modd canfod i ba raddau y maent wedi datblygu a lefel eu gweithgarwch fel menter gymdeithasol. Diffiniwyd y tri chategori canlynol:

- Mentrau cymdeithasol **eginol** – sefydliadau sy'n creu 15% i 25% o'u hincwm drwy fasnachu;
- Mentrau cymdeithasol **datblygol** – sefydliadau sy'n creu 25% i 50% o'u hincwm drwy fasnachu; a
- Mentrau cymdeithasol **sefydledig** – sefydliadau sy'n creu mwy na 50% o'u hincwm drwy fasnachu. .

Mae mwyafrif yr astudiaethau mapio mentrau cymdeithasol yn y DU yn defnyddio naill ai trothwy o 50% o incwm a enillir, neu 25% o incwm a enillir ar gyfer mentrau cymdeithasol 'datblygol'. Fodd bynnag, yn yr astudiaeth hon defnyddir y categori 15-25% o incwm a enillir gan fod Llywodraeth y Cynulliad am asesu lefel y mentrau cymdeithasol sydd yn eu cyfnod cynnar neu'n fentrau cymdeithasol eginol yng Nghymru a'r potensial i'w datblygu.

Methodoleg

Cafodd yr astudiaeth fapio ei seilio ar ddwy golofn fethodolegol a oedd yn darparu data meintiol ac ansoddol cyflenwol:

- Arolwg dros y ffôn o sampl gynrychioliadol o fentrau cymdeithasol yng Nghymru, gan arwain at fwy na 618 o gyfweiliadau ag uwch-swyddogion yn y sefydliadau hyn - prif weithredwyr yn bennaf. Cysylltwyd â 3,055 o fentrau cymdeithasol posibl drwy lythyr neu e-bost i'w hysbysu am yr arolwg a dechreuwyd cyfweiliadau dros y ffôn â sampl o 764 o sefydliadau. Roedd 618 o'r sefydliadau hyn yn fentrau cymdeithasol cymwys, felly cafwyd amrediad da o sefydliadau a chanddynt weithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru; a

- Chyfweliadau manwl â 26 o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau rhwydweithio, darparwyr cymorth busnes a sefydliadau llywodraethol.

Nid tasg hawdd yw cynnal arolwg o fentrau cymdeithasol gan nad yw 'menter gymdeithasol' yn sector ar wahân y gellir ei adnabod yn hawdd - dull ydyw, yn hytrach, o weinyddu busnes. Roedd dyluniad ein harolwg yn seiliedig ar ymarferion mapio blaenorol ac arfer gorau wrth gynnal arolygon. Defnyddiwyd cronfa ddata GuideStar i greu'r gyfres gyntaf o fentrau cymdeithasol posibl yn seiliedig ar ffurf gyfreithiol ac/neu statws elusen. Ychwanegwyd at y data hyn o ystod o ffynonellau gan gynnwys data gan aelodau Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chronfeydd data o fathau neilltuol o fentrau cymdeithasol fel Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a chwmnïau cydweithredol. Mae'r ymagwedd hon felly'n cynnwys sefydliadau a allai fod yn anghorfforedig neu fabwysiadu modelau cyfreithiol eraill yn hytrach na chwmnïau cyfyngedig trwy warant, neu gymdeithasau diwydiannol a darbodus, er enghraifft, cwmnïau cyfyngedig trwy gyfranddaliadau.

Trosolwg o'r canfyddiadau

1) Rydym wedi canfod 3,056 o sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru.

- Mae deuparth ohonynt yn sefydledig, sy'n golygu eu bod yn ennill o leiaf hanner eu hincwm, ac mae tua chwarter yn hunangynhaliol gan ennill 100% o'u hincwm. Cyfrannau lled-gyfartal o fentrau cymdeithasol eginol a datblygol yw'r traean sy'n weddill.
- Cwmnïau cyfyngedig trwy warant yw tua hanner y mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae tua un o bob deg naill ai'n ymddiriedolaeth neu'n anghorfforedig.
- Mae bron deuparth y mentrau cymdeithasol yn elusennau cofrestredig neu mae ganddynt statws elusen eithriedig. Mae mentrau cymdeithasol eginol yn fwy tebygol o fod â statws elusen (72% o'i gymharu â chyfartaledd o 63%). Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, mae sefydliadau sy'n ennill 100% o'u hincwm a sefydliadau iau na phum mlwydd oed yn llawer llai tebygol o fod â statws elusen (54% a 30% yn ôl eu trefn).

2) Yn seiliedig ar ffigurau Blwyddyn Ariannol 07/08, amcangyfrifwn mai maint y sector mentrau cymdeithasol o ran trosiant yw £2.2 biliwn.

- Mae hyn yn awgrymu bod y sector mentrau cymdeithasol yn cyfrannu 2.6% tuag at drosiant holl fentrau Cymru. Mae Cynghrair Mentrau Cymdeithasol y DU yn amcangyfrif mai maint y sector mentrau cymdeithasol o ran trosiant yn y DU yw £27 biliwn. Ar sail hyn, mae Cymru'n cyfrannu oddeutu 8% tuag at y ffigur cenedlaethol hwn. Mae hyn dros ddwywaith yn fwy na chyfraniad economi Cymru tuag at Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) sef 3.6%.
- Ceir ystod eang o sefydliadau yn y sector mentrau cymdeithasol. O bellffordd, Glas Cymru, y cwmni dŵr cenedlaethol, yw'r fenter gymdeithasol fwyaf yng Nghymru gyda throsiant o £623 miliwn ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 08, 28% o gyfanswm trosiant y sector. Mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol hefyd yn sefydliadau mawr ac amcangyfrifir eu bod gyda'i gilydd yn cyfrannu 26% o gyfanswm trosiant amcangyfrifedig y sector.
- Fodd bynnag, mae traean y mentrau cymdeithasol yn fach iawn, gan ddatgan bod eu trosiant blyneddol yn llai na £25,000. Amcangyfrifir mai canolrif y trosiant cyfartalog yw oddeutu £50,000. Yn ddiddorol, nid yw'n ymddangos fel pe bai unrhyw batrymau amlwg rhwng maint y trosiant a'r gyfran o incwm a enillir.

3) Mae mwyafrif mentrau cymdeithasol Cymru'n ymwneud â hyfforddiant ac addysg (yn aml ar gyfer pobl dan anfantais); y celfyddydau a'r Gymraeg; menter gymdeithasol, y sector gwirfoddol neu wasanaethau cymorth i fusnesau; iechyd a gofal cymdeithasol; a chwaraeon a hamdden.

- Mae bron pedwar o bob deg (37%) yn darparu gwasanaethau i blant, ac mae chwarter ohonynt yn gweithio gyda'r henoed. Ceir hefyd ffocws ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd.
- Mae sefydliadau mwy, a chanddynt fwy na £500,000 o drosiant, yn fwy tebygol o ymwneud â thai (24%), gofal iechyd (11%) ac ailgylchu (10%). O blith y mentrau cymdeithasol mwyaf un, y rhai a chanddynt fwy na £5m o drosiant, mae 60% ohonynt yn darparu tai cymdeithasol, chwarter (27%)

ohonynt yn darparu gofal cymdeithasol ac 8% yn darparu addysg ac yn darparu ym maes y celfyddydau.

- Mae un o bob wyth menter gymdeithasol yn targedu cyfleoedd am gyflogaeth at grwpiau penodol yn y gymuned. O blith y sefydliadau hyn, roedd traean yn darparu cyfleoedd am swyddi i rai ag anableddau ac anghenion arbennig, ac un o bob saith yn darparu cyfleoedd wedi'u targedu at rai fu'n ddi-waith am gyfnod hir.

4) Amcangyfrifwn fod mentrau cymdeithasol yn darparu tua 29,000 o swyddi amser llawn, 20,000 o swyddi rhan-amser a 105,000 o gyfleoedd i wirfoddoli.

- Yn 2008, roedd 1.35 miliwn o swyddi yng Nghymru. O gymharu'n fras, mae hyn yn golygu bod tua 3.6% o'r swyddi yng Nghymru yn perthyn i'r sector mentrau Cymdeithasol.
- Nid oes gan oddeutu hanner y sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol staff amser llawn. O blith y rhai a chanddynt staff amser llawn, dim ond chwarter ohonynt sydd â mwy na deg aelod o staff amser llawn.

5) Ceir mentrau cymdeithasol mwy yn Ne Ddwyrain Cymru, ac yng Nghaerdydd yn enwedig, ond ceir mwy o fentrau cymdeithasol y pen yng ngweddill.

- Cymru. Mae 22% o fentrau mawr (mwy na £1 miliwn o drosiant blynyddol) i'w cael yng Nghaerdydd, ond mae ei chyfran o fentrau bychain yn llawer llai - ychydig dros 6%. Ceir patrwm tebyg ymysg awdurdodau eraill y De Ddwyrain.
- Yn Ne Ddwyrain Cymru ceir tua 0.77 o fentrau fesul mil o drigolion. Yng ngweddill Cymru ceir bron dwywaith yn fwy ohonynt – 1.39 fesul mil o drigolion. Gellir galw bron deuparth (65%) y rhain yn fentrau bychain a chanddynt lai na £100,000 o drosiant blynyddol. Dim ond 44% yw'r ffigur cymharol ar gyfer De Ddwyrain Cymru.
- Mae mwy na thraean (36%) mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n darparu gwasanaethau oddi mewn i ardal o ddeng milltir, yn enwedig sefydliadau llai. Dim ond un o bob wyth menter gymdeithasol yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn darparu gwasanaethau ledled Cymru, ac mae'n fwy tebygol mai sefydliadau mwy yw'r rhai hynny.

6) Dywedodd dros hanner (55%) y sefydliadau a gafodd eu cyfweld eu bod wedi sicrhau gwarged neu elw yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac mae oddeutu hanner (48%) y sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn bwriadu cynyddu eu cyfran o incwm a enillir ymhen tair blynedd.

- Ymhen tair blynedd, mae 40% yn anelu i fod yn gwbl ariannol gynaliadwy o'i gymharu â'r 28% presennol. Sefydliadau nad oes ganddynt statws elusen sydd fwyaf awyddus i wneud hyn. Mae bron hanner (46%) y grŵp hwn yn anelu i sicrhau eu bod yn ennill 100% o'u hincwm ymhen tair blynedd.
- Ar gyfartaledd, mae mentrau cymdeithasol eginol, datblygol a sefydledig am gynyddu'r incwm a enillir ganddynt i'r ystod 25% nesaf e.e. mae'r rhai sydd yn yr ystod 25% i 49% am symud i'r ystod 50% i 74% yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn golygu y bydd nifer o fentrau cymdeithasol datblygol yn troi'n rhai sefydledig.
- Mae 20% o'r grŵp eginol heb fod eisiau cynyddu'r gyfran o incwm a enillir. Wrth ddadansoddi ar y lefel hon, mae'r data'n awgrymu bod y grŵp hwn yn cynnwys y rhai sy'n wirioneddol eginol; rhai a allai elwa drwy ennill mwy o incwm er mwyn bod yn fwy cynaliadwy, ond nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau cyfredol; a'r rhai sy'n ennill cyfran isel o incwm yn rhan o'u strategaeth ariannu gynaliadwy. Mae hyn yn profi'r ffaith bod cynnwys mentrau cymdeithasol eginol wedi golygu cynnwys sefydliadau sydd i fod i berthyn i'r trydydd sector ehangach.
- Roedd sefydliadau a chanddynt fwy na £100k o drosiant yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gwneud elw.
- Mae bron hanner y sefydliadau sy'n cyflawni gweithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru'n fwy na phymtheng mlwydd oed. Mae gan fwyafrif (59%) y sefydliadau hyn statws elusen. Mae'r profil hwn yn newid: nid oes gan fwyafrif (60%) yr elusennau iau na phum mlwydd oed statws elusen. Mae data'n awgrymu bod sefydliadau o'r fath yn cychwyn fel mentrau cymdeithasol, yn hytrach na'u bod yn elusennau sy'n newid i fod yn strategaeth menter gymdeithasol.

- Gall mentrau cymdeithasol newydd ddatblygu i fod yn gymharol hunangynhaliol yn gyflym iawn: ym mhob categori ystod oedran isod, mentrau cymdeithasol sefydledig yw'r mentrau cymdeithasol mwyaf cyffredin.

7) Mae mwy na deuparth (68%) o ymatebwyr yr arolwg am ddarparu mwy o wasanaethau, neu wasanaethau newydd i'r sector cyhoeddus, ond ceir problemau sylweddol o ran ymwybyddiaeth a materion contractio ar ochr y cyflenwad a'r galw fel ei gilydd.

- Mae gwasanaethau cyhoeddus dan gontract yn ffynhonnell incwm bwysig i rai mentrau cymdeithasol, ond heb fod mor bwysig â gwerthu cynnyrch a gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion neu i sefydliadau eraill. Mae holl incwm a enillir bron hanner (48%) ymatebwyr yr arolwg yn deillio o werthu nwyddau, cynnyrch a gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion neu sefydliadau. Mae gwerthu nwyddau a gwasanaethau'n uniongyrchol yn gyffredin iawn gyda 91% o fentrau cymdeithasol yn ennill cyfran o'u hincwm drwy werthu eu cynnyrch a'u gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion a sefydliadau yn hytrach na chontractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau). Gellir cymharu hyn â 36% sy'n ennill cyfran o'u hincwm o gontractau llywodraeth a 26% sy'n ennill cyfran o'u hincwm drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth.
- Mae rhai'n ystyried bod y trosglwyddo rhwng cyllid grant a chaffael cyhoeddus yn digwydd yn rhy gyflym ac am gael cyllid grant craidd yn ystod y cyfnod pontio i'w galluogi i adeiladu'r capasiti i wneud ceisiadau am gontractau a'u hennill.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus yn dangos parodrwydd i dyfu mentrau cymdeithasol a rhoddir pwyslais cynyddol ar roi cyfleoedd i fentrau cymdeithasol gael ffynnu, ond roedd bron un o bob pump o'r ymatebwyr yn teimlo mai'r brif her i'w sefydliad o ran darparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus oedd "diffyg ymwybyddiaeth a chanfyddiad ymysg cyrff y sector cyhoeddus". Roedd diffyg ymwybyddiaeth a chanfyddiad o fentrau cymdeithasol yn thema gref drwy'r holl gyfweiliadau.
- Dyma heriau eraill i fentrau cymdeithasol sy'n ceisio darparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus:
 - Canfyddiad bod cynghorau lleol yn gyndyn o roi ar gontract wasanaethau y mae'r cyngor ei hun yn eu darparu ar hyn o bryd.
 - Mae'r contractau'n rhai mawr, felly rhaid i nifer o fentrau cymdeithasol wneud cais fel isgontractwyr, os o gwbl.
 - Diffyg cydnabyddiaeth o werth creu budd i gymdeithas mewn manylebau tendrau.
 - Taliadau hwyr neu delerau ôl-dalu cyrff y sector cyhoeddus.
- Mae llai na 20% o'r sefydliadau a gafodd eu cyfworld wedi'u cofrestru ar GwerthwchiGymru i dderbyn newyddion am gyfleoedd tendro.
- Dim ond un o bob deg sy'n ymwybodol o'r Siarter Agor Drysau, cyfres Llywodraeth Cynulliad Cymru o egwyddorion caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau (a mentrau cymdeithasol).
- Mae Gwerth Cymru, tîm gwella caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn chwarae rhan allweddol i hwyluso ymwneud mentrau cymdeithasol â chaffael cyhoeddus. Dywedodd un o gynrychiolwyr Gwerth Cymru mai £4bn a dim ond 35% o gontractau a ddyfarnwyd i gwmnïau Cymreig cyn y Siarter Agor Drysau o'i gymharu â £4.5bn a 49% o gontractau a gafwyd yn ddiweddar, ac mae mentrau cymdeithasol wedi llwyddo i ennill contractau Llywodraeth Cynulliad Cymru a chontractau llywodraeth leol.
- Ar y cyfan, ystyrir bod canllawiau yn eu lle i sicrhau bod rheolau caffael yn gyfeillgar i'r trydydd sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, ond mae angen mwy o weithredu ar y canllawiau hyn ar raddfa leol.

8) Byddai mentrau cymdeithasol yn dymuno gweld mwy o asedau'n cael eu trosglwyddo o awdurdodau cyhoeddus er mwyn helpu i greu incwm, eu gwneud yn fwy ariannol gadarn a darparu adnodd cymunedol.

- Mae gan 39% o'r mentrau cymdeithasol rydd-ddaliad neu les hir ar eiddo neu dir. Mae'n debygol y byddai lefel y berchnogaeth yn uwch pe bai lesedd o lai na 50 mlynedd yn cael ei gynnwys.

- Sefydliadau mwy a sefydliadau y mae eu prif amcanion yn cynnwys eiddo rhent, fel cymdeithasau tai, neu ddatblygu asedau er budd y gymuned, fel ymddiriedolaethau datblygu, sy'n tueddu i fod yn berchen ar eiddo.
- Mae mentrau cymdeithasol yn ystyried perchnogaeth ar asedau'n rhywbeth cadarnhaol, ond yn ôl profiad y cyfweledigion, roedd rhai awdurdodau'n fwy cadarnhaol eu hagwedd a pharod i drosglwyddo asedau er budd y gymuned nag eraill. Yn y senario orau, mae awdurdodau lleol wedi bod yn uchelgeisiol wrth drosglwyddo asedau a chefnogi'r broses o ddatblygu asedau er budd y gymuned.

9) Cyfeiriwyd at gynghorau lleol fel y ffynhonnell cymorth busnes mwyaf cyffredin a mwyaf pwysig, gan amlygu pa mor bwysig yw'r berthynas â'r sector cyhoeddus i waith mentrau cymdeithasol. Ceir galw am fwy o gymorth proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n arbennig ac sy'n fwy penodol.

- Er y cyfeiriwyd at gynghorau lleol fel y ffynhonnell cymorth busnes bwysicaf, mae'n fwy tebygol mai natur y cymorth hwn yw cyfeirio at wasanaethau a gwybodaeth am ariannu a chyfleoedd am gontractau, yn hytrach na datblygu busnes mewn modd strwythuredig a chymorth i adeiladu capasiti.
- Y darparwydd cymorth pwysicaf nesaf yw Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), ynghyd â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS), a'u gwaith yw darparu cyngor a gwybodaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol. Mae mwy o alw ymysg y sefydliadau hynny sydd wedi'u cofrestru'n elusennau, a chan fentrau cymdeithasol eginol am gymorth y gan CGGC.
- Defnyddiai 13% o'r ymatebwyr Cymunedau yn Gyntaf, rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella amodau byw a rhagolygon pobl yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, fel ffynhonnell cyngor.
- Darparwyr cymorth arbenigol i fentrau cymdeithasol oedd y ffynonellau cymorth busnes eraill mwyaf cyffredin, yn enwedig Canolfan Cydweithredol Cymru (17%), Menter Gymunedol Cymru (4%), DTA Cymru (4%) a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru (2%).
- Dim ond 8% o'r ymatebwyr a ddefnyddiai Llygad Busnes, a 4% a ddefnyddiai Cyswllt Busnes, sef prif raglenni cymorth busnes y llywodraeth. Mae'r mentrau cymdeithasol nad ydynt yn elusennau'n fwy tueddol o ddefnyddio'r rhain – roedd 57% o'r rhai hynny a nododd Llygad Busnes yn brif ffynhonnell cymorth heb gofrestru fel elusen.
- Mae'r lefelau bodlonrwydd ar gyfer cymorth busnes yn weddol uchel, gyda mwy na deuparth naill ai'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn, ond cafwyd pryderon nad oedd cymorth busnes y llywodraeth yn cymryd mentrau cymdeithasol o ddifrif fel busnesau.
- Ceir galw i ddatblygu'r isadeiledd cymorth busnes ar gyfer mentrau cymdeithasol ymhellach – mwy o ddarparwyr cymorth arbenigol annibynnol sy'n gwybod ac yn deall mentrau a busnes cymdeithasol ac sy'n cyflwyno sgiliau'r sector preifat i'r sector.
- Ceir rhywfaint o alw hefyd am rwydweithio a mentora rhwng cymheiriaid; mae 7% o'r ymatebwyr yn cael cyngor a chymorth busnes gan fentrau cymdeithasol eraill.
- O bellffordd, mynediad at gyllid yw'r maes yr hoffai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr gael cyngor a chymorth ychwanegol amdano; cyfeiriodd 44% o'r ymatebwyr at hyn fel pwnc. Ymysg y meysydd eraill y mae mentrau cymdeithasol yn chwilio am fwy o gyngor ynddynt ceir cynllunio strategol a busnes (18%), gwirfoddoli (15%), arallgyfeirio ffrydiau incwm (14%), datblygu partneriaeth (14%), a rheoli cyllid (13%).
- Mae ystyriaeth darparwyr cymorth busnes o'r hyn y mae mentrau cymdeithasol yn dymuno ei gael o ran cymorth busnes yn tueddu i fod yn wahanol i'r hyn y mae ar fentrau cymdeithasol ei angen mewn gwirionedd. Maent yn gweld bylchau capasiti sylweddol ym meysydd rheoli a marchnata, a oedd yn isel iawn o ran blaenoriaeth ymysg y meysydd yr hoffai'r sefydliadau eu hunain gael mwy o gyngor amdanynt.
- Mae sefydliadau mwy yn ceisio mwy o sgiliau sy'n gysylltiedig â busnes na sefydliadau llai, ac roedd tuedd am fwy o alw am sgiliau cynllunio busnes a rheoli cyllid ymysg sefydliadau â chyfran uwch o incwm a enillir.

10) Mae mentrau cymdeithasol yn teimlo'u bod yn gallu arloesi drwy eu model busnes a chreu cysylltiadau gwell â'r gymuned a defnyddwyr gwasanaeth, ond yn teimlo bod ymagweddau'r sector cyhoeddus tuag at gaffael a diffyg cydweithredu o fewn y sector yn eu hatal.

- Ar ei gorau, mae ymagwedd entrepreneuriaidd mentrau cymdeithasol yn eu gwneud yn fwy deinamig na sefydliadau eraill y trydydd sector gan y byddant yn mynd i feysydd y gallai busnesau masnachol beidio gweld cyfleoedd ynddynt.
- Roedd diffyg ymgysylltiad a dealltwriaeth awdurdodau lleol o fentrau cymdeithasol yn peri cryn rwystredigaeth.
- Er eu bod gallu addasu ac ymateb i agendâu gwasanaethau cyhoeddus newydd, gall contractau, rheolau a dulliau gweithio'r sector cyhoeddus fod yn destun rhwystredigaeth i fentrau cymdeithasol, a hoffent gael mynediad at gronfeydd prif-ffrwd lle gallant gyflawni'n effeithiol yn erbyn targedau.
- Mae nifer o fentrau cymdeithasol nad ydynt yn barod i dyfu, neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Roedd bron hanner yr holl sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn cyflawni'u gweithgareddau o fewn radiws o 20 milltir, a chan mai un o'u cryfderau allweddol yw'r gallu i ymateb i anghenion lleol, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y bydd mwyafrif y mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n parhau i ganolbwyntio ar eu hardal leol.
- Mae ailadrodd yn cynnig dull posibl o dyfu gan barhau i gadw cysylltiadau lleol, ac mae enghreifftiau o'r ymagwedd hon yn dod i'r amlwg. Mae caffael neu gydweithio â busnesau lleol a'u trawsnewid yn fentrau cymdeithasol hefyd yn strategaeth dwf arall arloesol y mae rhai mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n anelu ati.
- Roedd y cyfweledigion yn cydnabod bod angen mwy o gydweithredu a phartneriaethau i annog arloesi a datblygu pellach.

11) Roedd y sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn hynod gadarnhaol ynglŷn â'u cyflawniadau, er mai llai na 40% ohonynt a ddywedodd bod ganddynt fesurau yn eu lle i asesu eu perfformiad. Gan nad oes dull cyfundrefnol o fesur effeithiau ar gymdeithas, nid yw'n bosibl asesu effaith gyffredinol y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru ar gymdeithas, yr economi na'r amgylchedd y tu hwnt i ddata pennawd.

- Y prif beth y mae mentrau cymdeithasol yn canolbwyntio arno yw sefydlu a chynnal eu gweithrediadau o ddydd i ddydd. Nid oes digon o fonitro, gwerthuso na chyfathrebu'n digwydd mewn modd cyfundrefnol ynghylch "effaith gymdeithasol". Dyma faes lle mae angen herio, annog a chefnogi mentrau cymdeithasol i wella.
- Roedd sefydliadau mwy'n fwy tebygol o fod wedi sefydlu systemau mesur perfformiad. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen lefel benodol o adnoddau – o ran amser, arbenigedd ac ymdrech staff – i sefydlu systemau mesur, ac nid oes gan sefydliadau llai adnoddau o'r fath.
- Y cam cyntaf ar gyfer nifer o fentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweld yw ennill safon ansawdd gydnabyddedig er mwyn dangos proffesiynolrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad. Y nodau ansawdd mwyaf cyffredin a enillwyd gan fentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweld yw Buddsoddwyr mewn Pobl a'r Ddraig Werdd. Mae rhai mentrau cymdeithasol wedi cyrraedd safonau ISO hefyd. Mae prynwyr o'r sector cyhoeddus yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar y safonau hyn.
- Roedd y rhan fwyaf o fentrau cymdeithasol yn gyfarwydd â dulliau mesur perfformiad cymdeithasol amrywiol, fel archwilio cymdeithasol ac Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (ECaF), ond nid yw'r dulliau hyn yn cael eu gweithredu'n eang hyd yma. Roedd bron un o bob deg o'r cyfweledigion yn defnyddio archwilio cymdeithasol. Mae rhai cyrff rhwydweithio, fel Cylch ac Ymddiriedolaeth Datblygu Cymru, wedi arwain ar hyrwyddo'r defnydd o ddulliau cyfrifo ac archwilio cymdeithasol.
- Y dull mwyaf cyffredin o fesur perfformiad oedd cynnal arolygon ymysg defnyddwyr gwasanaeth fel ffordd o gael adborth cleientiaid ar ansawdd ac effaith eu gwasanaethau. Bydd cymdeithasau tai'n defnyddio arolygon o'r fath yn fynych ymysg eu tenantiaid.

12) Ar y cyfan, roedd gan yr ymatebwyr safbwyntiau cadarnhaol ynghylch rôl a dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd eu safbwyntiau ynglŷn ag awdurdodau lleol yn fwy cymysg.

- Y farn gyffredinol oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu i fywiogi'r sector a'i gefnogi i dyfu, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.
- Y prif faes yr hoffai'r ymatebwyr i Lywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio mwy arno yw cyllid, naill ai cyllid uniongyrchol neu gymorth i gael mynediad at gyllid. Crybwyllwyd cyllid gan gyfanswm o 59% o'r cyfweledigion ar ryw ffurf neu'i gilydd. Yn nodweddiadol, hoffai mentrau cymdeithasol gael mynediad at gyllid craidd mwy hirdymor (o leiaf tair i bum mlynedd) er mwyn buddsoddi i adeiladu ar eu gwaith yn hytrach na chyllid unigol ar gyfer prosiectau penodol.
- Daw hyrwyddo, cydnabod a defnyddio mentrau cymdeithasol hefyd yn uchel ar yr agenda o'r meysydd yr hoffai'r cyfweledigion i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio mwy arnynt. Ceir canfyddiad bod diffyg dealltwriaeth ynghylch mentrau cymdeithasol yn rhwystro twf a chyfleoedd. Cais cyffredin oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy rhagweithiol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth mentrau cymdeithasol.
- Dywedodd yr holl gyfweledigion nad oes dealltwriaeth eang o'r term 'menter gymdeithasol' o fewn eu sefydliad nac yn eu cymunedau, ac roedd pawb yn teimlo y byddai dealltwriaeth ehangach o'r term o gymorth i'w busnes. Fodd bynnag, roedd llawer yn teimlo nad oedd unrhyw farn glir ynglŷn â'r hyn y mae bod yn fenter gymdeithasol yn ei olygu, hyd yn oed ymysg y mentrau cymdeithasol eu hunain. Yn hyn o beth gallai fod yn ddefnyddiol i segmentu mentrau cymdeithasol yn ôl eu marchnad.
- Cafwyd cefnogaeth i'r syniad bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu ymgyrch gyfathrebu. Fodd bynnag, cafwyd pryder ynglŷn â'r modd y byddai hyn yn cael ei gynllunio a'i reoli. Roedd llawer o'r farn mai'r mentrau cymdeithasol eu hunain a ddylai fod yn llywio unrhyw ymgyrch farchnata. Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn pwysleisio'r angen i amlygu'r union hyn y gall mentrau cymdeithasol ei gyflawni mewn ieithwedd syml.
- Ar y cyfan, cafwyd ymdeimlad bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n agored, yn gynhwysol ac yn gwrandao'n dda. Roedd entrepreneuriaid cymdeithasol blaenllaw'n teimlo'u bod wedi cael cyfle i gyfranogi gyda'r llywodraeth wrth adolygu strategaethau llywodraethol perthnasol, ac roedd rhwydweithiau mentrau cymdeithasol eraill mwy wedi cael profiad tebyg drwy eu statws arbenigol.
- Y sefydliadau mwy, o ran trosiant, oedd â'r farn mwyaf cadarnhaol ynglŷn â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y farn lleiaf cadarnhaol ymysg mentrau cymdeithasol sy'n gwbl hunangynhaliol. Mae mentrau o'r fath yn tueddu i ystyried bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n canolbwyntio gormod ar gymunedau yn hytrach na busnes wrth edrych ar fentrau cymdeithasol. Roedd yma farn fod yr agenda mentrau cymdeithasol wedi'i gysylltu'n ormodol ag agenda'r trydydd sector, ac nad oedd wedi'i hymwreiddio'n ddigonol yn holl bolisiau'r llywodraeth.

Argymhellion

Er mwyn i fenter gymdeithasol allu gwireddu'i haddewidion, mae angen ymrwymiad gwleidyddol a chefnogaeth integredig gyson ar bob lefel o du'r llywodraeth. Mae hi'n gyfnod cynnar iawn o hyd yn y broses o ddatblygu modelau mentrau cymdeithasol. Yn yr adroddiad hwn, nodir ein casgliadau cyffredinol o'r astudiaeth fapio, a'r argymhellion sy'n deillio o hynny. Dyma grynodeb ohonynt yma. Fe'u cyflwynir ar ffurf cyfres fanylach o gamau gweithredu yn y prif adroddiad:

- **Argymhelliad 1: Cynnal a gwella'r sylfaen hon o wybodaeth am weithgarwch mentrau cymdeithasol.**
Gallai sylfaen gadarn ac ansawdd uchel o wybodaeth fod yn offeryn pwysig iawn i gynyddu'r wybodaeth am fentrau cymdeithasol, y galw am eu gwasanaethau a'r cyflenwad o gyllid. Rydym yn argymhell cyfres o gamau i sicrhau bod gwybodaeth yr astudiaeth fapio hon yn fan cychwyn gwerthfawr er mwyn datblygu ac asesu perfformiad gweithgarwch mentrau cymdeithasol yn y dyfodol.
- **Argymhelliad 2: Cydnabod amrywiaeth mentrau cymdeithasol yng Nghymru a chynllunio gymorth priodol yn arbennig ar eu cyfer.**
Mae'r astudiaeth fapio hon yn pwysleisio amrywiaeth y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Gellir ystyried y sefydliadau hyn yn rhan o un "sector" i'r graddau bod ganddynt oll nodweddion menter gymdeithasol o ran cyfeiriadaeth menter, nodau cymdeithasol a pherchnogaeth

gymdeithasol. Serch hynny, mae'r gwahaniaeth rhyngddynt yn anferthol o ran maint, gallu a nodau busnes, diwylliant, nodau cymdeithasol a'u model ariannu. Credwn ei bod hi'n bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'r data o'r astudiaeth hon i segmentu sefydliadau yn ôl lefel yr incwm a enillir ganddynt a'r graddau y maent yn dymuno bod yn hunangynhaliol. O wneud hyn, bydd modd i Lywodraeth Cynulliad Cymru dargedu eu cyfathrebiadau mewn modd sy'n gwneud synnwyr i'r sector o ran eu hunanddiffiniad a'u huchelgeisiau. Yn ogystal â hyn, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r 'sector' mentrau cymdeithasol yn elwa ar ddadansoddi a segmentu sectorau twf mentrau cymdeithasol hefyd, a datblygu strategaethau galluogi, amgylcheddol a buddsoddi ar gyfer y sectorau hynny e.e. ailgylchu gwastraff, cynhyrchu ynni, bwydydd lleol/cynnyrch organig, diwylliant a'r celfyddydau. .

- **Argymhelliad 3: Cynnwys awdurdodau lleol mewn modd rhagweithiol yn yr agenda mentrau cymdeithasol.**

Mae awdurdodau lleol yn rhanddeiliaid craidd yn natblygiad y sector mentrau cymdeithasol, fel partneriaid a phrynwyr y gwasanaethau. Ceir arfer da lle bydd awdurdodau lleol yn cydweithio â mentrau cymdeithasol, ond mae angen prif-ffrydio hyn. Mae angen datblygu ffyrdd effeithiol o rannu gwybodaeth am arfer da ac o godi ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol a'u rolau yn y gymuned a'r economi leol ymysg swyddogion llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol ymysg yr holl adrannau caffael, gan ddatblygu capasiti mentrau cymdeithasol fel eu bod yn gallu caffael contractau cyhoeddus a datblygu partneriaethau rhwng y naill a'r llall.

- **Argymhelliad 4: Sicrhau bod cymorth busnes wedi'i gynllunio'n arbennig i gyfateb â gwahanol fathau o fentrau cymdeithasol ac yn canolbwyntio ar eu datblygu'n fusnesau cynaliadwy.**

Mae angen mwy o gymorth i helpu mentrau cymdeithasol i ddatblygu fel busnesau cynaliadwy. Mae'r rhan fwyaf yn dda ar agweddau "cymdeithasol" eu gwaith, ond mae llawer llai ohonynt yn cael eu rhedeg fel busnesau effeithiol a dichonadwy. Ceir nifer o fentrau cymdeithasol a chyrrff rhwydweithio nad oes ganddynt ddigon o adnoddau dynol perthnasol i ymdrin â'r gwaith o adeiladu busnesau dichonadwy. Mae canfyddiadau'r astudiaeth fapio hon yn awgrymu bod angen i gymorth gael ei ganolbwyntio'n fwy a bod angen strategaethau darparu newydd mewn rhai meysydd. Manylir ar y rhain yn yr adran olaf.

- **Argymhelliad 5: Ystyried canolbwyntio mwy ar gefnogi datblygiad darparwyr cyllid cymdeithasol cynaliadwy, a rhoi cyllid uniongyrchol iddynt o bosib, er mwyn cefnogi twf mentrau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru..**

Mae angen cefnogi isadeiledd cyllid sy'n darparu cymysgedd strwythuredig o fuddsoddiadau, gan symud o grantiau i fenthyciadau meddal i fasnachol a chyllid o natur ecwiti wedi'i gynllunio'n arbennig i gyfateb ag anghenion ariannu a datblygu mentrau cymdeithasol. Ceir angen hefyd i ddatblygu gwybodaeth a gallu mentrau cymdeithasol i reoli cyllid. Byddai gwybodaeth o'r fath yn helpu i gynyddu parodrwydd mentrau cymdeithasol ar gyfer buddsoddi, a'r galw am gyllid sy'n sydd ar gael ar wahân i grantiau.

- **Argymhelliad 6: Buddsoddi i wella'r gwaith o fonitro perfformiad a didwylledd mentrau cymdeithasol.**

Mae'r gwaith o fesur perfformiad ac effaith mentrau cymdeithasol yn wan. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu nad oes gan nifer o fentrau cymdeithasol, hyd yma, y capasiti fel sefydliad i ddylunio a gweithredu systemau effeithiol a chadarn i reoli a monitro perfformiad cymdeithasol Dyma faes lle mae angen cymorth y llywodraeth a chydlyn ymysg mentrau cymdeithasol a chyrrff cefnogi i ddatblygu dulliau a systemau gwybodaeth er mwyn rhannu data ar berfformiad.

- **Argymhelliad 7: Cefnogi ymgyrch(oedd) ymwybyddiaeth a marchnata graddfa fawr sy'n cyrraedd y cyhoedd ehangach ar gyfer mentrau cymdeithasol.**

Yr her wrth gyfathrebu yw sicrhau bod mentrau cymdeithasol yn dod yn fwy adnabyddus ymysg y cyhoedd a'r gymuned fusnes yng Nghymru, nid yn unig y rhai sydd yn y sector eisoes, fel bod y galw am eu nwyddau a'u gwasanaethau'n cynyddu. Ceir galw cryf am ymgyrch i godi ymwybyddiaeth wedi'i harwain gan y sector mentrau cymdeithasol ei hun. Dylid cynllunio unrhyw ymgyrch yn arbennig i gyfathrebu gwerthoedd sylfaenol mentrau cymdeithasol, a'r hyn sy'n wahanol amdanynt.

Mynegai

1.	Rhagair a'r cefndir.....	14
1.1.	Nodau ac amcanion	14
1.2.	Y cyd-destun ehangach	14
1.3.	Y cyd-destun o fewn Cymru	15
2.	Methodoleg	17
2.1.	Ymagwedd a fframwaith cysyniadol.....	17
2.2.	Diffiniad o Fenter Gymdeithasol.....	18
2.3.	Creu'r gronfa ddata	19
3.	Maint a chwmpas gweithgarwch mentrau cymdeithasol	22
3.1.	Nifer y mentrau cymdeithasol	22
3.2.	Ffurf gyfreithiol a statws elusen	24
3.3.	Trosiant	25
3.4.	Gweithgarwch mentrau cymdeithasol.....	28
3.5.	Cyflogeion	31
3.6.	Oedran a phrofiad o fasnachu	34
3.7.	Lleoliadau a Chymunedau yn Gyntaf.....	37
3.8.	Prif fuddiolwyr.....	39
3.9.	Targedu cyflogaeth	40
3.10.	Hyfforddiant	40
3.11.	Proffidioldeb a'r rhagolwg am gynaliadwyedd ariannol	42
4.	Heriau a chyfleoedd.....	44
4.1.	Mynediad at gyllid	44
4.2.	Caffael cyhoeddus	46
4.3.	Trosglwyddo asedau.....	53
4.4.	Cymorth busnes	55
4.5.	Arloesi a chystadlu	60
4.6.	Mesur effaith	62
4.7.	Cymorth a chyfathrebu Llywodraeth Cynulliad Cymru.....	67
5.	Casgliadau ac argymhellion.....	73
	Cyfeiriadau.....	78
	Atodiadau.....	79
	Atodiad A: Tabl o gategoriâu a gafodd eu cynnwys a'u heithrio	80
	Atodiad B: Methodoleg	82
	ATODIAD C: Mapiau dosbarthiad yn ôl meysydd gweithgarwch	88
	ATODIAD D: Atebion i'r arolwg - canlyniadau llinell uchaf	94
	ATODIAD E: Holiadur yr arolwg	108
	Atodiad F: Canllaw i'r testunau - cyfweiliadau manwl â'r sector cyhoeddus a sefydliadau cymorth.....	119
	Atodiad G: Canllaw i'r testunau - cyfweiliadau manwl â mentrau cymdeithasol	121
	Atodiad H: Rhestr o'r rhai a gyfwelwyd yn fanwl	124

Mynegai'r diagramau

Dangosyn 1.1: Sbectrwm o fodelau sefydliadol	15
Dangosyn 3.1: Y gyfran o fentrau cymdeithasol yn ôl y lefel o incwm a enillir.....	22
Dangosyn 3.2: Dadansoddiad o nifer, trosiant a chyflogaeth mentrau cymdeithasol yn ôl % o incwm a enillir	23
Dangosyn 3.3: Hunanddiffinio fel menter gymdeithasol.....	24
Dangosyn 3.4: Ffurf gyfreithiol mentrau cymdeithasol	24
Dangosyn 3.5: Statws elusen	25
Dangosyn 3.6: Lefel y trosiant blynyddol.....	26
Dangosyn 3.7: Dosbarthiad daearyddol yn ôl maint y trosiant.....	27
Dangosyn 3.8: Gweithgarwch a ganlynir	29
Dangosyn 3.9: Yr 20 menter gymdeithasol uchaf yn ôl trosiant.....	30
Dangosyn 3.9: Yr 20 menter gymdeithasol uchaf yn ôl trosiant.....	30
Dangosyn 3.10: Staff amser llawn.....	31
Dangosyn 3.11: Niferoedd, trosiant a chyflogaeth mentrau cymdeithasol yn ôl statws cyflogi.....	32
Dangosyn 3.12: Cyflogeion Rhan-amser	32

Dangosyn 3.13: Gwirfoddolwyr di-dâl.....	33
Dangosyn 3.14: Oriau a weithiwyd gan wirfoddolwyr yn y saith diwrnod diwethaf	33
Dangosyn 3.15: Arweinyddiaeth mentrau cymdeithasol	34
Dangosyn 3.16: Oed y sefydliad.....	34
Dangosyn 3.17: Oedran o'i gymharu â chategori menter gymdeithasol	35
Dangosyn 3.18: Dosbarthiad daearyddol mentrau cymdeithasol yn ôl eu hoedran.....	36
Dangosyn 3.19: Cyfnod dechrau masnachu nwyddau a gwasanaethau	37
Dangosyn 3.20: Ardaloedd gweithredu mentrau cymdeithasol.....	37
Dangosyn 3.21: Lleoliad mentrau cymdeithasol a atebodd yr arolwg.....	38
Dangosyn 3.22: Cwsmeriaid o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf	39
Dangosyn 3.23: Prif fuddiolwyr.....	39
Dangosyn 3.24: Targedau cyflogaeth	40
Dangosyn 3.25: Y gyfran sy'n darparu hyfforddiant i staff.....	41
Dangosyn 3.26: Cysylltiadau ag ysgolion, colegau neu brifysgolion ar gyfer hyfforddi staff.....	41
Dangosyn 3.27: Defnydd o warged	42
Dangosyn 3.28: % cyfanswm yr incwm a enillir drwy gontractau, cytundebau lefel gwasanaeth, cynnyrch a gwasanaethau	43
Dangosyn 4.1: Mathau o gyllid a ffefrir.....	44
Dangosyn 4.2: Y gyfran sy'n defnyddio cyllid heblaw am grantiau	45
Dangosyn 4.3: Y gyfran o incwm a enillir drwy gontractau llywodraeth, cytundebau lefel gwasanaeth neu werthu cynnyrch a gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion a sefydliadau	47
Dangosyn 4.4: Lefel y diddordeb mewn darparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus.....	48
Dangosyn 4.5: Y prif heriau wrth ddarparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus	49
Dangosyn 4.6: Y gyfran sydd wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru.....	51
Dangosyn 4.7: Lleoliadau'r rhai sydd wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru.....	52
Dangosyn 4.8: Cyfran y mentrau cymdeithasol sy'n ymwybodol o Agor Drysau	53
Dangosyn 4.9: Y gyfran sy'n berchen ar eu heiddo neu eu tir eu hunain neu a chanddynt les hir o fwy na 50 mlynedd	54
Dangosyn 4.10: Y prif ffynonellau cyngor neu gymorth	56
Dangosyn 4.11: Y ffynonellau cyngor a chymorth pwysicaf.....	57
Dangosyn 4.12: Lefel y bodlonrwydd â chymorth busnes.....	58
Dangosyn 4.13: Y mathau o gymorth y ceir galw amdanynt.....	59
Dangosyn 4.14: Y tri phrif faes cymorth busnes yn ôl trosiant.....	59
Dangosyn 4.15: Y canfyddiad o lefel llwyddiant.....	63
Dangosyn 4.16: Mesur effaith.....	64
Dangosyn 4.17: Defnydd o safonau ansawdd.....	65
Dangosyn 4.18: Defnydd o ddulliau i fesur perfformiad cymdeithasol	66
Dangosyn 4.19: Dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lwyddiant sefydliadau.....	68
Dangosyn 4.20: Dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sefydliadau	69
Dangosyn 4.21: Cyfathrebiadau'r Sector Cyhoeddus	70
Dangosyn 4.22: Y Cymorth a Ddymunir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	71
Dangosyn 6.1: penderfyniadau ar 'achosion anodd' a chymhariaeth â methodoleg mapio SEEDA	80
Dangosyn 7.1: Cynnwys ac eithrio o'r gronfa ddata CDDau	83
Dangosyn 7.2: Cynnwys ac eithrio o'r gronfa ddata elusennau	84
Dangosyn 7.3: Cynnwys ac Eithrio o'r Gronfa Ddata Cwmnïau Cyfyngedig trwy Warant	85
Dangosyn 7.4: Categoriâu cynnwys.....	86
Dangosyn 7.5: Dibynadwyedd ystadegol ar gyfer samplau o faint amrywiol	87
Dangosyn 7.6: Arwyddocâd ystadegol	87
Dangosyn 8.1: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Diwylliant, y Celfyddydau a'r Cyfryngau	88
Dangosyn 8.2: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Gofal Plant, Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol.....	89
Dangosyn 8.3: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg.....	90
Dangosyn 8.4: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Cymorth Busnes, Menter Gymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol.....	91
Dangosyn 8.5: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Bwyd ac Arlwyyo, Cadwraeth a Threftadaeth ac Ynni a Chyfleustodau	92
Dangosyn 8.6: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth.....	93

1. Rhagair a'r cefndir

1.1. Nodau ac amcanion

Ym mis Mai 2008, comisiynwyd Sector Projects, Geoeconomics a The Research Unit gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal ymarfer i fapio a rhoi darlun sylfaenol o weithgarwch mentrau cymdeithasol ledled Cymru. Nod cyffredinol yr astudiaeth oedd sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a manylach o faint, cwpas, natur, cyflwr a rôl mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Yn benodol, roedd yr astudiaeth yn anelu i:

- Ddatblygu **dull mapio** cadarn sy'n gymharol hawdd i'w ailadrodd yn rheolaidd;
- Defnyddio'r dull hwn i greu darlun clir o nifer, nodweddion a dosbarthiad mentrau cymdeithasol yng Nghymru, i'w ddefnyddio fel **llinell sylfaen** i fesur newid yn ei herbyn, gan gynnwys cyflawni amcanion Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 ar gyfer Cymru a'r *Trydydd Dimensiwn*;
- Canfod **mesurau i gipio ac ynysu effaith** Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 (yn hytrach na newid oherwydd twf naturiol neu newid economaidd er enghraifft) a chymryd darlleniadau sylfaenol o'r mesurau hyn;
- Yn deillio o'r ymarfer mapio, creu **cronfa ddata** o fentrau cymdeithasol wedi'u trefnu mewn categorïau yn ôl eu cyfraniad i'r economi, i les cymdeithasol neu eu budd i'r amgylchedd; a
- Dadansoddi **sut y gallai Llywodraeth y Cynulliad gefnogi'r sector yn fwy effeithiol** drwy ychwanegu gwerth, a phennu ym mha feysydd y byddai'n fwy defnyddiol iddi ganolbwyntio'i hymdrechion.

Cafodd yr holl nodau hyn eu cyflawni. O ran "canfod mesurau i gipio ac ynysu effaith Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009", ffocws yr astudiaeth oedd cipio darlun sylfaenol o nifer y mentrau cymdeithasol yng Nghymru, eu maint, eu trosiant, y swyddi yr oeddynt yn eu creu a'u hardal/maes gweithgarwch. Nid oedd modd dadansoddi'r effaith y mae mentrau cymdeithasol eu hunain yn ei chael ar gymunedau yng Nghymru gan nad oes gan fentrau cymdeithasol, hyd yma, unrhyw ddulliau cadarn na chyson o gasglu digon o wybodaeth am effaith. Trafodir hyn ymhellach yn adran 4.6

Mae'r astudiaeth hon yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at roi cymorth i fentrau cymdeithasol gael tyfu a ffynnu. Mae'r dull o gyflawni hyn wedi'i nodi yng Nghynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru a lansiwyd fis Ionawr 2009. Mae'r cynllun yn cynnwys 20 o gamau allweddol i helpu'r sector i ehangu, i dyfu mentrau sy'n bodoli eisoes, ac i helpu mentrau cymdeithasol newydd i'w sefydlu eu hunain. Un o'r camau yw defnyddio canlyniadau'r astudiaeth hon i gynyddu'r dealltwriaeth o weithgarwch mentrau cymdeithasol a rhannu'r wybodaeth honno er budd mentrau cymdeithasol.

1.2. Y cyd-destun ehangach

Er bod mentrau cymdeithasol wedi bodoli ers canrifoedd, er enghraifft ar ffurf cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydfuddiannol, mae'r syniad o fenter gymdeithasol ac o entrepreneuriaeth gymdeithasol wedi dod yn fwyfwy pwysig dros y blynyddoedd diwethaf. Ar raddfa fyd eang, mae llawer yn gweld bod angen newid ein dull presennol o feddwl am yr economi a thrawsnewid y modd y mae marchnadoedd cyfalaf a busnes yn gweithio, er mwyn symud y ffocws o fwyafu elw i sicrhau lles cyffredin cymdeithas. Mae'r ffordd yma o feddwl wedi dod yn gynyddol amlwg yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Ystyrir bod y datrysiadau a gynigir gan fentrau cymdeithasol yn fwyfwy perthnasol i'r gwaith o greu economi mwy cymysg sy'n esgor ar fwy o gynaliadwyedd a chyfluoedd cymdeithasol.

Daeth mentrau cymdeithasol yn ganolbwynt i bolisiâu o fewn y llywodraeth gyda chread yr Uned Mentrau Cymdeithasol yn yr hen Adran Masnach a Diwydiant (DTI) yn 2001. Yn *Social Enterprise Strategy* (2006) diweddaraf Llywodraeth y DU ¹ ystyrir bod mentrau cymdeithasol yn cyfrannu tuag at gymdeithas yn y ffyrdd canlynol:


¹ Cabinet Office, Office of the Third Sector, *Social enterprise action plan: Scaling new heights*, November 2006.

- Mynd i'r afael â rhai o heriau cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf anodd ein cymdeithas;
- Gosod safonau newydd ar gyfer marchnadoedd moesegol, gan wella safon cyfrifoldeb corfforaethol;
- Gwella gwasanaethau cyhoeddus, siapia dyluniad gwasanaethau ac arloesi gydag ymagweddau newydd; a
- Chynyddu lefelau mentergarwch, gan ddenu pobl newydd i fyd busnes.

Mae mentrau cymdeithasol eisoes yn chwarae rhan bwysig yn economi'r DU. Mewn sectorau gan gynnwys tai, hamdden a chludiant, mae mentrau cymdeithasol yn helpu i ddiwallu anghenion lleol am wasanaethau, drwy ddarparu gwasanaethau i bobl yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU. Mewn sectorau eraill eraill, fel iechyd a gofal cymdeithasol, ailgylchu, ynni adnewyddadwy a gwasanaethau hyfforddi a chyflogaeth, mae mentrau cymdeithasol yn dechrau dod i'r amlwg. Gallai'r mentrau hyn fod wedi cael eu sefydlu gan entrepreneuriaid a chanddynt gymhellion cymdeithasol, fod yn elusen sefydledig sy'n ystyried troi'n fwy 'mentrus', neu ddeillio o'r sector cyhoeddus.

Mae gan fentrau cymdeithasol ystod o fodelau sefydliadol sy'n amrywio rhwng elusennau a noddir drwy grantiau a mentrau dielw, gan gyfrannu tuag at economi mwy cymysg, fel sefydliadau sy'n anelu i sicrhau dwywaith neu deirgwaith y llinell isaf - sef enillion ariannol, ochr yn ochr â manteision cymdeithasol ac/neu amgylcheddol (gweler y diagram). Yn yr astudiaeth fapio hon, canolbwyntir yn bennaf ar fodelau sefydliadol 2, 3 a 4.

Dangosyn 1.1: Sbectrwm o fodelau sefydliadol



Ffynhonnell: *Financing Civil Society, Venturesome 2008*²

Ceir cryn fomentwm yn y sector mentrau cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae entrepreneuriaid a sefydliadau cymdeithasol yn datblygu'n gynyddol fodelau busnes cymdeithasol sy'n mynd i'r afael ag ystod o broblemau cymdeithasol ac amgylcheddol; mae amryw o gronfeydd llywodraeth wedi cael eu sefydlu er mwyn helpu i sbarduno'r sector a rhoi mentrau cymdeithasol mewn sefyllfa well i ennill contractau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus; canolbwyntir yn gynyddol ar fesur enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (ECaF); ac mae'r sector wedi ennill sylw cynyddol gan y sector preifat, wrth iddo anelu i symud y tu hwnt i gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol a chwilio am bartneriaid ar ffurf mentrau cymdeithasol eraill, i gydweithio â hwy neu fuddsoddi ynddynt yn rhan o strategaeth fasnachol.

1.3. Y cyd-destun o fewn Cymru

Mae gan Gymru hanes hir o fentrau cymdeithasol. Deuai rhai o ddatblygwyr modelau menter gymdeithasol llwyddiannus ac arloesol o Gymru. Er enghraifft, Robert Owen a sefydlodd y mudiad cydweithredol dros 150 o flynyddoedd yn ôl, ac Aneurin Bevan, a fodelodd y GIG ar gynllun hunangymorth cymunedol a oedd yn cael ei gynnal gan Gymdeithas Cymorth Meddygol Gweithwyr Tredegar.

Mae'r arloeswyr hyn yn adlewyrchu'r gwerthoedd yng nghymdeithas Cymru sy'n creu awydd i gydweithredu er lles pawb. Adlewyrchwyd ysbryd hyn yn fwy diweddar wrth greu Glas Cymru, a gafodd ei ffurfio yn 2001. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant heb unrhyw randdeiliaid, ac mae unrhyw wargedion yn cael eu hailfuddsoddi er budd cwsmeriaid neu eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau

² Venturesome, *Financing Civil Society: A Practitioner's Guide to the Social Investment Market*, September 2008

elusennol. Mae gwerthoedd o'r fath yn sail ar gyfer amgylchedd lle gallai mentrau cymdeithasol ffynnu a datblygu'n rhan annatod o fywyd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru..

O safbwynt polisi, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi canolbwyntio ar fentrau cymdeithasol ers 'Strategaeth Mentrau Cymdeithasol 2005 ar gyfer Cymru'. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n lleoli mentrau cymdeithasol yn rhan o'r 'trydydd sector' (neu'r economi gymdeithasol). Yr Is-adran Cymunedau, sy'n rhan o'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am y Trydydd Sector Mae gan yr Is-adran Cymunedau ystod o gyfrifoldebau, gan gynnwys darparu ac ariannu rhaglenni adfywio a chynhwysiant cymdeithasol a gynhelir mewn ardaloedd lleol.

Yng Nghynllun Gweithredu Strategol y Trydydd Sector - Y Trydydd Dimensiwn, a lansiwyd yn 2008, nodwyd yn glir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn rhan o'r Trydydd Sector, a'u bod yn wahanol ac ar wahân i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Adlewyrchir hyn hefyd yn nhrefniadau partneriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, lle cafodd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ei ailenwi'n Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, ac yr ychwanegwyd categori aelodaeth newydd i gynrychioli safbwyntiau mentrau cymdeithasol. Mae'r Uned Trydydd Sector newydd yn yr Is-adran Cymunedau yn gyfrifol am bolisi'n ymwneud â'r sector cyfan, gan gynnwys mentrau cymdeithasol yng Nghymru..

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar fentrau cymdeithasol yn y gymuned a all fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol ac economaidd, tlodi ac anfantais gymdeithasol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Fel y nodwyd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

"Mae gan Gymru draddodiad byw o hunaniaeth gymunedol a helpu'i hun. Rydym am adeiladu ar yr hunaniaeth hon drwy roi'r hyder i bobl ddatblygu atebion lleol i broblemau'r gymuned, a thrwy roi'r arian a'r cymorth iddynt wneud hynny."

Ystyrir mentrau cymdeithasol yn gyfrwng i gyflawni'r nod hwn. Mae cyllid wedi cael ei gyfeirio tuag at fentrau cymdeithasol cymunedol drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf a'r Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol arfaethedig.

Er hynny, ceir cydnabyddiaeth oddi mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru y gellid datblygu'r model menter gymdeithasol i gyfrannu tuag at foderneiddio a gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus craidd. Un o gamau Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 yw archwilio sut y gellid ailadrodd model Glas Cymru er mwyn hyrwyddo agweddau ar wella gwasanaethau cyhoeddus.

Cydnabyddir hefyd y gall mentrau cymdeithasol ddarparu modelau busnes amgen i'r economi brif-ffrwd. Felly, mae'r Is-adran Cymunedau'n gweithio i ymwreiddio polisi mentrau cymdeithasol i holl bolisiâu a rhaglenni economaidd Cynulliad Cymru.

Dyluniwyd yr astudiaeth hon i gynnwys yr ystod lawn o fentrau cymdeithasol, o sefydliadau cymunedol hyd at gwmnïau cymdeithasol ar raddfa genedlaethol.

Dyma drefn yr adroddiad:

- Ym **Mhennod 2** disgrifir y fethodoleg ymchwil, a oedd yn cynnwys arolwg graddfa fawr a chyfweliadau manwl.
- Ym **Mhennod 3** cyflwynir canfyddiadau'r ymchwil o ran maint a chwmpas gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru.
- Ym **Mhennod 4** dadansoddir yr hyn a ystyrir yn brif heriau ac yn brif fentrau gan fentrau cymdeithasol wrth iddynt dyfu a datblygu, gan gynnwys y math o gymorth yr hoffent ei gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Ym **Mhennod 5** cyflwynir cyfres o argymhellion wedi'u dylunio i oleuo ac ategu Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2. Methodoleg

2.1. Ymagwedd a fframwaith cysyniadol

Cafodd yr astudiaeth fapio ei seilio ar ddwy golofn fethodolegol a oedd yn darparu data meintiol ac ansoddol cyflenwol:

- Arolwg dros y ffôn o sampl gynrychioliadol o fentrau cymdeithasol yng Nghymru; a
- Chyfweliadau manwl â 26 o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau rhwydweithio, darparwyr cymorth busnes a sefydliadau llywodraethol.

Cafodd dyluniad yr arolwg ei seilio ar wersi a ddysgwyd o ymarferion mapio blaenorol a gwaith ECOTEC, a gomisiynwyd gan yr Uned Mentrau Cymdeithasol yn 2003 i lunio arfer gorau ar gyfer mapio, fel bo modd cymharu a safoni ar draws rhanbarthau gwahanol. Nid tasg hawdd yw cynnal arolwg o fentrau cymdeithasol gan nad yw “menter gymdeithasol” yn sector ar wahân y gellir ei adnabod yn hawdd - dull ydyw, yn hytrach, o weinyddu busnes. Cafwyd dwy brif ymagwedd tuag at fapio mentrau cymdeithasol yn y DU hyd yma.

Mae'r ymagwedd gyntaf, a ddatblygwyd gan ECOTEC, yn canolbwyntio ar ganfod sefydliadau a chanddynt ffurfiau cyfreithiol penodol sy'n adlewyrchu cyfeiriadaeth gymdeithasol - cwmnïau cyfyngedig trwy warant (CCtWau), a chymdeithasau diwydiannol a darbodus (CDDau) yw'r rhain yn bennaf - a chyfuno hyn â gwybodaeth leol am fentrau cymdeithasol hysbys. Yn 2005, defnyddiodd IFF Research Ltd yr ymagwedd hon i fapio mentrau cymdeithasol ledled y DU, gan gyfuno data cenedlaethol ar CCtWau a CDDau â gwybodaeth leol o ranbarthau unigol. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio'r ymagwedd hon cafodd nifer o fentrau cymdeithasol nad ydynt ar y ffurfiau cyfreithiol hynny eu heithrio. Ar yr un pryd, cafodd eraill na fyddai'n cael eu hystyried yn gymwys ar y cyfan eu cynnwys, gan nad oedd yr ymagwedd yn eglurhau'r categorïau o weithgarwch cymdeithasol i'w cynnwys neu eu heithrio.

Ail ymagwedd, a gyflwynwyd yn 2005, oedd ychwanegu cwestiynau at yr Arolwg Busnesau Bychain Blyneddol er mwyn canfod y busnesau hynny sy'n fentrau cymdeithasol. Dangoswyd diffiniad o fenter gymdeithasol i unigolion cyswllt y sefydliadau, a gofynnwyd a oeddynt yn eu hystyried eu hunain yn fenter gymdeithasol ar sail hynny.³

Mae'r anghysondeb rhwng yr amcangyfrif o 15,000 drwy ymagwedd ECOTEC ac IFF o gyfanswm y mentrau cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr ac o 55,000 drwy ymagwedd yr Arolwg Busnesau Bychain Blyneddol yn dangos pa mor anodd yw hi i roi'r diffiniad eang ac agored iawn o fenter gymdeithasol ar waith, mewn sefyllfa lle na cheir mynediad at unrhyw gronfeydd data hawdd sy'n trafod y maes, a lle bo mentrau cymdeithasol yn gorgyffwrdd yn sylweddol ag elusennau a busnesau.

Yn yr astudiaeth hon, dilynwyd yr ymagwedd gyntaf, ond cafodd y ffynonellau data eu hehangu drwy gynnwys gwybodaeth o Rwydwaith Mentrau Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, cronfeydd cenedlaethol am fathau neilltuoel o fentrau cymdeithasol fel Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a chwmnïau cydweithredol, a sefydliadau sy'n anghorfforedig neu sy'n mabwysiadu modelau cyfreithiol eraill yn hytrach na chwmnïau cyfyngedig trwy warant, neu gymdeithasau diwydiannol a darbodus, er enghraifft, cwmnïau cyfyngedig trwy gyfranddaliadau.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar waith ymchwil cychwynnol a gyflawnwyd gan Brifysgol Morgannwg yn 2002 ar ran y Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol ac Awdurdod Datblygu Cymru. O'r hyn yr ydym yn ei ddeall ynglŷn â'r gwaith ymchwil hwn, fe'i datblygwyd drwy gynnal arolwg ymysg cysylltiadau a oedd yn hysbys yn y sector, ac fe ganfuwyd oddeutu 600 o sefydliadau. Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn casglu'r holl wybodaeth am gysylltiadau hysbys yn ogystal â defnyddio diffiniad Cymreig i greu grŵp o sefydliadau sy'n cyflawni gweithgarwch menter gymdeithasol o ystod ehangach o ffynonellau data.

³ www.berr.gov.uk/files/file38237.pdf

2.2. Diffiniad o Fenter Gymdeithasol

Yn unol â Llywodraeth y DU, dyma ddiffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o fenter gymdeithasol:

"Busnes a chanddo amcanion sy'n bennaf yn rhai cymdeithasol ac y caiff ei wargedion eu hail-fuddsoddi'n bennaf yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na bod y busnes yn seiliedig ar yr angen i gynyddu'r elw i'r eithaf ar gyfer cyfranddalwyr."

Er mwyn rhoi'r diffiniad eang hwn ar waith, ac er mwyn gallu cymharu ag ymarferion mapio cenedlaethol a rhanbarthol eraill, defnyddiwyd tri phrawf cydnabyddedig ar gyfer mentrau cymdeithasol, gan ddilyn y rhai a nodwyd yng nghanllawiau gwreiddiol ECOTEC ar fapio, ac a ategwyd gan Gynghrair Mentrau Cymdeithasol y DU (SEC UK). Dyma nhw:

- **Cyfeiriadaeth y fenter** - yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer marchnad arbennig. (Gellir nodi hyn hefyd yn y duedd gynyddol mewn incwm a enillir dros gyfnod ymysg y rhai sy'n cael eu diddyfnu oddi wrth ddibyniaeth ar grantiau, yn enwedig lle bo lefel gyfredol y gweithgarwch menter yn isel);
- **Nodau cymdeithasol** – nodau cymdeithasol ac/neu amgylcheddol clir. (Cymhwysir prawf y Cwmni Buddiannau Cymunedol yma, lle defnyddir y prawf 'unigolyn rhesymol' ar fuddiannau cymunedol a buddiannau ehangach y cyhoedd, lle dylai mynediad at fuddiannau fod "ar gael yn eang a heb ei gyfyngu'n ormodol i grŵp arbennig o bobl"); a
- **Pherchnogaeth gymdeithasol** – sefydliadau ymreolaethol gydag elfen o lywodraeth gyfranogol sy'n cynnwys rhanddeiliaid ac ymddiriedolwyr, a'r elw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gymuned neu ei rannu ymysg rhanddeiliaid. (Mae hyn yn cynnwys sefydliadau â chyllid cyhoeddus ar yr amod nad yw'r llywodraeth yn penodi mwy na thraean yr ymddiriedolwyr neu'r bwrdd ac/neu'n arfer awdurdod llywodraethol)⁴

Gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd segmentu sefydliadau yn ôl y gyfran o incwm a enillir fel bo modd canfod i ba raddau y maent wedi datblygu a lefel eu gweithgarwch fel menter gymdeithasol. Diffiniwyd y tri chategori canlynol⁵:

- Dylid cynnwys sefydliadau sy'n bodloni'r meini prawf eraill ac sy'n creu 15% i 25% o'u hincwm drwy fasnachu fel mentrau cymdeithasol **eginol**;
- Bydd sefydliadau sy'n creu 25% i 50% o'u hincwm yn cael eu cynnwys fel mentrau cymdeithasol **datblygol**; a
- Cyfeirir at sefydliadau sy'n ennill mwy na 50% o'u hincwm drwy fasnachu, a'u cynnwys, fel mentrau cymdeithasol **sefydledig**.

Drwy'r adroddiad rydym yn galw mentrau cymdeithasol naill ai'n "eginol", yn "datblygol" neu'n "sefydledig". Mae'r diffiniadau hyn yn rhoi gwybodaeth am lefel gymharol y gweithgarwch menter gymdeithasol.

Gwnaethom hefyd ddewis dadansoddi'r gyfran o fentrau cymdeithasol 'eginol' a 'datblygol' a oedd yn anelu i gynyddu eu cyfran o incwm a enillir er mwyn gweld faint sydd ar daith wirioneddol i ddatblygu'n fwy hunangynhaliol drwy ennill incwm, neu sy'n rhan o sbectrwm eang o sefydliadau trydydd sector sy'n cyflawni eu nodau drwy gymysgedd amrywiol o incwm a enillir ac incwm heb ei ennill.

O ran **perchnogaeth gymdeithasol**, cytunwyd y dylid cynnwys cwmnïau heb eu cofrestru lle bo modd. Cafodd sefydliadau yr oedd cyflogaion yn berchen arnynt hefyd eu cynnwys er bod rhai eithriadau gweddol glir, fel partneriaethau ariannol.

⁴Cafodd y maen prawf hwn ei gynnwys mewn gwaith tebyg a gyflawnwyd ar gyfer SEEDA (South East of England Development Agency)

⁵Mewn nifer fach o achosion rydym wedi cynnwys sefydliadau a chanddynt lai na 15% o incwm a enillir. Y meini prawf ar gyfer cynnwys y sefydliadau hyn oedd eu bod yn eu diffinio'u hunain fel mentrau cymdeithasol ac ar eu dwy flynedd gyntaf yn masnachu.

Hyd yn oed o fewn y meini prawf diffiniol hyn, roedd nifer o enghreifftiau o ansicrwydd ynghylch a ddylid cynnwys rhai mathau o sefydliadau e.e. clybiau chwaraeon a sefydliadau diwylliannol. Cafodd achosion anodd eu trafod gyda grŵp llywio'r prosiect, a gwnaed penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnwys neu eithrio categorïau sefydliad penodol. Er mwyn cymharu, mae'r penderfyniadau a wnaed gan SEEDA ar gyfer ymarfer mapio tebyg hefyd wedi'u cynnwys (gweler Atodiad A).

2.3. Creu'r gronfa ddata

Dilynwyd y camau canlynol i greu cronfa ddata o fentrau cymdeithasol yng Nghymru:

- Defnyddiwyd gwybodaeth am sefydliadau a gafwyd drwy GuideStar, un o'r prif ddarparwyr gwybodaeth sefydliadol am elusennau a sefydliadau eraill a chanddynt nodau cymdeithasol yn bennaf. Drwy ddefnyddio gwybodaeth am gofnodion cwmnïau, cafodd yr incwm a enillwyd gan sefydliadau ei ddadansoddi ac fe gafodd sefydliadau a chanddynt lai na 15% o incwm a enillir eu tynnu o'n ffynonellau data GuideStar.
- Darparodd GuideStar dair cronfa ddata o wybodaeth ar gyfer Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, cwmnïau cyfyngedig trwy warant (CCtWau) ac elusennau. Bu hyn yn fodd i greu rhestr hir o fentrau cymdeithasol posibl.
- Drwy'r broses, cafwyd rhestr gychwynnol o 2,273 o elusennau, 3,033 o gwmnïau cyfyngedig trwy warant a 699 o Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (CDDau).
- Yna cymhwysodd Geoeconomics a'r Research Unit y meini prawf diffiniol ar gyfer menter gymdeithasol a chael gwared ag enwau sefydliadau a ymddangosai fwy nag unwaith yn nhair cronfa ddata GuideStar. Yn ogystal â hyn, datblygwyd system ddosbarthu i ganfod amrywiaeth mentrau cymdeithasol Cymru yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt â Grŵp Llywio'r Prosiect (gweler Atodiad B). Gostyngodd hyn y tair cronfa ddata i'r meintiau canlynol: 1,548 elusennau, 970 o gwmnïau cyfyngedig trwy warant a 300 o Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus.
- Yna ychwanegwyd a gwiriwyd data o'r ffynonellau gwybodaeth ychwanegol canlynol:
 - o Cwmnïau Buddiannau Cymunedol sy'n Gyfyngedig drwy Gyfranddaliadau ac nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghronfa ddata GuideStar.
 - o Ffynonellau data Cymreig, gan gynnwys y Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol, Cylch, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun.
 - o Cafodd cronfeydd data cenedlaethol, canlyniadau gwobrau mentrau cymdeithasol a gwybodaeth y tîm hefyd eu defnyddio i ailwrio'r gronfa ddata am fathau penodol o fentrau cymdeithasol, a hefyd i ganfod y mentrau cymdeithasol hynny sy'n gwmnïau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau neu i nodi neu archwilio categorïau neilltuoel o fentrau cymdeithasol.

Yn ogystal â defnyddio'r dadansoddiad rhagarweiniol hwn i ddidoli sefydliadau, defnyddiwyd adran gyntaf yr holiadur i hepgor sefydliadau a oedd yn pasio prawf y gronfa ddata ond nad oedd mewn gwirionedd yn cyflawni unrhyw weithgarwch menter gymdeithasol. Drwy'r prosesau hyn, crëwyd cronfa ddata ac ynddi gyfanswm o 3,055 o fentrau cymdeithasol posibl ar gyfer y gwaith o ymchwilio i'r maes.

Trafodir y camau hyn yn fanylach yn Atodiad B.

2.3.1. Samplu cwota

Dilynwyd ymagwedd samplu cwota er mwyn cyflawni'r gwaith ymchwil hwn. Mae samplu cwota'n sicrhau bod sefydliadau a ddewisir i'w harchwilio ymhellach drwy holiadur yn cynrychioli'r boblogaeth lawn o sefydliadau drwy samplu ar sail segmentau amrywiol. Er enghraifft, byddai'r sefydliadau a fyddai'n cymryd rhan yn yr holiadur yn adlewyrchu yr un cyfrannau o gategorïau gwahanol o incwm a enillir â'r hyn a geir yn y gyfres lawn o sefydliadau. Y cwotâu a ddefnyddiwyd wrth gynnal y gwaith maes hwn oedd y system godau, h.y. prif weithgareddau, ffurf gyfreithiol y sefydliad, trosiant, incwm masnachu a lleoliad.

2.3.2. Graddfeydd ymateb

Anfonwyd llythyrau a gohebiaeth drwy e-bost at sefydliadau yn y gronfa ddata a chysylltu dros y ffôn ar ôl anfon yr ohebiaeth. Cysylltwyd â 3,055 o fentrau cymdeithasol posibl drwy lythyr neu e-bost a dechreuwyd cyfweiliadau dros y ffôn â siampl o 764 o sefydliadau. Roedd 618 o'r sefydliadau hyn yn fentrau cymdeithasol cymwys. Cynhaliwyd y 618 o gyfweiliadau ag uwch-swyddogion yn y sefydliadau hyn - prif weithredwyr a pherchnogion yn bennaf.

2.3.3. Cynllun yr Holiadur

Roedd dwy ran i'r holiadur. Defnyddiwyd rhan gyntaf yr arolwg i wirio a oedd y mentrau cymdeithasol posibl a nodwyd wrth lunio'r gronfa ddata yn fentrau cymdeithasol mewn gwirionedd. Gwiriwyd hyn drwy fynd drwy bob cam o'r diffiniad i gadarnhau y dylid cynnwys y sefydliad dan sylw. Defnyddiwyd ail ran yr arolwg i gywain gwybodaeth sylfaenol am gyfansoddiad y sector, a dyna yw prif gorff yr adroddiad hwn. Drwy'r elfen hidlo ar ddechrau'r arolwg a'r adborth a gafwyd drwy lythyrau a dderbyniwyd, cafodd 5% o'r sampl eu heithrio am nad oedd y sefydliadau hynny, mewn gwirionedd, yn ennill mwy na 15% o'u hincwm drwy fasnachu, neu am nad oeddynt yn fentrau cymdeithasol. Cyflwynir canlyniadau pennawd yr arolwg yn Atodiad D ynghyd â'r holiadur ar gyfer yr arolwg yn Atodiad E. Ar gyfartaledd, roedd hi'n cymryd 30 munud i gwblhau'r arolygon.

2.3.4. Dibynadwyedd ystadegol

Gan fod 618 o gyfweiliadau wedi cael eu cynnal, mae'r canlyniadau'n hynod ddibynadwy. Dibynadwyedd ystadegol cyffredinol y canlyniadau yw oddeutu +/-4% o fewn lefel hyder o 95%. Mae hyn yn golygu, ar gyfer unrhyw gwestiwn a atebir gan yr holl fentrau cymdeithasol bydd canran y sampl o fewn 4% i ymateb y boblogaeth gyfan ohonynt.

Dim ond sampl o'r "boblogaeth" gyfan yw'r rhai a atebodd yr arolwg, felly ni allwn fod yn sicr a fyddai'r ffigurau yn union yr un peth pe bai pawb wedi cael eu cyfweled. Serch hynny, gallwn ddefnyddio gwybodaeth am faint y samplau y mae'r canlyniadau'n seiliedig arnynt, a'r nifer o weithiau y cafwyd ateb neilltuo i ragweld yr amrywiad rhwng canlyniadau'r sampl a'r "gwir" werthoedd. Fel arfer gallwn fod â hyder o 95% yn yr hyn a ragwelwn - hynny yw, ceir tebygolrwydd o 95 mewn 100 y bydd y "gwir" werth o fewn yr ystod a nodwyd, sef +/- 4% . Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn canolbwyntio ar ddangos gwahaniaethau sydd o arwyddocâd ystadegol. Fodd bynnag, yn ogystal â'r adroddiad, rydym wedi llunio tablau cyfrifiadurol manwl sy'n dangos ystod helaeth o groesdablu rhwng newidynnau.

2.3.5. Ymchwil Ansoddol

Yn ychwanegol at yr arolwg graddfa fawr a'r gwaith o ddatblygu cronfa ddata o fentrau cymdeithasol, cynhaliodd ein tîm hefyd gyfres o gyfweiliadau â 26 o bobl a oedd yn gweithio mewn ystod eang o feysydd menter gymdeithasol yn ogystal ag asiantaethau cymorth a sector preifat. Ceir rhestr o'r cyfweledigion yn Atodiad H. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn wyneb yn wyneb a thros y ffôn, gan gymryd awr i awr a hanner i'w cwblhau fel arfer. Ceir manylion y cwestiynau a holwyd yn Atodiadau F (sefydliadau sector cyhoeddus a sefydliadau cymorth) a G (mentrau cymdeithasol). Sicrhawyd bod cwestiynau'r cyfweiliadau'n archwilio'n fanylach ac yn adlewyrchu'r pwyntiau y cyfeiriwyd atynt yn holiadur yr arolwg.

Roedd dau brif bwrpas i'r cyfweiliadau hyn. I ddechrau, gan ein bod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil ansoddol cyn dechrau'r arolwg, rhoddodd hynny gyfle i ni brofi gosodiadau ar gyfer yr arolwg a datblygu darlun crwn o faterion allweddol sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol. Yn ail, roedd y cyfweiliadau manwl hyn yn gyfle i holi'n ddwys am fanylion ychwanegol a rhesymau ar gyfer pynciau neilltuo, sy'n amhosibl eu cael mewn arolwg.

Mae'r ymchwil ansoddol felly'n ychwanegu mewnwelediad a lliw at y canfyddiadau ac yn rhoi dealltwriaeth well o'r materion allweddol a'r heriau i sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol. Cynhaliwyd cyfanswm o 25 o gyfweiliadau. Daw'r holl ddyfyniadau mewn *italig* o'r cyfweiliadau manwl. Nid oes enwau'n gysylltiedig â safbwyntiau'r bobl a gymerodd ran yn y cyfweiliadau hyn.

2.3.6. Cymharu ag astudiaethau eraill

Ceir cryn amrywiaeth yn y methodolegau a ddefnyddir i nodi mentrau cymdeithasol mewn astudiaethau ymchwil mentrau cymdeithasol, felly mae'n anodd cymharu'r canlyniadau. Enghraifft o hyn yw'r astudiaeth IFF ac ymagwedd hunanddiffinio'r Arolwg Busnes Blynyddol y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Y prif ffactorau sy'n ei gwneud hi'n anodd cymharu astudiaethau'n agos â'i gilydd yw'r gwahaniaethau wrth ddiffinio ar y dechrau.⁶, gwahaniaethau yn y cronfeydd data a ddefnyddir i gysylltu â sefydliadau, cwestiynau gwahanol a ffyrdd gwahanol o gysylltu â sefydliadau, er enghraifft drwy'r post, dros y ffôn neu e-bost. Er hynny, mae ein methodoleg yn adeiladu ar fethodoleg yr astudiaeth IFF a'r ymagwedd fethodolegol a ddefnyddiwyd gan SEEDA a'r East Midlands Development Agency.

Fodd bynnag, astudiaeth ynglŷn â mentrau cymdeithasol Cymru yw hon uwchlaw popeth, ac ynddi canolbwyntir ar greu asesiad sylfaenol ar gyfer Cymru i olrhain a chefnogi twf gweithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru.

2.3.7. Nodyn ynglŷn â siartiau'r arolwg

Defnyddir siartiau i ddangos cymariaethau allweddol o fewn y data. Mae'n bosibl na fydd y ffigurau'n creu cyfanswm o 100% am amryw o resymau. I ddechrau, lle bydd ffigurau'n cael eu talgrynnu gallent greu cyfanswm o 99% neu 101% Yn ail, mewn cwestiynau amlgod, lle bydd modd dewis mwy nag un opsiwn, bydd hyn hefyd yn creu cyfanswm o fwy na 100%. Os bydd cwestiynau'n rhai amlgod, bydd hynny wedi'i nodi ym mhenawdau'r siartiau. Yn olaf, yn unol ag arferion cyffredin wrth ymchwilio i'r farchnad, ni fydd siartiau'n cynnwys y ganran 'ddim yn gwybod' oni bai fod y ganran honno'n fawr. Yn y data llinell uchaf ar ddiwedd yr arolwg, dangosir y cyfansymiau ar gyfer pob categori unigol.

I'r un graddau, lle defnyddir yr holiadur i hidlo mewn meysydd allweddol, gallai fod yn briodol hefyd i seilio cyfrifiadau'r siart a'r canrannau ar bawb wnaeth basio'r prawf hidlo, yn hytrach na'r sampl gyfan. Defnyddir sylfaen lai ar gyfer cwestiynau hidlo o'r fath yn y siartiau er mwyn edrych ar ymddygiad is-grŵp o'r holl sampl, er enghraifft, cyflwynir isod is-siartiau sy'n canolbwyntio'n unig ar y sefydliadau hynny a chanddynt ddiddordeb mewn cael cyllid drwy fenthyciadau, a'r rhai hynny sy'n mesur effaith. Os defnyddir sylfaen lai wedi'i thynnu o gwestiwn hidlo, bydd y cwestiwn hwnnw a'r sylfaen newydd wedi'u nodi yn y siart.

⁶Mae a wnelo'r gwahaniaethau diffinio'n bennaf â chynnwys neu eithrio mathau gwahanol o fentrau cymdeithasol ar feini prawf gwahanol, er enghraifft, y gyfran o incwm a enillir, math o 'nod cymdeithasol', ffurf y berchnogaeth gymdeithasol, maint yr elw a chyfyngiadau ar ddosbarthu'r elw hwnnw. Ym mwyafrif astudiaethau'r DU defnyddir naill ai trothwy o 50% o incwm a enillir, neu 25% i gynnwys mentrau 'datblygol'. Dim ond yng Nghymru y mae'r categori 15-25% o incwm a enillir wedi'i gynnwys ar ffurf mentrau cymdeithasol eginol.

3. Maint a chwmpas gweithgarwch mentrau cymdeithasol


3.1. Nifer y mentrau cymdeithasol

Rydym wedi canfod 3,055 o sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru. – masnachu i ddiben cymdeithasol. Ar gyfer yr astudiaeth hon, cafodd masnachu neu "incwm a enillir" (yn hytrach na grantiau) ei ddiffinio fel incwm drwy werthu cynnyrch neu wasanaethau, contractau llywodraeth a chytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau). Roedd y gyfran gymharol o incwm a enillir yn pennu a oedd menter gymdeithasol yn "eginol" (h.y. yn ennill 15% i 25% o'i incwm drwy fasnachu), yn "ddatblygol" (25% i 50% o incwm a enillir) neu'n "sefydledig" (mwy na 50% o incwm a enillir). Trafodwyd hyn ymhellach yn Adran 2 Methodoleg.

Mae deuparth y mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n sefydledig, felly maent yn ennill o leiaf hanner eu hincwm (cyfanswm o 2,730). Mae tu a chwarter (28%) o'r holl fentrau cymdeithasol yn eu cynnal eu hunain gan ennill 100% o'u hincwm. Cyfrannau lled-gyfartal o fentrau cymdeithasol eginol a mentrau cymdeithasol datblygol yw'r traean sy'n weddill.

Yr unig duedd y gellir ei chanfod mewn gwirionedd yw bod y sefydliadau mwyaf un yn fwy tebygol o fod â chyfran uwch o incwm a enillir: Mae gan 61% o'r sefydliadau sy'n ennill mwy na £500,000 fwy na 75% o incwm a enillir. Ceir oddeutu 425 o fentrau cymdeithasol a chanddynt drosiant blynyddol o fwy na £500,000 yng Nghymru.

Dangosyn 3.1: Y gyfran o fentrau cymdeithasol yn ôl y lefel o incwm a enillir



Mae ystod amrywiol o sefydliadau, nad yw nifer ohonynt o reidrwydd yn eu diffinio'u hunain yn ddigymell neu'n eu gweld eu hunain fel mentrau cymdeithasol, yn ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol. Roedd sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol yr un mor debygol o'u galw'u hunain yn elusennau (53%) â mentrau cymdeithasol neu gymunedol (47%). Dim ond traean o'r elusennau a oedd yn ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol oedd yn eu galw'u hunain yn fentrau cymdeithasol. Hefyd, elusennau sydd amlycaf ar y lefel trosiant £25k, gyda thua saith o bob deg (69%) o'r sefydliadau hyn yn eu galw'u hunain yn elusennau.

Yn y tabl isod, ceir manylion pellach ynghylch nifer, trosiant a chyflogaeth mentrau cymdeithasol, yn dibynnu ar y lefel o incwm y maent yn ei ennill eu hunain.

Dangosyn 3.2: Dadansoddiad o nifer, trosiant a chyflogaeth mentrau cymdeithasol yn ôl % o incwm a enillir


	Cyfanswm	Eginol	Datblygol	Sefydledig
		15-25% o incwm a enillir	25-50% o incwm a enillir	Mwy na 50% o incwm a enillir
	3054	504	448	2,102
Trosiant				
£0 - £25,000	33%	29%	29%	36%
£25,001 - £100,000	25%	26%	31%	23%
£100,001 - £500,000	21%	24%	26%	20%
£500,000+	14%	11%	8%	15%
Cyflogeion amser llawn				
0	52%	50%	49%	55%
1-5	26%	28%	37%	23%
6-10	8%	11%	5%	8%
11-25	5%	7%	5%	5%
26-50	3%	2%	1%	4%
51-100	2%	-	2%	3%
100+	2%	-	1%	2%

Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n eu diffinio'u hunain fel menter gymdeithasol yn ymddangos yn weddol hylifol. Yn ogystal â holi sefydliadau'n ddigymell i'w diffinio'u hunain ar ddechrau'r arolwg yn yr adran hidlo, gofynnwyd i'r sefydliadau yn ddiweddarach yn yr arolwg a oeddynt yn eu hystyried eu hunain yn fentrau cymdeithasol ar ôl bodloni'r meini prawf diffiniol. Bryd hynny, roedd 84% o'r sefydliadau'n barod i'w hystyried eu hunain yn fentrau cymdeithasol. Mae hyn yn amlygu'r ffaith nad yw rhai sefydliadau'n perthnasu â'r term "menter gymdeithasol" ond eu bod, mewn gwirionedd, yn gweithredu fel menter gymdeithasol. Mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw ein defnydd o ieithwedd bob tro wrth gyfathrebu'n gysylltiedig â mentrau cymdeithasol.

Dangosyn 3.3: Hunanddiffinio fel menter gymdeithasol

C I ba raddau ydych chi'n ystyried mai menter gymdeithasol yw eich sefydliad?

% Cytuno'n gryf % Cytuno % Heb gytuno nac anghytuno % Anghytuno % Anghytuno'n gryf



Sylfaen: 618 o sefydliadau

Ffynhonnell: TRU


3.2. Ffurf gyfreithiol a statws elusen

Cwmnïau cyfyngedig trwy warant yw oddeutu hanner y mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae tua un o bob deg naill ai'n ymddiriedolaeth neu'n anghorfforedig. Yn unol â'r disgwyl, mae sefydliadau llai'n fwy tebygol o fod yn anghorfforedig (mae gan 22% o sefydliadau anghorfforedig drosiant o lai na £25k) ac mae sefydliadau mwy'n fwy tebygol o fod yn Gwmnïau Diwydiannol a Darbodus (mae gan 20% o CDDau drosiant o fwy na £500k).

Dangosyn 3.4: Ffurf gyfreithiol mentrau cymdeithasol

C Beth yw ffurf gyfreithiol eich sefydliad?

% Ffurf gyfreithiol




Sylfaen: 618 o sefydliadau

Ffynhonnell: TRU

Mae bron deuparth y mentrau cymdeithasol yn elusennau cofrestredig neu mae ganddynt statws elusen eithriedig. Mae mentrau cymdeithasol eginol yn fwy tebygol o fod â statws elusen (72% o'i gymharu â chyfartaledd o 63%). Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, mae sefydliadau sy'n ennill 100% o'u hincwm a sefydliadau iau na phum mlwydd oed yn llawer llai tebygol o fod â statws elusen (54% a 30% yn ôl eu trefn).

Dangosyn 3.5: Statws elusen



3.3. Trosiant


Amcangyfrifwn mai maint y sector mentrau cymdeithasol o ran trosiant yw £2.2 biliwn⁷ yn seiliedig ar ffigurau 07/08. Mae hyn yn awgrymu bod y sector mentrau cymdeithasol yn cyfrannu tua 2.6% tuag at drosiant holl fentrau Cymru.⁸ Mae Cynghair Mentrau Cymdeithasol y DU yn amcangyfrif mai maint y sector mentrau cymdeithasol o ran trosiant yn y DU yw £27 biliwn.. Ar sail hyn, mae Cymru'n cyfrannu oddeutu 8% tuag at y ffigur cenedlaethol hwn. Mae hyn dros ddwywaith yn fwy na chyfraniad economi Cymru tuag at Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) sef 3.6%.

Nododd traean y mentrau cymdeithasol fod eu trosiant yn llai na £25k a dywedodd tua thraean ohonynt (35%) bod ganddynt drosiant o fwy na £100k. O ystyried bod 7% heb ddatgelu eu ffigurau trosiant, canolrif cyfartalog trosiant y mentrau cymdeithasol yw tua £50k. Yn ddiddorol, nid yw'n ymddangos fel pe bai unrhyw batrymau amlwg rhwng maint y trosiant a'r gyfran o incwm a enillir.

⁷Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar drosiant cyfartalog sefydliadau wedi'i luosi â chyfran y sefydliad sydd oddi mewn i'r ystod honno o drosiant e.e. Mae gan 35% o sefydliadau drosiant o lai na £25k a throsiant cyfartalog y sefydliadau hyn yw £14,227. Yna bydd y ffigur yma'n cael ei luosi â chyfanswm y sefydliadau. Gan fod y trosiant uchaf yn agored, y procsi ar gyfer y ffigur trosiant cyfartalog hwn oedd cyfartaledd cymedrig yr holl wybodaeth a oedd ar gael ynglŷn â throsiant (£11.6m). Cafodd y ffigur trosiant uchaf yma ei gymhwyso i 2% o'r sampl.

⁸ Mae data trosiant ar gyfer mentrau yng Nghymru wedi'i seilio ar ddata'r Ymchwiliad Busnes Blynnyddol a ryddhawyd ym mis Gorffennaf 2008. Ni ellid cymharu â GYA gan nad oes gennym ffigurau ar gyfer costau allbwn mentrau cymdeithasol.


Dangosyn 3.6: Lefel y trosiant blynyddol



Rydym wedi canfod 38 o sefydliadau menter gymdeithasol a chanddynt drosiant blynyddol o fwy na £5m. Yn Nangosyn 3.9 dangosir ugain uchaf y mentrau cymdeithasol yn ôl trosiant a gweithgarwch. O bellffordd, Glas Cymru, y cwmni dŵr cenedlaethol, yw'r fenter gymdeithasol fwyaf yng Nghymru gyda throsiant o £623 miliwn ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 08, 28% o gyfanswm trosiant y sector. Mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol hefyd yn sefydliadau mawr ac amcangyfrifir eu bod gyda'i gilydd yn cyfrannu 26% o gyfanswm trosiant amcangyfrifedig y sector.

O ran mentrau cymdeithasol mwy, mae'r dadansoddiad o'r gronfa ddata a'n harolwg yn dangos bod y rhain yn llawer mwy tebygol o fod wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru. O fewn y grŵp o awdurdodau lleol o Sir Fynwy yn y dwyrain at Abertawe yn y gorllewin, canfuwyd oddeutu 70% o'r mentrau cymdeithasol a chanddynt drosiant o fwy na £1 miliwn. Mewn cyferbyniad â hyn, roedd yr un awdurdodau lleol yn cynnwys dim ond 39% o'r mentrau cymdeithasol a chanddynt drosiant o lai na £100,000.

Dangosyn 3.7: Dosbarthiad daearyddol yn ôl maint y trosiant



Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Yn Ne Ddwyrain Cymru, Caerdydd sydd â'r crynhoad unigol mwyaf sylweddol o fentrau cymdeithasol mawr. Mae'n cynnwys 22% o'r mentrau mawr (trosiant blynnyddol o fwy na £1miliwn) a ganfuwyd yn yr arolwg. Fodd bynnag, yn debyg i'w awdurdodau cyfagos, mae ei chyfran o fentrau bychain yn llawer llai - ychydig dros 6%.

Yr ardaloedd a chanddynt y crynoddau uchaf o fentrau bychain mewn perthynas â'u poblogaeth yw'r rhai hynny y tu allan i'r awdurdodau lleol cymharol drwchus eu poblogaeth yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae gweddill Cymru (y tu allan i'r De Ddwyrain) yn cynnwys tua 60% o fentrau bychain (llai na £100,000 o drosiant blynnyddol), ond yn cynnwys dim ond 40% o'r trigolion.

Mae'r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd llai datblygedig hyn a'r De Ddwyrain i'w weld yn gliriach fyth o gymharu nifer y mentrau cymdeithasol fesul trigolyn. Yn Ne Ddwyrain Cymru ceir tua 0.77 o fentrau fesul mil o breswylwyr. Yng ngweddill Cymru ceir bron ddwywaith yn fwy ohonynt – 1.39 fesul mil o breswylwyr. Yn ôl canlyniadau'r arolwg, gellir galw oddeutu deuparth (65%) y rhain yn fentrau bychain. Dim ond 44% yw'r ffigur cymharol ar gyfer De Ddwyrain Cymru.

Yn syml, mae dosbarthiad y mentrau cymdeithasol ar y map yn dangos bod y niferoedd mwyaf o fentrau cymdeithasol, ac yn enwedig y crynoddau mwyaf o'r mentrau cymdeithasol mawr i'w cael yn nhrefi a dinasoedd De Ddwyrain Cymru. Yn yr ardaloedd mwy gwledig yng ngweddill Cymru ceir llai o fentrau

cymdeithasol o ran nifer ond darpariaeth sylweddol uwch o fentrau cymdeithasol fesul trigolyn. Mae mwyafrif y rhain, fodd bynnag, yn tueddu i fod yn fach (h.y. llai na £100,000 o droiant blyneddol).

3.4. Gweithgarwch mentrau cymdeithasol

Mae hyfforddiant ac addysg yn weithgarwch allweddol ymysg mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae traean o holl fentrau cymdeithasol Cymru'n ymwneud â'r math hwnnw o weithgarwch. Mae llawer o'r rhain yn darparu cyfleoedd am hyfforddiant a chyflogaeth i bobl dan anfantais, gan gynnwys pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a phobl ag anableddau. Cymraeg a'r celfyddydau yw prif weithgarwch chwarter y sector. Dywedodd 20% eu bod naill ai'n ymwneud â gwasanaethau cymorth mentrau cymdeithasol, gwasanaethau cymorth y sector gwirfoddol neu wasanaethau cymorth busnes. Mae chwaraeon a hamdden ynghyd â gofal cymdeithasol hefyd i'w gweld yn amlwg ymysg y mathau o weithgarwch a ganlynir gan fentrau cymdeithasol.

Gweler Atodiad C am fapiau sy'n dangos dosbarthiad mentrau cymdeithasol yn ôl y categorïau canlynol:


- Diwylliant, y celfyddydau a'r cyfryngau;
- Gofal plant, iechyd a chymdeithasol;
- Cyflogaeth hyfforddiant ac addysg;
- Bwyd ac arlwy;
- Gweithgareddau 'economi gwyrdd' – ailgylchu, cadwraeth, ac ynni a chyfleustodau; a
- Chwaraeon, hamdden a thwristiaeth.

Mae sefydliadau chwaraeon a hamdden, sy'n cael eu cynnal yn aml gan wirfoddolwyr, yn llawer mwy tebygol o fod â throsiant o lai na £25k (enillodd 28% o fentrau cymdeithasol chwaraeon a hamdden lai na £25k o'i gymharu ag 17% o'r holl fentrau cymdeithasol sy'n ennill llai na £25k). Mae sefydliadau celfyddydol yn fwy tebygol o fod yn fentrau cymdeithasol eginol (mae 32% o sefydliadau celfyddydol yn fentrau eginol o'i gymharu â 24% sy'n fentrau eginol o blith yr holl fentrau cymdeithasol).

Dangosyn 3.8: Gweithgarwch a ganlynir

Gweithgarwch a ganlynir

C Pa weithgarwch a ganlynir gan eich sefydliad er mwyn cyflawni ei nodau?



Sylfaen: 618 o sefydliadau

Ffynhonnell: TRU

Mae sefydliadau mwy, a chanddynt fwy na £500,000 o drosiant, yn fwy tebygol o ymwneud â thai (24%), gofal iechyd (11%) ac ailgylchu (10%). O blith y mentrau cymdeithasol mwyaf un, y rhai a chanddynt fwy na £5m o drosiant, mae 60% ohonynt yn darparu tai cymdeithasol, mae chwarter (27%) ohonynt yn darparu gofal cymdeithasol ac 8% yn ddarpariaeth addysg neu gelfyddydol.

Dangosyn 3.9: Yr 20 menter gymdeithasol uchaf yn ôl trosiant


Enw	Trosiant 2007/08	Gweithgarwch
Glas Cymru	£623,000,000	Cwmni dŵr
RCT Homes Limited	£36,500,000	Darparydd tai cymdeithasol
Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin	£29,700,000	Darparydd tai cymdeithasol
Fairlake Properties Ltd [Seren Group]	£28,000,000	Darparydd tai cymdeithasol
WJEC CBAC Cyf	£26,600,000	Bwrdd Arholi Cymru
Opera Cenedlaethol Cymru Cyf	£24,389,505	Diwylliant a'r celfyddydau - cwmni opera teithiol
Ffermwyr Caerfyrddin a Phumpsaint Cyf	£23,000,000	Cyfanwerthwr ac adwerthwr cynnyrch fferm
Cartrefi Cymru Cyf	£18,820,000	Gofal cymdeithasol - yn rhoi cymorth i bobl ag anabledd dysgu
Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyf.	£16,200,000	Darparydd tai cymdeithasol
Coastal Housing Group	£15,000,000	Darparydd tai cymdeithasol
Trothwy Cyfyngedig	£14,480,000	Darparydd tai cymdeithasol
Canolfan Mileniwm Cymru	£14,000,000	Diwylliant a'r celfyddydau - llwyfan i'r celfyddydau
Community Lives Consortium	£12,200,000	Gofal cymdeithasol
Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyf.	£12,000,000	Darparydd tai cymdeithasol
Perthyn	£11,567,553	Gofal cymdeithasol - yn rhoi cymorth i bobl ag anableddau dysgu
Cymdeithas Tai Hafod Cyf.	£11,000,000	Darparydd tai cymdeithasol
Drive	£10,118,348	Gofal cymdeithasol
Merin Homes	£10,000,000	Darparydd tai cymdeithasol
Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd Cyf.	£10,000,000	Darparydd tai cymdeithasol
BAKO Wales	£9,400,000	Cwmni cyfanwerthu bwyd cydweithredol
Newydd Housing Association	£8,250,000	Darparydd tai cymdeithasol

3.5. Cyflogeion

Amcangyfrifwn fod mentrau cymdeithasol yn darparu tua 29,000 o swyddi amser llawn, 20,000 o swyddi rhan-amser a 105,000 o gyfleoedd i wirfoddoli. Yn 2008, roedd 1.35 miliwn o swyddi yng Nghymru. O gymharu'n fras, mae hyn yn golygu bod tua 3.6% o'r swyddi yng Nghymru'n perthyn i'r sector mentrau Cymdeithasol.

Nid oes gan oddeutu hanner y sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol staff amser llawn. O blith y rhai a chanddynt staff amser llawn, dim ond chwarter ohonynt sydd â mwy na deg aelod o staff amser llawn. Yn ôl y disgwyl, mae trosiant sefydliad yn ffactor hanfodol wrth bennu nifer y cyflogeion. Dim ond 6% o'r sefydliadau a chanddynt drosiant o hyd at £25,000 oedd â staff amser llawn.

Dangosyn 3.10: Staff amser llawn



Yn Nangosyn 3.11 gosodir yr holl fentrau cymdeithasol yn ôl maint o ran eu cyfraniad tuag at drosiant a'u cyflogeion amser llawn. Mae hyn unwaith eto'n pwysleisio'r ffaith mai microfentrau a chanddynt ddeg neu lai o gyflogeion amser llawn yw'r mwyafrif helaeth (87%) o fentrau cymdeithasol. Mae hyn yn debyg i broffil busnesau'r sector preifat, y mae'r mwyafrif ohonynt hefyd yn cyflogi deg neu lai o weithwyr. Yn ôl ffigurau 2007, er enghraifft, roedd 95.7% o fusnesau preifat yn cyflogi llai na deg o bobl.⁹


⁹ BERR, SME Statistics for the UK and regions

Dangosyn 3.11: Niferoedd, trosiant a chyflogaeth mentrau cymdeithasol yn ôl statws cyflogi

	Amcangyfrif o nifer y mentrau cymdeithasol	% cyfanswm o fentrau cymdeithasol	Trosiant	% cyfanswm y trosiant	Amcangyfrif o'r CALlau (cyflogeion amser llawn)	% o gyfanswm y CALlau
Pawb	3,055	100%	£2,183m	100%	28,533	100%
Heb unrhyw gyflogaeth	1,587	52%	£151m	7%	0	0%
Gyda chyflogaeth amser llawn:						
1 – 9 (micro)	1,071	35%	£586m	27%	3,709	13%
10 – 50 (bach)	244	8%	£534m	24%	5,992	21%
51 + (canolig a mawr)	153	5%	£912m	42%	18,831	66%

Roedd gan ddeuparth y sefydliadau a gafodd eu cyfnewid o leiaf un aelod rhan-amser o staff. Roedd gan sefydliadau a chanddynt lai na £25k o incwm yn llawer llai tebygol o fod â staff rhan-amser, gyda 57% ohonynt heb unrhyw staff rhan-amser. Yn yr un modd, mae sefydliadau a chanddynt 100% o incwm a enillir yn llai tebygol o fod â staff rhan-amser (48% heb staff rhan-amser).


Dangosyn 3.12: Cyflogaeth Rhan-amser



3.5.1. Gwirfoddolwyr


Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol mewn mentrau cymdeithasol. Mae gan naw o bob deg sefydliad wirfoddolwyr. Mae gan bron hanner y mentrau cymdeithasol fwy na deg o wirfoddolwyr. Adlewyrchir y patrwm hwn yn holl gyfnodau twf mentrau cymdeithasol - o fentrau cymdeithasol eginol at fentrau cymdeithasol sefydledig. Mae'r sefydliadau hynny a ragwelai y byddent yn gwbl hunangynhaliol yn y dyfodol yn fwy tebygol fod â mwy o wirfoddolwyr, gyda mwy na deg o wirfoddolwyr gan oddeutu deuparth ohonynt.

Dangosyn 3.13: Gwirfoddolwyr di-dâl



Mewn tua phedair o bob deg menter gymdeithasol, mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu hyd at 25 awr yr wythnos. Mae chwarter arall yn darparu rhwng 26 a 50 o oriau yr wythnos. Mae'r patrwm hwn yn debyg rhwng sefydliadau a chanddynt/heb statws elusen. Fodd bynnag, mae mentrau cymdeithasol eginol yn fwy tebygol o ddibynnu ar fwy o oriau o ymrwymiad gwirfoddol, gyda bron traean ohonynt (31%) yn derbyn 51 i 100 o oriau o gefnogaeth yr wythnos gan wirfoddolwyr.


Dangosyn 3.14: Oriau a weithiwyd gan wirfoddolwyr yn y saith diwrnod diwetha



3.5.2. Arweinyddiaeth

Ar y cyfan, llai na hanner y sefydliadau a gafodd eu cyfweild oedd yn cael eu harwain gan staff amser llawn, gyda'r gweddill yn gyfuniad cyfartal o staff rhan-amser a gwirfoddolwyr a weithiai fel uwch-reolwyr.


Dangosyn 3.15: Arweinyddiaeth mentrau cymdeithasol



3.6. Oedran a phrofiad o fasnachu

Mae bron hanner y sefydliadau sy'n cyflawni gweithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru'n fwy na phymtheng mlwydd oed. Mae gan fwyafrif (59%) y sefydliadau hyn statws elusen. Mae'r proffil hwn yn newid: nid oes gan fwyafrif (60%) yr elusennau iau na phum mlwydd oed statws elusen. Hefyd, mae tua phedair o bob deg menter gymdeithasol sefydledig yn fwy nag ugain mlwydd oed. Mae data'n awgrymu bod sefydliadau o'r fath yn cychwyn fel mentrau cymdeithasol, yn hytrach na bod yn elusennau sy'n arallgyfeirio i fod yn strategaeth menter gymdeithasol.

Dangosyn 3.16: Oed y sefydliad




Mae'n bwysig cydnabod nad yw cyfnodau mentrau cymdeithasol o fod yn eginol, yn ddatblygol neu'n sefydledig o reidrwydd yn cyd-daro ag oedran sefydliad, fel y dengys y tabl isod. Gall mentrau cymdeithasol newydd ddatblygu i fod yn hunangynhaliol yn gyflym iawn: ym mhob categori ystod oedran isod, mentrau cymdeithasol sefydledig yw'r mentrau cymdeithasol mwyaf cyffredin. Mae mentrau cymdeithasol sefydledig sydd yn yr ystod hyd at bum mlwydd oed yn debygol o fod wedi bod yn fentrau cymdeithasol o'r cychwyn cyntaf. Mae'r ffaith bod mentrau cymdeithasol eginol yn fwyaf tebygol o fod yn sefydliadau dros 16 oed yn gadarnhad pellach o hyn. Mae hyn, i raddau helaeth, yn cynrychioli segment y sector elusennau sefydledig sy'n cyflawni rhywfaint o weithgarwch menter gymdeithasol.

Dangosyn 3.17: Oedran o'i gymharu â chategori menter gymdeithasol

	<i>Eginol</i>	<i>Datblygol</i>	<i>Sefydledig</i>
Pawb	16%	14%	66%
Oed y sefydliad			
Hyd at 5 mlwydd oed	15%	19%	65%
6 i 15 mlwydd oed	13%	15%	58%
16 mlwydd oed a hŷn	21%	12%	73%

Ar y map ar y dudalen nesaf, dangosir oedrannau'r mentrau cymdeithasol a gymerodd ran yn yr arolwg. Mae sefydliadau'n tueddu i fod yn hŷn yng Ngogledd Orllewin a De Orllewin Cymru.


Dangosyn 3.18: Dosbarthiad daearyddol mentrau cymdeithasol yn ôl eu hoedran



Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhychir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Yn unol â'r disgwyl, mae nifer y blynyddoedd y mae sefydliad wedi bod yn masnachu nwyddau a gwasanaethau, sylfaen menter gymdeithasol, yn cyd-daro ag oedran y sefydliad. Mae traean y sefydliadau wedi bod yn masnachu am fwy nag ugain mlynedd. Mae'r ffigurau hefyd yn cyrraedd uchafbwynt sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y mentrau cymdeithasol tuag adeg y dirwasgiad diwethaf yng nghanol y 1990au o'i gymharu â chyfnodau eraill. Mae'n ddigon posib mai canlyniad buddsoddi a chyfleoedd yn isadeiledd cymdeithasol a chymunedol y cyfnod yw hyn, ac mae'n dangos y gall cyfnod o ddirwasgiad yn yr economi brif-ffrwd ysgogi cyfleoedd gwirioneddol am weithgarwch cynaliadwy ym maes menter gymdeithasol.


Dangosyn 3.19: Cyfnod dechrau masnachu nwyddau a gwasanaethau




3.7. Lleoliadau a Chymunedau yn Gyntaf

Mae mwy na thraean (36%) y mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n darparu gwasanaethau oddi mewn i ardal o ddeng milltir. Dim ond un o bob wyth menter gymdeithasol yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.. Mae maint sefydliad bob amser yn chwarae rhan bwysig ym maint yr ardal lle darperir gwasanaethau. Mae sefydliadau a chanddynt lai na £25k o drosiant ddwywaith yn fwy tebygol o ddarparu gwasanaethau o fewn ardal o ddeng milltir na mentrau cymdeithasol eraill. I'r gwrthwyneb, mae bron chwarter (23%) y sefydliadau a chanddynt drosiant o fwy na £500k yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

Dangosyn 3.20: Ardaloedd gweithredu mentrau cymdeithasol



Dangosyn 3.21: Lleoliad mentrau cymdeithasol a atebodd yr arolwg




Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Mae gwaith lleol mentrau cymdeithasol yn cefnogi cymunedau ledled Cymru, yn enwedig y rhai hynny mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, sef ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Roedd mwyafrif helaeth (83%) y sefydliadau wedi clywed am Gymunedau yn Gyntaf, ac mae traean y mentrau cymdeithasol yng Nghymru wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Dywedodd tua deuparth y mentrau cymdeithasol (64%) bod ganddynt fuddiolwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Yn ddiddorol, roedd sefydliadau bychain, a chanddynt drosiant o £25k neu lai, yn gwybod llai am Gymunedau yn Gyntaf; nid oedd tri o bob deg yn gwybod a oedd ganddynt fuddiolwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Dywedodd wyth o bob sefydliad dros £100k bod ganddynt rai buddiolwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r ffaith bod mentrau cymdeithasol mwy'n tueddu i weithredu mewn ardaloedd daearyddol mwy, ac felly mewn mwy o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Dangosyn 3.22: Cwsmeriaid o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

C A ydych yn gwybod a yw eich cwsmeriaid neu'ch buddiolwyr yn dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ai peidio?



Sylfaen: 618 o sefydliadau


Ffynhonnell: TRU

3.8. Prif fuddiolwyr

Mae mwyafrif y sefydliadau'n ystyried eu bod yn darparu gwasanaethau cyffredinol i'r cyhoedd. Mae bron pedwar o bob deg (37%) yn darparu gwasanaethau i blant, ac mae chwarter ohonynt yn gweithio gyda'r henoed. Ceir hefyd ffocws ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd, ac ar helpu sefydliadau eraill.

Dangosyn 3.23: Prif fuddiolwyr

C Pwy sy'n cael y budd pennaf o'ch gwaith? A ydych yn targedu unrhyw grwpiau penodol? [AMLGODIO]




Sylfaen: 618 o sefydliadau

Ffynhonnell: TRU

3.9. Targedau cyflogaeth

Roedd ein harolwg hefyd yn holi a oedd sefydliadau'n targedu unrhyw grwpiau neilltuol i roi cyfleoedd gwaith iddynt. Roedd un o bob wyth menter gymdeithasol yn cynnig cyfleoedd am gyflogaeth i grwpiau a oedd wedi'u targedu. O blith y sefydliadau hyn, roedd traean yn cynnig cyfleoedd am swyddi i rai ag anableddau ac anghenion arbennig, ac un o bob saith yn cynnig cyfleoedd wedi'u targedu at rai a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.


Dangosyn 3.24: Targedau cyflogaeth



3.10. Hyfforddiant


Mae tri chwarter y sefydliadau'n dweud eu bod yn darparu hyfforddiant i staff. Ceir cryn wahaniaeth yma rhwng y sefydliadau mwy a'r sefydliadau llai. Dywedodd tua hanner y sefydliadau a chanddynt drosiant o lai na £50k eu bod yn darparu hyfforddiant i staff. Mae hyn yn cynyddu i dros 95% ymysg sefydliadau mwy. Roedd sefydliadau a chanddynt statws elusen yn llai tebygol o ddarparu hyfforddiant (68% o'i gymharu â 79% ar gyfer sefydliadau eraill).

Dangosyn 3.25: Y gyfran sy'n darparu hyfforddiant i staff



Dywedodd bron chwarter y mentrau cymdeithasol eu bod wedi datblygu cysylltiadau ag ysgolion, colegau a phrifysgolion. Unwaith eto, mae sefydliadau mwy'n fwy tebygol o fod wedi meithrin y cysylltiadau hyn, gyda hanner ohonynt wedi meithrin cysylltiadau o'r fath. I'r gwrthwyneb, dim ond un o bob deg (11%) o sefydliadau a chanddynt drosiant o lai na £25k oedd wedi creu'r cysylltiadau hyn.

Dangosyn 3.26: Cysylltiadau ag ysgolion, colegau neu brifysgolion ar gyfer hyfforddi staff




3.11. Proffidioldeb a'r rhagolwg am gynaliadwyedd ariannol

Dywedoddd dros hanner (55%) y sefydliadau a gafodd eu cyfworld eu bod wedi sicrhau gwarged neu elw yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd sefydliadau a chanddynt fwy na £100k o drosiant yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gwneud elw. (65% o'i gymharu â 52% ymysg sefydliadau a chanddynt lai na £100k o drosiant).


Roedd y mwyafrif yn ail-fuddsoddi unrhyw wargedion yn ôl yn y busnes craidd; mae hyn yn nodweddu mentrau cymdeithasol, nad ydynt fel arfer yn dyrannu elw i gyfranddalwyr.

Dangosyn 3.27: Defnydd o warged



Gofynnwyd i'r sefydliadau beth oeddynt yn ei ragweld fyddai lefel eu hincwm ymhen tair blynedd. Mae'r rhagolygon yn gadarnhaol am dwf yng nghyfran yr incwm sy'n cael ei greu drwy fasnachu ymysg mentrau cymdeithasol Cymru, o ystyried bod tua hanner y sefydliadau a gafodd eu cyfworld (48%) yn bwriadu cynyddu eu cyfran o incwm a enillir. Ymhen tair blynedd, mae 40% yn anelu i fod yn gwbl ariannol gynaliadwy o'i gymharu â'r 28% presennol. Sefydliadau nad oes ganddynt statws elusen sydd fwyaf awyddus i wneud hyn. Mae bron hanner (46%) y grŵp hwn yn anelu i ennill 100% o'u hincwm ymhen tair blynedd. Mae'n bwysig pwysleisio yma, ein bod yn canolbwyntio ar dwf incwm a enillir yn hytrach na thwf ynddo'i hun. Er enghraifft, gallai sefydliad £50k ddyblu'r incwm y mae'n ei ennill o 25% i 50% mewn tair blynedd, ond bydd ei drosiant yn parhau i fod yn £50k. Byddai hyn yn digwydd pe bai'r sefydliad yn cynyddu'r incwm y mae'n ei ennill o £12.5k i £25k ac yn lleihau ei ddibyniaeth ar grantiau o £37.5k i £25k.

Dangosyn 3.28: % cyfanswm yr incwm a enillir drwy gcontractau, cytundebau lefel gwasanaeth, cynnyrch a gwasanaethau



Ar gyfartaledd, mae mentrau cymdeithasol eginol, datblygol a sefydledig am gynyddu'r incwm a enillir ganddynt i'r ystod 25% nesaf (mae'r rhai sydd yn yr ystod 25% i 49% am symud i'r ystod 50% i 74% dros y tair blynedd nesaf ac ati). Mae hyn yn golygu y bydd nifer o fentrau cymdeithasol datblygol yn troi'n rhai sefydledig.

Fodd bynnag, mae 21% o'r grŵp eginol heb fod eisiau cynyddu'r gyfran o incwm a enillir. Ar y lefel hon, mae'r data'n awgrymu bod y grŵp yma'n cynnwys y rhai sydd wirioneddol yn 'eginol'; rhai a allai elwa drwy ennill mwy o incwm er mwyn bod yn fwy cynaliadwy, ond nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau cyfredol; yn ogystal â'r rhai sy'n digwydd bod â'r gyfran hon o incwm a enillir yn rhan o'u strategaeth ariannu gynaliadwy. Mae'r ffaith hon yn dangos pwysigrwydd edrych ar y trydydd sector yn ei gyfanrwydd a nodi anghenion unigol a strategaeth i gyflawni nodau, a thrwy gynnwys mentrau cymdeithasol eginol, bod sefydliadau sydd i fod i berthyn i'r sector ehangach hefyd wedi cael eu cynnwys.

Ceir hefyd dystiolaeth o botensial mentrau cymdeithasol i dyfu yn ein cyfweliadau manwl. O blith deg o fentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweld, roedd incwm a chyflogeion wyth ohonynt wedi cynyddu dros y tair i bum mlynedd diwethaf. I lawer ohonynt, mae hyn wedi golygu twf cyson ar ffurf cynnydd o oddeutu 5-10% mewn trosiant bob blwyddyn. Serch hynny, ceir rhai mentrau cymdeithasol sy'n tyfu'n gyflym, ac sydd wedi profi cyfradd twf o fwy na 75% y flwyddyn yn eu trosiant.

Fodd bynnag, ceir elfen fregus yn sector mentrau cymdeithasol Cymru. Mae'r dirwasgiad presennol a newid yn y gyfundrefn ariannu wedi gwaethgu hyn. Mae 41% o ymatebwyr yr arolwg yn amhroffidiol. Dywedodd un o'r rhai y cyfwelwyd ag o'n fanwl fod ei sefydliad wedi gorfod diswyddo staff dros dro a'u bod bellach yn gwneud colled ar ôl deng mlynedd o lwyddiant.

"Rydym yn teimlo'n fregus Mae hi'n gyfnod anodd. Rydym wedi gorfod lleihau ac ailstrwythuro'r sefydliad. Ein nod yw bod yn gwbl gynaliadwy drwy weithgareddau sy'n creu incwm. Rydym yn hyderus ynglŷn â'n syniadau newydd am fentrau cymdeithasol, ond yn brwydro yn erbyn diffyg capasiti a chyllid i ddatblygu a rhoi'r syniadau hynny ar waith."

Mae'n debygol bod nifer sylweddol o fentrau cymdeithasol mewn sefyllfa debyg. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i fentrau cymdeithasol fod yn gynyddol entrepreneuriaidd ac arloesol er mwyn llwyddo.

4. Heriau a chyfleoedd


Yn yr adran hon edrychir ar yr heriau a'r cyfleoedd y mae mentrau cymdeithasol yn eu hwynebu yng Nghymru. Gwneir defnydd helaeth ynddi o'r cyfweiliadau manwl, yn ogystal â chanlyniadau'r arolwg.

4.1. Mynediad at gyllid

Fel unrhyw fusnes, mae mynediad at ffynonellau cyllid priodol yn ffactor allweddol i sicrhau datblygiad menter gymdeithasol. Mae'r mentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweild yn ystyried mai mynediad at gyllid yw'r brif her i'w llwyddiant a'u cynaliadwyedd yn y dyfodol. Nododd deuparth ohonynt hyn yn un o'r prif ffactorau a fyddai'n helpu eu sefydliad i lwyddo yn y dyfodol, ac roedd bron hanner yn ystyried mai dyma oedd y prif ffactor i sicrhau llwyddiant.

Byddai'n well gan yr holl sefydliadau a gafodd eu cyfweild gael grantiau yn hytrach nag unrhyw fath arall o gyllid allanol, fel benthyciadau. Efallai nad yw hyn yn syndod - dyma'r math o gyllid y mae nifer o sefydliadau wedi dibynnu arno yn y gorffennol. Mae gan y sefydliadau hyn brofiad o wneud cais am gyllid grant, ac yn ystyried mai dyma'r ffynhonnell ariannu mwyaf priodol. Ystyrir cyllid grant yn arbennig o bwysig i dalu am unrhyw ddiffyg mewn incwm ar gyfer costau refeniw, i helpu mentrau cymdeithasol i adeiladu eu capasiti, ac i gynnal sefydliadau drwy gyfnod caled economaidd yr oes sydd ohoni, lle gallai'r incwm a enillir fod yn gostwng.


Dangosyn 4.1: Mathau o gyllid a ffeirir



Ceir llai o alw am grantiau ymysg sefydliadau mwy cynaliadwy. Roedd y galw am grantiau ar ei uchaf ymysg mentrau cymdeithasol eginol a datblygol, gyda 64% a 61% o'r categorïau hyn, yn ôl eu trefn, yn ystyried grantiau fel y ffactor pwysicaf i sicrhau llwyddiant o'i gymharu â 49% ymysg mentrau cymdeithasol sefydledig sy'n ennill rhwng 50% a 74%, 44% ymysg rhai a oedd yn ennill rhwng 75% a 99%, a 30% ymysg rhai a oedd yn ennill 100% o'u hincwm. Mae hyn yn tanlinellu'r modd y mae mentrau cymdeithasol cynaliadwy hyd yn oed yn dal i roi gwerth ar gymorth grant.

Ceir galw rhesymol sylweddol am gyllid heblaw am grantiau gyda 16% o'r cyfweledigion â diddordeb mewn benthyc ac 8% â diddordeb mewn cyllid o natur ecwiti. Mae tua un o bob saith sefydliad (15%) eisoes yn benthycu.

Dangosyn 4.2: Y gyfran sy'n defnyddio gyllid heblaw am grantiau



Dadansoddwyd a oedd cydberthynas rhwng y galw am ffynonellau o gyllid heblaw grantiau a maint a chynaliadwyedd mentrau cymdeithasol. Yn ôl yr arolwg, mae'r galw am gyllid heblaw grantiau'n fwy ymysg mentrau cymdeithasol mwy a rhai a chanddynt gyfran uwch o incwm drwy fasnachu, neu rai a chanddynt uchelgais i droi'n gynaliadwy. Mae cyfanswm o 27% o fentrau cymdeithasol a chanddynt drosiant o fwy na £100,000 fenthyciad neu fath arall o gyllid heblaw grantiau, o'i gymharu â dim ond 7% o sefydliadau a chanddynt lai na £100,000 o drosiant. Yn yr un modd, roedd mentrau cymdeithasol a chanddynt gyfran uchel o incwm drwy fasnachu (dros 75%) ddwywaith mor debygol o fod yn benthycu â'r rhai a chanddynt lai na 75% o incwm a enillir – roedd gan un o bob pump fenthyciad o'i gymharu ag un o bob deg ymysg rhai a chanddynt lai na 75% o incwm a enillir.

O ran math o fenter gymdeithasol, mae'r defnydd o gyllid heblaw grantiau ar ei uchaf ymysg darparwyr tai cymdeithasol. Roedd gan fwy na hanner (52%) fenthyciad neu fath arall o gyllid heblaw grantiau, o'i gymharu â chyfartaledd o oddeutu 15% ar gyfer y sectorau eraill. Mae gan y sector tai cymdeithasol hanes hir o fenthycu'n fasnachol ac mae mewn sefyllfa dda i gael mynediad at gyllid gan ei fod yn gallu defnyddio eiddo fel sicrwydd.

Mae'r galw am fenthycu a'r lefelau benthycu'n llawer is na'r hyn a geir ymysg cwmnïau bach preifat. Yn yr arolwg busnesau bychain diwethaf ar fynediad at gyllid (2003), awgrymwyd bod oddeutu 39% o gwmnïau'n chwilio am gyllid allanol, ar ffurf benthyciadau'n bennaf.¹⁰

Cyfyngir ar y galw am gyllid i ariannu dyledion ymysg mentrau cymdeithasol gan argaeledd ffurfiau eraill rhatach o gyllid fel grantiau, ac oherwydd diwylliant o osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â benthycu. Mae nifer o sefydliadau'n pryderu am eu gallu i ad-dalu benthyciad ac am beryglu asedau cymunedol drwy eu defnyddio fel sicrwydd. At hyn, mae'r cyfeliadau manwl yn awgrymu bod diffyg profiad busnes a chyllid ymysg rheolwyr ac ymddiriedolwyr sy'n golygu nad yw rhai ohonynt yn hyderus ynglŷn ag asesu costau a buddiannau sy'n gysylltiedig â chyllid ecwiti neu gyllid i ariannu dyledion.

Mae'r galw am "gyllid o natur ecwiti", sef 8% o gyfweledigion, yn rhyfeddol o uchel gan ei fod yn fath llai cyfarwydd a mwy diweddar o gyllid ymysg mentrau cymdeithasol. Fel arfer, mae hyn yn golygu benthyciadau a elwir yn "fenthyciadau cyfranogiad neu fenthyciadau'n seiliedig ar freindaliadau", sy'n cael eu strwythuro fel nad oes rhaid gwneud unrhyw ad-daliadau nes bo menter yn cyrraedd trosiant neu dargedau proffidioldeb penodol. Drwy wneud hyn rhennir y risg a'r enillion gyda'r buddsoddwyr. Ar ôl iddynt ddod yn gyfarwydd â'r math hwn o gyllid, mae nifer o fentrau cymdeithasol yn ffafrio telerau o'r

¹⁰ Finance for Small Firms – An Eleventh Report, Bank of England, April 2004

fath. Fodd bynnag, mae lefel yr enillion ariannol a geisir gan y buddsoddwr, h.y cost derfynol yr arian yn dylanwadu ar agweddau. Gellir mynnu enillion uwch am gyllid o'r fath, felly mae'n fwyaf addas ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n tyfu sy'n sicr ynglŷn â'u gallu i ad-dalu.

4.2. **Caffael cyhoeddus**


"Mae mentrau cymdeithasol yn gorfod ymdrin â diwylliant gwahanol a gweithredu mewn amgylchedd mwy masnachol: dim grantiau ond tendrau, a rhagolygon newydd".

Datblygiad allweddol yng Nghymru yw bod y sector cyhoeddus yn symud i ffwrdd o fod yn 'rhoi grantiau' tuag at fframwaith mwy cytundebol â'r trydydd sector. Mae'r rhai y cyfwelwyd â hwy'n fanwl yn credu y bydd ennill contractau sector preifat yn hanfodol i sicrhau llwyddiant nifer o fentrau cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae gwasanaethau cyhoeddus dan gontract yn ffynhonnell incwm bwysig i nifer o fentrau cymdeithasol, ond heb fod mor bwysig â gwerthu cynnyrch a gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion neu i sefydliadau eraill nad ydynt yn gyrff sector cyhoeddus. Yn y siart isod, nodir y cyfrannau o incwm a enillir o'r tair o'r ffynonellau posibl hyn, yn unol â'r hyn a ddywedodd ymatebwyr yr arolwg.

- **Cytundebau lefel gwasanaeth** – mae tua chwarter (26%) yr ymatebwyr yn ennill rhyw gymaint o incwm drwy gytundebau lefel gwasanaeth ("CLGau"), math o gontract cydnabyddedig lle bydd corff cyhoeddus yn cytuno i dalu swm penodol o arian am lefel benodol o wasanaeth e.e. cynghori nifer benodol o gleientiaid o fewn cyfnod penodol. Mae 9% yn ennill llai na chwarter eu hincwm o Gytundebau Lefel Gwasanaeth, a dim ond 4% sy'n ennill eu holl incwm o'r ffynhonnell hon;
- **Gontractau'r llywodraeth** - mae gan fwy na thraean (36%) y sefydliadau ffurfiau eraill o gontractau llywodraeth, boed y rheiny'n gontractau â llywodraeth genedlaethol, ranbarthol, leol neu gyrff eraill o'r sector preifat. Fodd bynnag, dim ond 2% a ddywedodd eu bod yn ennill eu holl incwm o gontractau llywodraeth;
- **Gwerthu cynnyrch a gwasanaethau'n uniongyrchol** – mae 91% o fentrau cymdeithasol yn gwerthu'n uniongyrchol i unigolion neu sefydliadau, ac mae bron hanner ohonynt (48%) yn ennill eu holl incwm drwy werthu cynnyrch a gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion.


Dangosyn 4.3: Y gyfran o incwm a enillir drwy gcontractau llywodraeth, cytundebau lefel gwasanaeth neu werthu cynnyrch a gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion a sefydliadau



Darparodd Gwerth Cymru hysbysiadau contract am £1,854m rhwng mis Ebrill 2008 a Chwefror 2009. Amcangyfrifir bod y sector mentrau cymdeithasol wedi ennill oddeutu £150m o gcontractau sector cyhoeddus. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd y mentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweild oedd lefel eu contractau, wedi'i fwyhau i'r sampl gyfan o'r boblogaeth. Byddai'r rhain wedi cael eu hennill dros fwy nag un flwyddyn. Mae'n dangos, fodd bynnag, fod y sector mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae mwy na deuparth (68%) o ymatebwyr yr arolwg am ddarparu mwy o wasanaethau neu wasanaethau newydd i'r sector cyhoeddus. Mae mentrau cymdeithasol mwy o ran trosiant yn tueddu i fod â mwy o ddiddordeb mewn darparu contractau sector cyhoeddus na sefydliadau llai. Gan fod mentrau cymdeithasol eginol a datblygol wedi'u cynnwys, mae'r sampl yn cynnwys y sefydliadau hynny sy'n anelu i gael cymysgedd o ffynonellau referiw gwahanol, h.y. incwm a enillir, contractau a grantiau, yn ogystal â rhai sy'n anelu i droi'n gwbl hunangynhaliol o ran arian drwy ennill incwm yn hytrach na grantiau. Mae'n debyg felly fod y lefel uchel o ddiddordeb mewn darparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus yn cynnwys sefydliadau sy'n ceisio ennill contractau mewn amgylchedd cystadleuol a rhai sy'n ceisio cael grantiau i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd.

Dangosyn 4.4: Lefel y diddordeb mewn darparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus



4.2.1. Heriau o safbwynt y mentrau cymdeithasol

Er bod rhai enghreifftiau lle bydd mentrau cymdeithasol yn llwyddo i ennill contractau gwasanaethau cyhoeddus, mae'r mentrau cymdeithasol eu hunain yn ogystal ag awdurdodau cyhoeddus wedi nodi amryw o heriau sy'n amharu ar eu gallu i weithredu mewn amgylchedd mwy cystadleuol.

- Mae rhai'n canfod bod y broses o drosglwyddo i gaffael cyhoeddus yn rhy gyflym. Er bod y mentrau cymdeithasol hyn yn gallu gweld eu potensial i ddarparu gwasanaethau'n seiliedig ar gcontract â phroses dendro gystadleuol, maent wedi arfer â defnyddio grantiau i ariannu eu gwasanaethau. Ceir canfyddiad ymysg ymatebwyr yr arolwg fod cyllid grant yn gostwng ar adeg pan fo nifer o fentrau cymdeithasol yn dal heb ddatrys sut i ymgeisio am gcontractau, neu adeiladu'r capasiti i baratoi ceisiadau. Ymysg y mentrau cymdeithasol hyn, ceir dymuniad am gyllid grant craidd yn ystod y cyfnod hwn o drosglwyddo i'w galluogi i adeiladu'r capasiti i ymgeisio am gcontractau.
- Mynegodd mentrau cymdeithasol hefyd bryder ynglŷn â diffyg ymwybyddiaeth a pharodrwydd y sector cyhoeddus, yn enwedig llywodraeth leol, i gcontractio gwasanaethau allan i fentrau cymdeithasol. Roedd bron un o bob pump o'r ymatebwyr yn teimlo mai'r brif her i'w sefydliad wrth ddarparu gwasanaethau sector cyhoeddus oedd "diffyg ymwybyddiaeth a chanfyddiad ymysg cyrff y sector cyhoeddus". Roedd rhai mentrau cymdeithasol yn teimlo'u bod mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaethau penodol, ond yn awgrymu bod ambell gyngor lleol yn amharod i is-gcontractio gwasanaethau y mae'r cyngor ei hun yn eu darparu ar hyn o bryd:

"Mae nifer o awdurdodau lleol am ddiogelu eu hasedau eu hunain a chadw rheolaeth uniongyrchol dros ddarpariaeth gwasanaeth. Dydyn nhw ddim am gael eu gweld fel pe baent yn dileu swyddi drwy is-gcontractio".

Mae'r mater yn arbennig o berthnasol i fentrau cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus craidd y mae awdurdodau lleol wedi bod yn eu darparu'n uniongyrchol am gyfnod hir, fel casglu ac ailgylchu gwastraff, yn hytrach na gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd, fel cefnogi pobl ag anableddau, y ceir traddodiad o'u contractio allan i sefydliadau y tu allan i lywodraeth.

- Mewn rhai achosion, mae'r canfyddiad o gystadleuaeth fasnachol yn erbyn y sector preifat neu awdurdodau lleol yn faen tramgwydd i fentrau cymdeithasol wrth ymgeisio ac yn rhoi'r argraff iddynt na cheir chwarae teg ym maes caffael cyhoeddus. Gan gyfeirio at gyflenwyr a ffefrir, dywedodd un fenter gymdeithasol:

“mae ymddangos nad yw'r bobl sy'n rheoli'r broses gaffael yn hoffi defnyddio mwy na chwe chwmni y maen nhw'n gyfarwydd â nhw, a'u bod yn eithrio eraill fel mentrau cymdeithasol neu fusnesau bychain a chanolig”.

- Mae maint mawr y contractau hefyd yn creu her sylweddol. Un o'r tueddiadau yng nghaffael y sector cyhoeddus yw bod awdurdodau'n cynnig tendrau mwy i lai o gyflenwyr. Mae hyn yn golygu bod mentrau cymdeithasol yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cadw neu ddiogelu contractau fel prif gyflenwyr. Yn hytrach maent yn gorfod gweithredu fel isgcontractwyr i sefydliadau mwy, os o gwbl.

Gall contractau mwy sicrhau mwy o werth am arian i gyflenwyr, ond ceir llawer mwy o risg i fentrau cymdeithasol eu darparu oherwydd diffyg capasiti. Wrth ateb y cwestiwn “beth yw'r prif heriau i'ch sefydliad wrth ddarparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus yn eich tyb chi?”, dywedodd 34% o'r ymatebwyr “ein capasiti ni'n hunain i ddarparu”.

Dangosyn 4.5: Y prif heriau wrth ddarparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus



Byddai'n well gan lawer o fentrau cymdeithasol wneud cais am gontractau llai sy'n cyfateb â'u capasiti a'u gallu presennol, yn hytrach na chontractau mwy lle mae gofyn cynyddu'r ddarpariaeth. Roedd nifer o'r mentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfwrdd yn rhannu'r un safbwynt:

“Ceir tuedd yng Nghymru i fynd am gontractau mawr. Mae hyn yn gweithio yn ein herbyn ni a mentrau cymdeithasol eraill. Gallen nhw eu rhannu'n gontractau llai'n rhwydd”.

Awgrymodd Prif Weithredwr rhwydwaith datblygu mawr mai dim ond y sefydliadau mwy a all ymgeisio mewn gwirionedd, a hyd yn oed os ydynt yn llwyddo, gallant is-gontractio darpariaeth y contract i eraill.

Dywedodd rhai mentrau cymdeithasol y gallai ymgeisio am gontractau mawr dynnu eu sylw oddi ar ddarparu i'w sylfaen leol:

“Roedd contractau ar supply2wales mor fawr, doedden ni ddim yn gallu ymgeisio amdanyn nhw. Fydden ni ddim eisiau darparu gwerthusiadau cenedlaethol gan fod hynny'n ein tynnu ni i ffwrdd o'r hyn yr ydym ni am ei wneud yn ein cymuned leol”.

- Un ymagwedd tuag at gynyddu gallu mentrau cymdeithasol i ymgeisio am gontractau cyhoeddus yw ffurfio consortia. Mae Vision 21, er enghraifft, wedi creu consortia ymgeisio gyda'i awdurdodau lleol er mwyn llunio ceisiadau am gyllid cydgyfeiriol a chystadleurwydd i ariannu ei fodel menter gymdeithasol o ddarparu hyfforddiant galwedigaethol i bobl anabl. Fodd bynnag, cafwyd yn aml fod y broses o sefydlu consortia'n anodd. Mae angen sefydlu canllawiau clir a chefnogaeth i sicrhau bod y rhain yn gweithio'n iawn.
- Mae nifer o fentrau cymdeithasol yn canfod na roddir unrhyw werth amlwg mewn manylebau tendrau ar greu buddiannau cymdeithasol drwy ddefnyddio cymalau cymdeithasol. Mae creu gwerth cymdeithasol yn ffactor unigryw sy'n gwahaniaethu mentrau cymdeithasol oddi wrth yr hyn a gynigir gan y sector preifat. Dim ond ychydig oedd yn teimlo bod cydbwysedd yr wybodaeth a oedd ei hangen yn briodol.
- Un o'r prif bryderon eraill ymysg mentrau cymdeithasol yw taliadau hwyr neu delerau ôl-dalu cyrff y sector cyhoeddus. Telir nifer o gontractau ar ffurf ôl-daliadau ac adroddwyd i bum mis neu fwy fynd heibio cyn talu. Gall taliadau hwyr o'r fath amharu'n fawr ar lif arian menter gymdeithasol ac, mewn rhai achosion, ei gwneud hi'n amhosibl ymgymryd â chontractau'r sector cyhoeddus am resymau ariannol. Mae CGGC ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i newid ac ail-negodi contractau i'w troi'n gytundebau dwyffordd gyda thelerau ac amseriadau talu gwell, ac mae'r sector cyhoeddus yn ymwybodol o effaith taliadau hwyr ar fusnesau bychain a chanolig yn ogystal â phartneriaid o'r trydydd sector ac yn mynd i'r afael â hynny.

Er gwaetha'r heriau hyn, mae rhai mentrau cymdeithasol wedi datblygu'r capasiti ac ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth fel eu bod yn llwyddo i ennill contractau. Ymysg yr enghreifftiau o hyn ceir Cwmni Cymdeithas Atal Troseddau Cwm Cynon sy'n darparu gwasanaethau atal troseddau, fel darparu cloeon, arfau a TCC. Mae'r cwmni'n gwneud ceisiadau rheolaidd am gontractau awdurdod lleol ac yn ennill yn erbyn cystadleuaeth sector preifat oherwydd ansawdd ei wasanaethau. Mae'r fenter gymdeithasol hon wedi buddsoddi i sicrhau ei bod yn ennill nodau ansawdd, fel yr ISO9000, ac mae'r cwmni, sef cangen fasnachu'r elusen, yn ennill ei holl incwm drwy wasanaethau ac yn ailfuddsoddi'r elw yn yr elusen. Cwmni cymdeithasol llwyddiannus yw Pack-IT Cardiff sy'n darparu swyddi cynaliadwy i bobl anabl. Mae'n cystadlu mewn marchnad fasnachol iawn am gontractau ochr yn ochr â busnesau sector preifat. Fel y dywedodd Prif Weithredwr un o'r mentrau cymdeithasol:

“Mae'n rhaid i fusnes ddod yn gyntaf a'r agwedd gymdeithasol yn ail os am lwyddo”.

4.2.2. Heriau o safbwynt y sector cyhoeddus

Ar ochr y prynwr, ceir parodrwydd i dyfu mentrau cymdeithasol, a rhoddir pwyslais cynyddol ar roi cyfleoedd i fentrau cymdeithasol gael ffynnu. Ystyrir bod gan awdurdodau lleol ran arbennig o bwysig i'w chwarae drwy ddarparu cyfleoedd i fentrau cymdeithasol ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion amgylcheddol a chymdeithasol lleol. Fodd bynnag, roedd amryw o gyfweledigion yn cwestiynu a fyddai digon o gefnogaeth ymysg y sector cyhoeddus i gontractio mentrau cymdeithasol heb i fwy o ofynion deddfwriaethol gael eu gosod, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod mentrau cymdeithasol yn pryderu nad yw nifer o awdurdodau lleol wedi creu rôl i fentrau cymdeithasol yn eu strategaethau datblygu lleol, ac nad ydynt, o bosib, yn barod i drosglwyddo asedau cymunedol i'w datblygu neu gontractio gwasanaethau allan a ddarperir yn uniongyrchol ar hyn o bryd. Eu barn hwy oedd bod ymwybyddiaeth a pharodrwydd i dderbyn mentrau cymdeithasol ar raddfa leol yn gymysg. Ond mae angen i fentrau cymdeithasol hefyd fabwysiadu ymagwedd mwy craff ac arloesol tuag at gaffael cyhoeddus a chyflwyno'u hachos ynglŷn â'u gwerth i gyrff comisiynu, gan gynnwys awdurdodau lleol.

Lle'r oedd parodrwydd i dderbyn mentrau cymdeithasol, roedd ymatebwyr y sector cyhoeddus am gael cyfathrebu gwell ynglŷn â'r hyn y gall mentrau cymdeithasol ei gyflawni, a mwy o broffesiynolrwydd wrth gyflwyno tendrau. Yn ogystal â thechnegau i gymryd rhan yn y broses gaffael, dylai mentrau cymdeithasol ddysgu sut i farchnata i'r sector cyhoeddus yn fwy effeithiol. Adlewyrchir y problemau hyn o ran canfyddiad a chyfathrebu gan fentrau cymdeithasol:


"Dydy'r sector cyhoeddus ddim mewn gwirionedd yn deall pwy na beth yr ydym ni, ac maent yn ein trin fel pe baem yn ddiniwed ac anghenus yn hytrach na'n trin fel sefydliad masnachol gynaliadwy." Ni ddylem gael ein labelu neu ein drysu â 'chriw'r sandalau', ond fel sefydliad effeithiol sy'n llenwi'r bylchau yn yr ardal".

Roedd diffyg ymwybyddiaeth a chamganfyddiadau o fentrau cyhoeddus ymysg y sector cyhoeddus yn thema gref drwy'r holl gyfweiliadau. Dylai Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 gynorthwyo yn hyn o beth drwy'r camau ynddo sy'n gysylltiedig â chyfathrebu a marchnata.

4.2.3. Ymwybyddiaeth o gyfleoedd am gontractau


Mae diffyg ymgysylltiad gweithredol mentrau cymdeithasol â chyfleoedd am gontractau, a'u hymwybyddiaeth ohonynt yn fater i'w ddatrys. Llai na 20% o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweled sydd wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru i dderbyn newyddion am gyfleoedd tendro. Dywedodd 78% nad oeddynt wedi cofrestru, ac nid oedd 4% yn gwybod a oeddynt wedi cofrestru ai peidio.

Dangosyn 4.6: Y gyfran sydd wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru



Mae mwyafrif y sefydliadau sydd wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru yn Ne Ddwyrain Cymru.


Dangosyn 4.7: Lleoliadau'r rhai sydd wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru



Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhychir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Dim ond un o bob deg sy'n ymwybodol o'r Siarter Agor Drysau, cyfres Llywodraeth Cynulliad Cymru o egwyddorion caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau (a mentrau cymdeithasol).

Dangosyn 4.8: Cyfran y mentrau cymdeithasol sy'n ymwybodol o Agor Drysau




Mae angen gwneud mwy ar ochr mentrau cymdeithasol yn ogystal ag ar ochr y prynwr i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r cynlluniau caffael hyn. Mae Gwerth Cymru, tîm sy'n gweithio i wella'r broses o gaffael gwasanaethau cyhoeddus, yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth. Dywedodd un o gynrychiolwyr Gwerth Cymru mai £4bn a dim ond 35% o gontractau a ddyfarnwyd i gwmnïau Cymreig cyn y Siarter Agor Drysau o'i gymharu â £4.5bn a 49% o gontractau a gafwyd yn ddiweddar, a bod mentrau cymdeithasol wedi llwyddo i ennill contractau Llywodraeth Cynulliad Cymru a chontractau llywodraeth leol. Fodd bynnag, ni cheir cofnodion manwl hyd yma i asesu cyfran y contractau a enillir gan fentrau cymdeithasol.

Ar y cyfan, ystyrir bod canllawiau, fel Agor Drysau, yn eu lle i sicrhau bod rheolau caffael yn gyfeillgar i'r trydydd sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, ond mae angen gwell gweithredu, a gweithredu mwy ar y canllawiau hyn ar raddfa leol.

4.3. Trosglwyddo asedau

Byddai mentrau cymdeithasol yn dymuno gweld mwy o asedau'n cael eu trosglwyddo o awdurdodau cyhoeddus er mwyn helpu i greu incwm, eu gwneud yn fwy ariannol gadarn ac er mwyn a darparu adnodd cymunedol. Mae gan fwy na thraean y mentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweld rydd-ddaliad neu les hir ar eiddo neu dir. Mae'n debygol y byddai lefel y berchnogaeth yn uwch pe bai lesioedd o lai na 50 mlynedd yn cael eu cynnwys.

Dangosyn 4.9: Y gyfran sy'n berchen ar eu heiddo neu eu tir eu hunain neu a chanddynt les hir o fwy na 50 mlynedd



Sefydliadau mwy sy'n tueddu i fod yn berchen ar eiddo neu lesedd hir. Roedd mwyafrif (87%) y sefydliadau a chanddynt fwy na £5 miliwn o drosiant blyneddol yn berchen ar eiddo neu les hir, a hefyd 69% o sefydliadau a chanddynt drosiant o fwy na £1 miliwn. Ar gyfartaledd, dim ond 33% o sefydliadau a chanddynt lai na £100,000 o drosiant oedd yn berchen ar eu heiddo eu hunain. Yn ddiddorol, nid oedd unrhyw wahaniaeth mawr yn y lefelau o berchnogaeth eiddo yn ôl cyfnod datblygol mentrau cymdeithasol, h.y. y ganran o incwm a enillir.

Roedd sefydliadau yr oedd eu prif amcanion yn cynnwys eiddo rhent, fel cymdeithasau tai neu sefydliadau sy'n datblygu asedau er budd y gymuned, fel ymddiriedolaethau datblygu hefyd yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eiddo. Fel y dywedodd un ymddiriedolaeth ddatblygu:

“Mae asedau o fantais enfawr, ni fyddem yn bodoli hebddynt. Maen nhw i gyd yn cael eu datblygu ac yn cynhyrchu rhent masnachol i gefnogi'r busnes a'i fuddsoddi yn niwylliant a masnach yr ardal”.

Fel rheol, roedd y cyfweledigion yn ystyried bod perchnogaeth ar asedau'n rhywbeth cadarnhaol:

“Mae bod yn berchen ar ein hadeilad ein hunain o fantais fawr ac yn creu incwm o £260k y flwyddyn. Yn ogystal â hyn rydym yn elwa ar grantiau llywodraeth a nod pob gweithgarwch yw creu gwahaniaeth ymarferol i bobl sy'n byw yn y gymuned hon. Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi 27 o bobl - yr ariennir deuparth ohonynt drwy'r incwm yr ydym yn ei ennill ein hunain.”

Roedd mentrau cymdeithasol nad oeddynt yn berchen ar asedau'n tueddu i weld manteision hynny yn y dyfodol:

“Dydyn ni ddim wedi prynu eiddo, ond byddem yn ystyried hynny er mwyn darparu ased i'r gymuned.”

Fodd bynnag, yn ôl profiad cyfweledigion, roedd rhai awdurdodau lleol yn fwy cadarnhaol eu hagwedd a pharod nac eraill i drosglwyddo asedau er budd y gymuned. Yn y senario orau, mae awdurdodau lleol

wedi bod yn uchelgeisiol ynghylch trosglwyddo asedau a chefnogi datblygiad asedau er budd y gymuned. Mae un fenter gymdeithasol wedi bod yn arbennig o uchelgeisiol yn ei chynlluniau datblygu:

“Mae gennym ein heiddo cyfredol (hen ysgol) ar les 28 mlynedd gan y Cyngor gyda chymal treigl bob 7 mlynedd, ac rydym yn talu rhent rhad. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi les hir i ni ar safle tir llwyd 2.2 erw gwerth £1.3m a fydd yn cael ei ddatblygu'n safle ar gyfer canolfan addysg, chwaraeon a chynadleda mewn partneriaeth â'r cyngor a'r clwb pêl droed lleol drwy ddefnyddio'r dechnoleg wyrdd ddiweddaraf i godi adeilad eco a fydd yn batrwm i eraill. Mae hyn o fantais fawr. Nid yn unig y gallwn gyrraedd nodau mwy o ran maint, ond mae bod yn berchen ar eiddo yn creu incwm, a phe baem ni am fenthycu, mae gennym asedau i fenthycu yn eu herbyn”.

Ystyir bod awdurdodau lleol eraill yn gweithredu ymagwedd llinell isaf, gan ganolbwyntio ar sicrhau'r pris uchaf wrth werthu eiddo cyhoeddus:

“Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o fanteision trosglwyddo asedau i awdurdodau lleol, wrth iddynt ystyried cefnogi mentrau cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae gan nifer ohonynt obsesiwn â chynyddu enillion cyfalaf. Mae'n wirioneddol bwysig fod enghreifftiau cadarnhaol o asedau'n cael eu trosglwyddo'n cael eu rhannu'n eang ymysg Rheolwyr Asedau, i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r posibilïadau a'r manteision. Mae United Welsh ar hyn o bryd yn cydweithio ag awdurdodau lleol a thirfeddianwyr sector preifat eraill i ddod â safleoedd yn eu blaen sy'n cyfuno canolfannau tai a chymunedol ar safleoedd hen ysgolion ac ysbytai. Gall Cymdeithasau Tai chwarae rhan allweddol er mwyn helpu i ryddhau asedau allweddol i gymunedau.”

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod canfyddiadau Adolygiad Quirk a oedd yn galw ar i lywodraethau gyflwyno mesurau i annog trosglwyddo perchnogaeth ar asedau cyhoeddus neu reolaeth drostynt i sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, er mwyn agor cyfleoedd i ddatblygu cymunedau a helpu i ddatblygu ffyrddau incwm mwy cynaliadwy. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried lansio Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol a fydd yn darparu cyllid cyfalaf i gefnogi'r gwaith o drosglwyddo asedau ac adnewyddu eiddo. Croesewir y cynllun hwnnw. Fodd bynnag, er mwyn i hyn lwyddo, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen cael strategaeth a chynllun i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn ymgysylltu â'r agenda trosglwyddo asedau cymunedol.

4.4. Cymorth busnes

Lle'r oedd mentrau cymdeithasol yn cael cymorth a chynngor busnes, ymchwiliwyd i'r math o gyngor y maent yn ei gael, a pha mor fodlon y maent â'r lefelau cymorth presennol.


4.4.1. Ffynonellau cymorth busnes

Cyfeiriodd 41% o'r ymatebwyr at gynghorau lleol fel un o'r prif ffynonellau cymorth, ac fe'u nodwyd gan 37% fel y ffynhonnell cymorth bwysicaf. Roedd Cymunedau yn Gyntaf, rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi datblygiad mentrau cymunedol i wella ansawdd bywyd mewn cymunedau o amddifadedd, hefyd yn ffynhonnell cyngor i 13% o'r ymatebwyr.

Mae hyn yn amlygu pa mor bwysig yw'r berthynas â'r sector cyhoeddus i waith mentrau cymdeithasol. Roedd mwy na deuparth o ymatebwyr yr arolwg am ddarparu mwy o wasanaethau neu wasanaethau newydd i'r sector cyhoeddus. Felly, mae sefydlu perthynas dda â'u hawdurdod lleol a gofyn iddynt am gyngor yn hanfodol i sicrhau llwyddiant. Mae'r cymorth hwn yn annhebygol o fod yn gymorth strwythuredig i ddatblygu busnes ac adeiladu capasiti, mae'n debygol, yn hytrach, o gynnwys gwybodaeth am argaeledd cyllid a chyfleoedd am gontractau, yn ogystal â chyfeirio at ffynonellau eraill o gyllid a chymorth.

Dangosyn 4.10: Y prif ffynonellau cyngor neu gymorth

C Beth yw'r tair neu'r pedair prif ffynhonnell a ddefnyddir gennych i gael cymorth a chynghor i ddatblygu'ch sefydliad? [AMLGODIO]



Sylfaen: 618 o sefydliadau

Ffynhonnell: TRU

Y darparwyd cymorth nesaf o ran pwysigrwydd yw Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), ynghyd â'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CGSau), sy'n darparu cyngor a gwybodaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol, gan gynnwys cynorthwyo sefydliad sy'n bwriadu neu'n ystyried cyflawni gweithgarwch menter gymdeithasol. Cafodd rhai Cyngorau Gwirfoddol Sirol eu henwi am fod yn dda am gyfeirio'n lleol, ac am feddu ar arbenigedd sy'n ddefnyddiol i fentrau cymdeithasol, er nad oedd eu rôl yn y sector yn y dyfodol yn eglur hyd yma.

Mae mwy o alw am gymorth gan CGGC ymysg y sefydliadau hynny sydd wedi'u cofrestru fel elusennau - roedd 77% o'r sefydliadau a ddywedodd mai CGGC oedd y brif ffynhonnell cymorth yn elusennau - ac yn fentrau cymdeithasol eginol - roedd 41% a gyfeiriodd at CGGC o fewn yr ystod 15% i 24% o incwm a enillir, o'i gymharu â dim ond 20% ymysg rhai a enillai 100% o'u hincwm drwy fasnachu.

Darparwyd cymorth a oedd yn arbenigo mewn darparu cymorth i fentrau cymdeithasol oedd y ffynonellau cymorth busnes mwyaf cyffredin ar ôl hynny, yn enwedig Canolfan Cydweithredol Cymru (17%), Menter Gymunedol Cymru (4%), Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (4%) a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru (2%). Cymeradwywyd cymorth Canolfan Cydweithredol Cymru i fentrau cymdeithasol gan un swyddog cyhoeddus am ddangos arwyddion o

"berfformiad mwy deinamig", gydag ymagwedd ddeuol o roi cyngor busnes wedi'i gynllunio'n arbennig, gan gryfhau'r dull o lywodraethu er mwyn cadw ethos cymdeithasol ar yr un pryd"


Defnyddiwyd Llygad Busnes a Chyswilt Busnes, prif raglenni cymorth busnes y llywodraeth, gan gyn lleied ag 8% a 4% o'r ymatebwyr yn ôl eu trefn. Mae'r mentrau cymdeithasol nad ydynt yn elusennau'n fwy tueddol o ddefnyddio'r rhain - roedd 57% o'r rhai hynny a nododd Llygad Busnes yn brif ffynhonnell cymorth heb gofrestru fel elusen. Nid oedd pawb yn fodlon â chymorth busnes y llywodraeth i fentrau cymdeithasol. Cyfaddefodd ffynhonnell llywodraeth leol fod angen i gyngor busnes prif-frwd:

"droi'n fwy o ddifrif. Dydy rheolwyr datblygu busnesau ddim am gael gwybod am fentrau cymdeithasol. Pe bai hwy'n unig yn gyfrifol, fyddai mentrau cymdeithasol ddim yn cael eu cymryd o ddifrif fel busnesau, ac yn cael eu hystyried fel pe baent yn perthyn yn fwy i'r sector cymunedol a gwirfoddol. Mae angen i asiantaethau cymorth busnes helpu i droi'r sector yn fwy proffesiynol ac, os na allant wneud hynny, dylid darparu cyngor sector preifat i fentrau cymdeithasol".

Cefnogwyd y safbwynt hwn gan fenter gymdeithasol flaenllaw:

“Mae'r cyngor a gawn yn tueddu i ddod gan ein bwrdd - a'r rheswm maen nhw yno yw eu bod yn darparu'r sgiliau sydd ar goll neu sy'n brin gennym ni. Os nad ydym yn gwybod rhywbeth, rydym yn ffeindio'n ffordd ein hunan ac yn holi cymheiriaid hefyd. Rydym yn tueddu i ganfod nad yw cyngorwyr busnes yn deall mentrau cymdeithasol”.

Dangosyn 4.11: Y ffynonellau cyngor a chymorth pwysicaf



Ceir galw i ddatblygu'r isadeiledd cymorth busnes ar gyfer mentrau cymdeithasol ymhellach – mwy o ddarparwyr cymorth arbenigol annibynnol sy'n gwybod ac yn deall mentrau a busnes cymdeithasol ac sy'n cyflwyno sgiliau'r sector preifat i'r sector. Fel y dywedodd un o'r cyfweledigion:


“Ni ddylai cymorth busnes fod yn seiliedig ar fodel un math sy'n gweddu i bawb. Mae angen i ni alluogi mentrau cymdeithasol i greu cysylltiadau â chymorth sy'n bodloni'u hanghenion penodol. Caniatáu mentrau cymdeithasol i brynu arbenigedd i mewn a chreu marchnad o ddarparwyr cymorth busnes, fel yr hyn a geir yn y sector corfforaethol. A gwneud mwy i alluogi mentrau cymdeithasol i fanteisio ar y cyfoeth o wybodaeth a phrofiad o fewn y sector ei hun ar raddfa'r DU ac yn rhyngwladol.”

Ceir rhywfaint o alw hefyd am rwydweithio a chymorth rhwng cymheiriaid; mae 7% o'r ymatebwyr yn cael cyngor a chymorth busnes gan fentrau cymdeithasol eraill. Hoffai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a mentrau cymdeithasol fel ei gilydd weld mwy o gymorth busnes-i-fusnes o'r math hwnnw. “Hoffem weld mwy o rwydweithio, mwy o gydweithredu, mwy o gymorth busnes-i-fusnes ymysg mentrau cymdeithasol”. Roedd cymorth gan fentrau cymdeithasol eraill yn cael ei ystyried yn arbennig o ddefnyddiol ar bynciau technegol a phynciau'n ymwneud yn benodol â'r sector, yn ogystal â strategaethau twf cyffredinol.

4.4.2. Bodlonrwydd â'r cymorth busnes

Mae'r lefelau bodlonrwydd â chymorth busnes yn weddol uchel, gyda mwy na deuparth naill ai'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn. Dim ond 2% oedd yn anfodlon iawn. Doedd dim gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y lefelau bodlonrwydd yn ôl maint neu gyfnod datblygu mentrau cymdeithasol. Roedd 6% nad oeddynt yn gwybod, neu heb nodi ateb i'r cwestiwn hwn.

Dangosyn 4.12: Lefel y bodlonrwydd â chymorth busnes



Wedi dweud hynny, dywedodd rhai sefydliadau nad oedd y cymorth a'r cyngor a oedd ar gael yn ddigon addas:

“mae'r CGGC yn ffynhonnell dda o gyngor ond gan ei fod yn tueddu i anelu at sefydliadau anfasnachol, mae'n tueddu i gynghori'r ochr 'gymdeithasol' yn hytrach na'r 'fenter'.

Fel y dywedodd un fenter gymdeithasol:


“Os yw'r trydydd sector yn mynd i ddatblygu'n fwy cynaliadwy, mae'n hanfodol cael cyngor masnachol da a chyflym; rydym ar hyn o bryd wedi'n rhoi yn yr un grŵp â chylch chwarae lleol ac, er eu bod hwy'n haeddu cael yr un cymorth, dylid amrywio'r cyngor yn ôl y sefydliad”.

Ar y cyfan, roedd ymdeimlad da ymysg y rhai a gafodd eu cyfweld fod mentrau cymdeithasol yn llwyddo ar eu hochr "gymdeithasol" ond nad oeddynt gystal am ddatblygu'n fusnesau dichonadwy.

4.4.3. Y mathau o gymorth y ceir galw amdanynt

O bellffordd, mynediad at gyllid yw'r maes yr hoffai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr gael cyngor a chymorth ychwanegol ar ei gyfer; cyfeiriodd 44% o'r ymatebwyr at hyn fel testun. Ymysg y meysydd eraill y mae mentrau cymdeithasol yn chwilio am fwy o gyngor ynddynt ceir cynllunio strategol a busnes (18%), gwirfoddol (15%), arallgyfeirio ffrydiau incwm (14%), datblygu partneriaeth (14%), a rheoli cyllid (13%).

Dangosyn 4.13: Y mathau o gymorth y ceir galw amdanynt



Ceir cryn wahaniaeth rhwng yr anghenion cymorth busnes a nodwyd gan y sefydliadau yn ôl eu maint fel y dangosir yn Dangosyn 4.14, gyda sefydliadau mwy'n ceisio mwy o sgiliau busnes na sefydliadau llai. Yn yr un modd, roedd y galw am sgiliau cynllunio busnes a rheoli cyllid yn tueddu i fod yn uwch rhwng sefydliadau a chanddynt gyfrannau uwch o incwm a enillir. Roedd y galw am sgiliau rheoli ar ei uchaf ymysg mentrau cymdeithasol mwy ac yn arbennig o uchel ymysg darparwyr tai cymdeithasol - cyfeiriodd un o bob pum cymdeithas tai cymdeithasol at sgiliau rheoli fel maes yr oedd angen mwy o gymorth ar ei gyfer.

Dangosyn 4.14: Y tri phrif faes cymorth busnes yn ôl trosiant

£0-£25,000	£25,001 - £100,000	£100,000 - £500,000	£500,001+
Mynediad at gyllid	Mynediad at gyllid	Mynediad at gyllid	Cynllunio busnes a strategol
Gwirfoddolwyr	Gwirfoddolwyr	Cynllunio busnes a strategol	Mynediad at gyllid
Eiddo	Datblygu partneriaeth	Arallgyfeirio ffrydiau incwm / tendro am gontractau	Arallgyfeirio ffrydiau incwm

Mae ystyriaeth darparwyr cymorth busnes o *ddymuniadau* mentrau cymdeithasol am gymorth busnes yn tueddu i fod yn wahanol i'r hyn y mae ar fentrau cymdeithasol ei angen mewn *gwirionedd*. Maent yn gweld bylchau capasiti sylweddol ym meysydd rheoli a marchnata, a oedd yn isel iawn o ran

blaenoriaeth ymysg y meysydd yr hoffai'r sefydliadau eu hunain gael mwy o gyngor amdanynt. Wedi dweud hyn, nid oedd marchnata'n faes a oedd wedi'i ddynodi yn barod, ond yn hytrach yn faes yr oedd ymatebwyr yn sôn amdano ohonynt eu hunain, felly mae'n debygol bod galw uwch am y maes yma na'r hyn a adlewyrchir yn y canlyniadau. Mae gwaith arall yn y DU yn cefnogi'r canfyddiad hwn ac yn awgrymu bod marchnata'n faes y mae angen i fentrau cymdeithasol yn ogystal â chyrff cymorth ganolbwyntio mwy arno.

4.5. Arloesi a chystadlu

Mae a wnelo arloesi cymdeithasol â datblygu syniadau sy'n mynd i'r afael â materion cymdeithasol ac amgylcheddol yr oes sydd ohoni. Mae datblygu menter gymdeithasol – busnes a chanddo bwrpas cymdeithasol - yn un ffordd o roi'r arloesi hwn ar waith.

4.5.1. Llenwi bylchau yn y farchnad

Mae mentrau cymdeithasol yn cyflawni rôl unigryw rhwng y trydydd sector a busnesau preifat. Mae datrysiadau arloesol yn deillio'n rhannol o'r model busnes mentrau cymdeithasol ei hun. Ar eu gorau, mae eu hymagwedd entrepreneuriaidd yn eu gwneud yn fwy deinamig na sefydliadau eraill y trydydd sector gan y byddant yn mynd i feysydd y gallai busnesau masnachol beidio gweld cyfleoedd ynddynt. Fel y dywedodd un swyddog llywodraeth:

“Mae mentrau cymdeithasol yn arloesol yn y modd maen nhw'n llenwi bylchau yn y farchnad”.

Ffordd arall o greu gwerth cymdeithasol yw darparu cynnyrch neu wasanaethau i'r farchnad brif-ffrwd, a chreu cyfleoedd am gyflogaeth i unigolion dan anfantais. Dyma fodel busnes cwmnïau cymdeithasol sy'n “fusnesau a arweinir gan y farchnad ac a sefydlir yn benodol i greu swyddi o ansawdd da ar gyfer pobl dan anfantais ddifrifol yn y farchnad lafur”.¹¹ Pack-It, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, yw un o gwmnïau cymdeithasol mwyaf llwyddiannus y DU Mae'n fusnes sy'n darparu gwasanaethau post, storio a dosbarthu ac wedi dangos y gall menter gymdeithasol gystadlu a llwyddo yn y farchnad brif-ffrwd gan gyflogi staff y mae hanner ohonynt naill ai'n hollol fyddar â syndrom Down's neu anawsterau ymddygiad ac anawsterau dysgu.

Bydd llwyddiant mentrau cymdeithasol yn y dyfodol yn tarddu, i raddau helaeth, o allu sefydliadau i fwyhau a chynyddu eu heffaith ar gymdeithas drwy hynny. Er bod enghreifftiau calonogol o hyn, mae nifer o fentrau cymdeithasol nad ydynt eto wedi cyrraedd cyfnod lle maent yn dymuno neu'n barod i fynd â'u menter gymdeithasol y tu hwnt i ffiniau eu cymuned leol. Un dangosydd ar gyfer hyn yw'r ffaith bod bron hanner y sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn cyflawni'u gweithgarwch o fewn radiws o 20 milltir.

Mae “A yw maint o bwys?” yn bwnc a drafodir yn helaeth o fewn y gymuned o fentrau cymdeithasol. Mae rhai'n dadlau bod y ffaith bod mentrau cymdeithasol yn gweithredu'n lleol yn gryfder allweddol. Drwy wneud hynny, gallant ddeall ac ymateb i anghenion lleol a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl leol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y bydd mwyafrif y mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i ganolbwyntio ar yr ardal leol.

Ffordd arall o fwyhau gweithgarwch mentrau cymdeithasol yw ailadrodd. Mae ymagwedd o'r fath yn cyfuno mwyhau â pharhau i gadw cysylltiadau lleol. Mae un sefydliad, er enghraifft, wedi datblygu glasbrint o sut i drosglwyddo darpariaeth gwasanaeth gofal dydd i oedolion ag anableddau dysgu i fodel menter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gydnabod gallu'r unigolyn yn hytrach na'i anghenion. Mae gan y sefydliad ddiddordeb mewn gweithio â chynghorau lleol i ailadrodd eu model mewn mwy o ardaloedd ar draws Cymru.

Mae caffael neu gydweithio â busnesau lleol a'u trawsnewid yn fentrau cymdeithasol yn strategaeth dwf arall arloesol y mae rhai mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n anelu ati. Unwaith eto, mae'r sefydliad y soniwyd amdano uchod wedi arloesi yn hyn o beth. Mae wedi creu partneriaeth â fferm leol fu'n mewn trafferthion a helpu i'w throï'n fferm llwyddiannus sy'n creu elw, sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n cynnig cyfleoedd i bobl anabl gael swydd.

¹¹Diffiniad Cwmnïau Cymdeithasol y DU

4.5.2. Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Un o'r prif feysydd gweithgarwch cymdeithasol yng Nghymru yw darparu gwasanaethau cyhoeddus, fel gofal cymdeithasol a gofal plant a rhoi cyfleoedd am hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ddi-waith a phobl ag anableddau.

Yr hyn sy'n nodweddu mentrau cymdeithasol yw eu bod yn ceisio darparu a gwella gwasanaethau cyhoeddus gan ddysgu oddi wrth anghenion a gallu defnyddwyr gwasanaeth unigol a'r gymuned ac ymateb iddynt. Roedd un fenter gymdeithasol wedi'i hen sefydlu a oedd yn gweithio â phobl ag anableddau am "droi'r hyn sy'n arloesol yn arferol, fel y dylai gwasanaethau gael eu darparu". Aeth y fenter ati i nodi gallu pobl anabl a'u cyfateb â swyddi, fel y dyn mewn cadair olwyn nad oedd ond yn gallu symud ei ben a gafodd swydd fel model i arlunydd: "Bu hyn yn fodd i weddnewid ei fywyd. Roedd wrth ei fodd yn bod yn ganolbwynt sylw".

Soniodd ymddiriedolaeth ddatblygu gymunedol arall am hanfodurwydd creu cysylltiadau â'r gymuned er mwyn darparu gwasanaethau a werthfawrogir. Yn yr achos hwn, roedd ymglymiad gweithredol gwirfoddolwyr yn hanfodol i sicrhau eu llwyddiant; gwirfoddolwyr oedd yn gwneud popeth - o gynnal cyrsiau hyfforddi i bobl ifanc i lanhau'r eiddo.

Roedd ymddiriedolaeth ddatblygu arall yn ei hystyried ei hun yn arloesol gan ei bod yn gallu addasu ac ymateb i agendâu gwasanaethau cyhoeddus newydd:

"Mewn cyfnod lle mae'r arian ym mhws y cyhoedd yn gynyddol brin, rydym yn edrych ar gyfleoedd i gael mwy o werth am ein harian a chreu mwy o effaith mewn cymunedau lleol. Rydym am ehangu'n harwynebedd llawr yn y ganolfan, drwy grant cyfalaf yn ddelfrydol. Yna byddwn yn ariannol gadarn gyda dwywaith y capasiti yn y feithrinfa a mwy o refeniw o'r caffî. Rydym hefyd yn gobeithio meddiannu parc diffaith a hen ganolfan gymuned a'i throi'n ganolfan lles sy'n targedu'r holl ystod o faterion cyflogaeth, addysg, iechyd a diogelwch cymunedol."

Fodd bynnag, roedd rhwystredigaeth hefyd ynglŷn â'r modd y gall rheolau a dulliau gweithredu'r sector cyhoeddus danseilio gallu mentrau cymdeithasol i ddatblygu ac arloesi. Cyfeiriodd arweinydd un fenter gymdeithasol at y ffaith nad oes unrhyw bosibilrwydd cael mynediad at gronfeydd y gallai mentrau cymdeithasol, yn ei dyb ef, ddarparu ar eu cyfer e.e. y fenter 'Dechrau'n Deg' i blant.

Ystyrir bod telerau contract y gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn rhwystro arloesi. Roedd ymdeimlad cyffredinol y gall taliadau'n seiliedig ar allbwn atal sefydliadau rhag cael yr adnoddau ymlaen llaw i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth mewn modd rhagweithiol a'u cynnwys yn y broses o ddylunio, darparu a chynyddu'r defnydd o wasanaethau.

Roedd diffyg ymgysylltiad â mentrau cymdeithasol a dealltwriaeth ohonynt ymysg awdurdodau lleol hefyd yn peri cryn rwystredigaeth. Gwelai un busnes fwy o botensial i gyflwyno gwasanaethau ailgylchu presennol mewn modd mwy arloesol ond roedd arferion presennol y cyngor lleol yn peri rhwystredigaeth iddo:

"Mae'r sector cyhoeddus wedi arfer â darparu eu gwasanaethau casglu gwastraff eu hunain ac nid ydynt yn awyddus i gontractio'r rhain allan er ein bod ni'n gallu profi'r budd amgylcheddol, economaidd a chyhoeddus ychwanegol y gall gwasanaeth ailgylchu a gynhelir gan fenter gymdeithasol ei gynnig."

4.5.3. Cydweithio a chystadleurwydd

Holasom y cyfweledigion yn fanwl ynglŷn â faint o gydweithio a/neu gystadleurwydd a geir ymhlith mentrau cymdeithasol. Roedd y cyfweledigion, ar y cyfan, yn cydnabod bod angen mwy o gydweithredu a phartneriaethau i annog arloesi a datblygu pellach. Cyfeiriodd un ymddiriedolaeth ddatblygu at ei phartneriaeth â chymdeithasau tai i adnewyddu tai yn ogystal â darparu man gwaith a reolir. Cadarnhawyd hyn ymhellach gan eraill:

“Mae cyfleoedd gwyh i gael partneriaethau rhwng mentrau cymdeithasol a chyrff yn y sector cyhoeddus sydd yn berchen ar asedau nas defnyddir yn llawn. Mae Ymddiriedolaeth Ddatblygu Glyn Ebwy (EVAD) wedi datblygu gwaith cadarnhaol iawn ar y cyd â Corus ynghylch dyfodol asedau'r gwaith dur a gaewyd yn ddiweddar, yr awdurdod lleol a rhaglen Blaenau'r Cymoedd. Mae prosiect y Llynnoedd Gleision yn enghraifft dda o'r hyn y gellir ei gyflawni. Rhoddodd Corus dir a pheth arian fel rhan o'u prosiect lleihau fel bod EVAD yn gallu datblygu parc gwledig ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr.

Mae Cymdeithasau Tai yn asiantaethau adfywio pwysig mewn ardaloedd sy'n wynebu heriau mawr oherwydd diffeithiad/adfeiliad. Yn ddiweddar prynodd United Welsh eiddo ar hyd stryd adfeiliedig i greu lleoedd adwerthu a deiliadaeth gymysg i roi hwb i gychwyn adfywiad economaidd y cylch, gan ychwanegu cymalau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau i sicrhau cyfleoedd am hyfforddiant a swyddi a chynnwys ysgolion mewn datblygiadau newydd.”

Roedd teimlad cyffredinol, fodd bynnag, fod llawer yn amharod i gydweithio er gwaethaf uchelgeisiau prynwyr a llunwyr polisïau, yn rhannol oherwydd y gystadleuaeth am grantiau a'r sicrwydd ariannol y mae derbyn grant yn ei olygu.

Ambell dro roedd potensial i hyn lastwreiddio effaith ac effeithlonrwydd:

“Gwelir yn aml sefydliadau'n cyflwyno gwasanaethau nad yw'r sector preifat yn awyddus i'w eu cyflwyno, ond daw cystadleuaeth yn fynych gan sefydliadau tebyg eraill nad ydynt yn barod i weithio ar y cyd. Un enghraifft o hyn yw undebau Credyd. Gwn am dri ohonynt sydd yn cystadlu â'i gilydd ar hyn o bryd am fod yr awdurdod gwasanaethau ariannol wedi caniatáu i un undeb credyd ymestyn ei gylch bondiau cyffredin i gynnwys yr ardaloedd a wasanaethid gan y ddau undeb credyd arall. Mae cefnogaeth yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gan un a gwelir hwnnw bellach yn ysglyfaethwr; mae angen rhoi sylw i hyn ond anodd yw datrys y mater.”


Yn gyffredinol, mae hyn yn amlygu'r diffyg cydweithio a geir nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y DU. Mae'n tanlinellu'r angen am fwy o gymorth i ddatblygu partneriaethau a chonsortia.

4.6. Mesur effaith

Ymchwiliad astudiaeth i farn rhanddeiliaid ynghylch pa mor llwyddiannus y mae'r mentrau cymdeithasol wrth gyrraedd eu nodau cymdeithasol, i ba raddau y mae'r mentrau cymdeithasol yn adolygu'u heffaith mewn dull cyson a mesuradwy, a pha rai o'r mesurau a ddefnyddir y gellid eu cyfuno i asesu effaith y mentrau cymdeithasol ar brif feysydd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.


Roedd y sefydliadau a gyfwelwyd yn hynod gadarnhaol ynglŷn â'u cyflawniadau. Dywedodd mwy na naw o bob deg iddynt gyflawni'u hamcanion yn llwyddiannus dros y deuddeg mis diwethaf. Gwelwyd y duedd hon yn gyffredinol. Cafwyd nifer o hanesion credadwy iawn am y mathau o wahaniaeth y mae mentrau cymdeithasol yn eu gwneud – o drawsnewid bywydau pobl sydd ag anableddau i adfywio ac ail-ddeffro economïau cymunedau dan anfantais.

Dangosyn 4.15: Y canfyddiad o lefel llwyddiant



Fodd bynnag, dywedodd llai na 40% o'r rhai a gyfwelwyd fod ganddynt ddulliau gweithredol o asesu eu perfformiad mewn unrhyw fodd cyson a mesuradwy. Mae hyn yn tanlinellu'r gwirionedd nad oes digon o fonitro, gwerthuso a chyfathrebu ynghylch "effaith cymdeithasol" y mentrau cymdeithasol mewn modd cyfundrefnol. Dyma faes lle mae angen herio, annog a chefnogi mentrau cymdeithasol i wella.

Dangosyn 4.16: Mesur effaith



Roedd rheolwyr y mentrau cymdeithasol a chynrychiolwyr y llywodraeth fel ei gilydd yn cytuno bod:

“Mesur perfformiad ac effaith y mentrau cymdeithasol yn wan. Mae llawer mwy y gellid ei wneud i gyhoeddi manteision y sefydliadau hyn”.

Roedd sefydliadau mwy'n fwy tebygol o fod wedi sefydlu systemau mesur perfformiad. Dywedodd 71% o sefydliadau â mwy na £0.5 miliwn o drosiant fod ganddynt fesurau i asesu'u heffaith gymdeithasol a/neu amgylcheddol, o'i gymharu â dim ond 25% o'r sefydliadau oedd â throsiant llai na £100,000. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen lefel benodol o adnoddau – o ran amser, arbenigedd ac ymdrech staff – i sefydlu systemau mesur, ac nid oes gan sefydliadau llai adnoddau o'r fath.

Mae hi'n ddiddorol bod y grŵp craidd o fentrau cymdeithasol a oedd yn eu diffinio'u hunain yn fentrau cymdeithasol yn fwy tebygol o asesu'u perfformiad a'u heffaith na'r sampl yn gyffredinol. Hefyd, mae mentrau ifanc a datblygol yn fwy tebygol o asesu perfformiad. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith mai peth gweddol ddiweddar yw'r ffocws ar fesur gwerth cymdeithasol, a bod sefydliadau iau neu fwy newydd yn fwy tebygol o fabwysiadu syniadau newydd fel hyn.

Gwelir bod adeiladu'r capasiti a'r gallu i fesur eu manteision cymdeithasol a'u gwerth ac adrodd yn ôl ar y rhain yn hollol hanfodol i ddatblygiad y mentrau cymdeithasol i'r dyfodol. Mae hyn yn neilltuo o wir yn yr hinsawdd bresennol pan fo disgwyl cynyddol i'r mentrau cymdeithasol geisio am arian cyhoeddus a phrofi'u gwerth cymdeithasol yn ogystal â'u capasiti i gyflawni.

Yng ngeiriau un o brif ymgynghorwyr y llywodraeth:

“Dyma faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach... nid yw mentrau cymdeithasol yn dda iawn wrth fesur eu gwerth neu eu heffaith a'u marchnata”.

Fodd bynnag, roedd un arall a gyfwelwyd yn cydnabod nad tasg hawdd yw mesur gwerth cymdeithasol:

“Sut mae modd mesur gwelliant ym mywydau unigolion, y canlyniadau mwy meddal? Yn aml gellir teimlo'r gwahaniaeth heb fedru ei fesur.”


Yr hyn y mae swyddogion llywodraeth yn ei ddisgwyl yw y dylai mwy o bwyslais ar dendro cystadleuol a chytundebau lefel gwasanaeth annog mwy o werthuso'r effaith gymdeithasol o fewn y sector. Disgwylir i hyn helpu i brofi llwyddiant mentrau cymdeithasol a chefnogi eu datblygiad busnes yn y dyfodol.

Yr hyn y mae mentrau cymdeithasol yn canolbwyntio arno ar hyn o bryd yw sefydlu a chynnal eu gweithrediadau o ddydd i ddydd, a dim ond rhywfaint o gapasiti sydd gan y rhan fwyaf ohonynt i sefydlu systemau monitro a gwerthuso. Fel y dywedodd un o'r rhai a gafodd eu cyfweld: *“rydym yn tueddu i*

ganolbwyntio mwy ar gadw'r rhod yn troi." Fodd bynnag, mae'r ymwybyddiaeth a'r parodrwydd i fuddsoddi mwy mewn monitro perfformiad a mesur effaith ar gynnydd.

Y cam cyntaf ar gyfer nifer o fentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweld yw ennill safon ansawdd gydnabyddedig er mwyn dangos proffesiynolrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad. Y nodau ansawdd mwyaf cyffredin a enillwyd gan fentrau cymdeithasol a gafodd eu cyfweld yw Buddsoddwyr mewn Pobl a'r Ddraig Werdd. Mae hi hefyd yn werth nodi mai dim ond 20% o fentrau cymdeithasol oedd yn gallu nodi safonau ansawdd yr oeddynt wedi'u cyrraedd.

Dangosyn 4.17: Defnydd o safonau ansawdd



Mae bron un o bob deg menter gymdeithasol hefyd wedi ennill safon ISO. Enghraifft dda o hyn yw Cwmni Cymdeithas Atal Troseddu Cwm Cynon. Mae'r fenter gymdeithasol hon wedi ennill yr achrediad ISO uchaf yn y sector diogelwch. Mae Cylch, y corff ambarél ar gyfer mentrau cymdeithasol yn y sector ailgylchu, hefyd yn annog ei aelodau i ennill achrediad ISO.

"Mae achrediad proffesiynol o'r fath, ar ffurf nodau ansawdd cydnabyddedig a chyrraedd safonau ISO, yn bwysig iawn er mwyn helpu i ennill contractau. Rhaid i chi fynd ar drywydd achredu, neu fyddwch chi ddim yn ennill contractau".


Cafodd y safbwynt hwn ei gefnogi ar ochr y prynwyr hefyd. Fel y dywedodd un swyddog llywodraeth:

"Mae rhai mentrau cymdeithasol wedi cyrraedd safonau Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae hyn yn beth da a byddai'n cael ei ystyried yn beth cadarnhaol wrth ddyfarnu contractau".

Y dull mwyaf cyffredin o fesur perfformiad oedd cynnal arolygon ymysg defnyddwyr gwasanaeth fel ffordd o gael adborth cleientiaid ar ansawdd ac effaith eu gwasanaethau. Bydd cymdeithasau tai'n defnyddio arolygon o'r fath yn fynych ymysg eu tenantiaid. Bu Cwmni Cymdeithas Atal Troseddu Cwm Cynon hefyd yn monitro a gwerthuso bodlonrwydd cwsmeriaid yn rheolaidd, gan dderbyn graddfa ymateb o 70% a lefelau uchel o fodlonrwydd.

Dangosyn 4.18: Defnydd o ddulliau i fesur perfformiad cymdeithasol

C A ydych yn defnyddio unrhyw ddulliau arbennig i'ch helpu i ddeall a mesur eich effaith, er enghraifft Archwiliad Cymdeithasol neu Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad? [AMLGODIO]



Syfaen: Pawb a ddywedodd eu bod yn defnyddio dulliau gwerthuso i fesur effaith (260)

Ffynhonnell: TRU

Mae ystod o ddulliau wedi cael eu datblygu i gynorthwyo mentrau cymdeithasol i fesur eu heffaith a dangos ansawdd yr hyn y maent yn ei wneud. Fel y dywedodd un o'r cyfweledigion, mae gwefan Prove and Improve gan nef yn ganolfan adnoddau ddefnyddiol ac yn darparu rhestr o'r dulliau hyn (www.proveandimprove.org).

Roedd y rhan fwyaf o fentrau cymdeithasol yn gyfarwydd â dulliau mesur perfformiad cymdeithasol amrywiol, fel archwilio cymdeithasol ac Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (ECaF), ond nid yw'r dulliau hyn yn cael eu gweithredu'n eang hyd yma. Mae bron un o bob deg o'r mentrau cymdeithasol hynny sy'n monitro perfformiad yn defnyddio archwiliadau cymdeithasol. Mae rhai cyrff rhwydweithio, fel Cylch a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, wedi arwain ar hyrwyddo'r defnydd o ddulliau cyfrifo ac archwilio cymdeithasol.

"Rydyn ni o'r farn ei bod hi'n bwysig iawn mesur perfformiad cymdeithasol, ac wedi arwain y blaen ym maes cyfrifo cymdeithasol. Mae Cylch a chwech neu saith o'n haelodau wedi cynhyrchu cyfrifon cymdeithasol ac rydym yn annog ein holl aelodau i wneud hyn".

Mae'n ymddangos fel pe bai'r arweinyddiaeth hon a'r broses o adeiladu capasiti ym maes mesur effaith wedi chwarae rhan hanfodol wrth gynyddu'r nifer sy'n mabwysiadu ac yn gweithredu dulliau o fesur effaith gymdeithasol.

Fodd bynnag, efallai mai un o'r canfyddiadau pwysicaf yma yw mai dim ond 39% o fentrau cymdeithasol a nododd unrhyw fath o ddull mesur i asesu eu heffaith. Gan nad oes dull cyfundrefnol o fesur effeithiau ar gymdeithas, nid oedd modd asesu, y tu hwnt i'r data pennawd a gyflwynwyd yn adran y canfyddiadau, effaith gyffredinol y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru ar gymdeithas, yr economi na'r amgylchedd. Fodd bynnag, cynhaliwyd adolygiad cryno o lenyddiaeth gennym er mwyn sefydlu i ba raddau y mae'r sector yn mesur effaith gymdeithasol ar hyn o bryd. Ceir ymdrechion drwy'r holl sector i fesur perfformiad cymdeithasol ac mae cynnydd da i'w weld mewn sectorau penodol fel ailgylchu a thai cymdeithasol. Roedd adroddiad 'Let's Prove It!' a luniwyd gan Cylch yn casglu data gan 43 o'r 60 o sefydliadau ailgylchu cymunedol a oedd yn aelodau i fesur cyfraniadau ei sefydliadau tuag at yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi rhwng 2005 a 2006. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd wedi dadansoddi a chyhoeddi effeithiau economaidd cymdeithasau tai Cymru ar economi Cymru. Cyflwynir rhai o brif bwyntiau'r adroddiadau hyn yn y bocs isod.

Tystiolaeth o effaith mentrau cymdeithasol

Mae Cylch, sefydliad aelodaeth mentrau cymdeithasol sy'n ymwneud ag ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, yn casglu data'n rheolaidd ar berfformiad cymdeithasol ac economaidd ei aelodau. Mae hyn yn amlygu'r rhan bwysig y mae'r mentrau cymdeithasol hyn yn ei chwarae ym maes rheoli gwastraff ac adnoddau yng Nghymru:

- **Yr effaith ar yr amgylchedd:**

- o Mae nifer gynyddol o wastraff yn cael ei wro o safleoedd tirlenwi drwy wasanaethau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gan fod aelodau Cylch wedi ehangu eu gweithrediadau - o 36,434 o dunelli yn 06/07 i 38,682 o dunelli yn 07/08.
- o Cafwyd y cynnydd mwyaf sylweddol mewn ailddefnyddio dodrefn a chasglu a chompostio bwyd a gwastraff gwyrdd.

- **Cymdeithasol:**

- o Mwy o gyfleoedd am gyflogaeth, lleoliadau gwirfoddoli ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a phobl dan anfantais yn y gweithle.

Ffynhonnell: *Let's Prove It Report 2007-2008*, Cylch Hydref 2008

Mae cymdeithasau tai Cymru hefyd yn cofnodi eu budd i'r gymuned:

- Yn 2007/08, gwariodd cymdeithasau tai Cymru amcangyfrif o £407m, gan gynnwys gwariant gweithredu. O'r swm hwn, gwariwyd 36.2% ar adeiladu, 23.1% ar gostau llafur a 21.9% ar gostau cynnal a chadw/atgyweirio stoc. Cadwyd £338m o'r £407m yng Nghymru.


Ar gyfer pob unigolyn ar gyflog llawn amser gan gymdeithas tai, mae dwy a hanner o swyddi eraill yn cael eu cynnal yn rhywle arall yn yr economi. Mae Cymdeithasau Tai'n cyflogi 3,300 o gyflogeion llawn amser, ac mae 8,747 yn cael eu cyflogi'n anuniongyrchol.

Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn o ddogfennau'n gydnaws â chanfyddiadau'r arolwg a'r cyfweiliadau, nad yw'r gwaith o fesur yr effaith ar gymdeithas wedi datblygu rhyw lawer, ond bod yr ymwybyddiaeth ohono'n gymharol uchel ac ar gynnydd, a bod sefydliadau cymorth ac ambarél yn hanfodol i gymell a chefnogi'r defnydd o fesuriadau effaith a chyhoeddi'r canlyniadau.

4.7. Cymorth a chyfathrebu Llywodraeth Cynulliad Cymru


Roedd yr astudiaeth yn asesu safbwynt sefydliadau ynglŷn â lefel y cymorth a geir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol. Ar y cyfan, roedd gan yr ymatebwyr safbwyntiau cadarnhaol ynghylch rôl a dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd dros 40% o'r ymatebwyr yn teimlo bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael dylanwad cadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar lwyddiant eu sefydliad. Dim ond 9% ohonynt oedd yn teimlo bod dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru'n negyddol.

Dangosyn 4.19: Dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lwyddiant sefydliadau



Ar y cyfan, cafwyd ymdeimlad bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n agored, yn gynhwysol ac yn gwrandao'n dda. Roedd entrepreneuriad cymdeithasol blaenllaw'n teimlo'u bod yn cael cyfle i gymryd rhan gyda'r llywodraeth mewn adolygiadau o strategaethau. Er enghraifft, soniodd Cylch eu bod wedi cymryd rhan mewn adolygiad o Strategaeth Wastraff Cymru. Roedd rhwydweithiau mentrau cymdeithasol eraill mwy wedi cael profiad tebyg oherwydd eu statws arbenigol. Roedd eu perthynas "dda iawn" â dwy adran o fewn y llywodraeth yn "helpu i adeiladu'r sector", ac yn cefnogi'u cyfeiriad strategol.

Dangosyn 4.20: Dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sefydliadau



Ffynhonnell: ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Y sefydliadau mwy, o ran trosiant, oedd â'r farn mwyaf cadarnhaol ynglŷn â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y farn lleiaf cadarnhaol ymysg mentrau cymdeithasol sy'n eu cynnal eu hunain yn gyfan gwbl drwy incwm masnachu. Mae mentrau o'r fath yn tueddu i ystyried bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n canolbwyntio gormod ar gymunedau yn hytrach na meddwl o safbwynt busnes wrth edrych ar fentrau cymdeithasol:


Mae angen i "Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod mai busnesau yw mentrau cymdeithasol. Nid yw'r Llywodraeth yn cydnabod nac yn cefnogi ochr fusnes mentrau cymdeithasol. Rydym yn teimlo bod gan ein model lawer o botensial i'w ailadrodd ledled Cymru ond nid ydym yn cael ein gwerthfawrogi'n ddigonol hyd yma i wneud hynny Mae'n gyfle wedi'i golli".

Cadarnhawyd y safbwynt hwn ymhellach gan y farn ymysg mentrau cymdeithasol o natur busnes, fod yr agenda mentrau cymdeithasol wedi'i chysylltu'n ormodol â'r trydydd sector, ac nad oedd wedi'i hymwreiddio'n ddigonol yn holl bolisiau'r llywodraeth. Roedd rhai'n awgrymu y dylai'r Adran Economi a Thrafnidiaeth arwain ar fentrau cymdeithasol gyda mewnbwn gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol, er mwyn symud y ffocws oddi ar weld mentrau cymdeithasol yn rhan o'r 'trydydd sector' ac fel mwy o fodel busnes amgen. Roedd eraill yn pryderu mwy ynglŷn â sicrhau bod holl adrannau'r llywodraeth yn deall ac yn cydnabod rôl mentrau cymdeithasol. Ar y cyfan, roedd ymdeimlad y dylai'r Tîm Mentrau Cymdeithasol "dynnu mwy o sylw at y mater yn y Cabinet ac ar lefelau uwch yn y llywodraeth" fel bod mentrau cymdeithasol yn cael eu hystyried o ddifrif yn holl adrannau'r llywodraeth.

4.7.1. Cyfathrebu â llywodraeth leol

Cafwyd sylwadau cymysg ynglŷn â'r rhyngweithio rhwng mentrau cymdeithasol a datblygwyr polisi ar lefel leol. Ar y cyfan, roedd 49% yn teimlo bod sefydliadau sector cyhoeddus lleol yn cyfathrebu'n dda â'u sefydliad. Serch hynny, nid oedd 30% yn cytuno â'r datganiad hwn.

Dangosyn 4.21: Cyfathrebiadau'r Sector Cyhoeddus



Mae'n ymddangos fod sefydliadau â phresenoldeb mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn fwy bodlon â chyfathrebiadau'r awdurdodau lleol.

4.7.2. Beth ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud mwy ohono?


Y farn gyffredinol oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu i fywiogi'r sector a'i gefnogi i dyfu, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

"Nawr yw'r amser i edrych ar y posibilrwydd o fodelau busnes ac economaidd amgen, ond mae angen arweinyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer hyn. Dylai'r Llywodraeth feddwl ar raddfa ehangach a chyfrannu mwy o adnoddau tuag at ddatblygu mentrau cymdeithasol."

Ond roedd gair o rybudd na ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddisgwyl i'r trydydd sector na mentrau cymdeithasol lwyddo mewn hinsawdd fasnachol os na all busnesau masnachol lwyddo. Mae hi'n gyfnod anodd i bob sefydliad.

Y prif faes yr hoffai'r ymatebwyr i Lywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio mwy arno yw cyllid, naill ai cyllid uniongyrchol neu gymorth i gael mynediad at gyllid. Crybwyllwyd cyllid gan gyfanswm o 59% o'r cyfweledigion mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Yn nodweddiadol, hoffai mentrau cymdeithasol gael mynediad at gyllid craidd mwy hirdymor (o leiaf tair i bum mlynedd) er mwyn buddsoddi i adeiladu ar eu gwaith yn hytrach na chyllid unigol ar gyfer prosiectau penodol.

Dangosyn 4.22: Y Cymorth a Ddymunir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru



Daw hyrwyddo, cydnabod a defnyddio mentrau cymdeithasol hefyd yn uchel ar yr agenda o'r meysydd yr hoffai'r cyfweledigion i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio mwy arnynt. Ceir canfyddiad bod diffyg dealltwriaeth ynghylch mentrau cymdeithasol yn rhwystro twf a chyfleoedd. Mae mentrau cymdeithasol, ar y cyfan, yn teimlo bod diffyg ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol - pwy yr ydynt a'r hyn y maent yn ei wneud - ymysg rhanddeiliaid allweddol, fel awdurdodau lleol, a chanlyniad hyn yw nad ydynt yn cael eu cefnogi na'u gwerthfawrogi fel y dylent. Cais cyffredin oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu mwy i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth mentrau cymdeithasol.

Wrth eu holi a oeddynt yn meddwl bod dealltwriaeth eang o'r term menter gymdeithasol o fewn eu sefydliad, neu o fewn eu cymuned, atebodd yr holl gyfweledigion - "na". Roedd pawb yn teimlo y byddai o gymorth i'w busnes pe bai mwy o bobl yn deall ystyr y term. Fodd bynnag, roedd llawer yn teimlo nad

oedd unrhyw safbwynt clir ynglŷn â'r hyn y mae bod yn fenter gymdeithasol yn ei olygu, hyd yn oed ymysg y mentrau cymdeithasol eu hunain.

“Rydym yn teimlo nad oes gennym unrhyw beth yn gyffredin â 90% o'r sefydliadau eraill o gael ein cynnwys mewn grŵp o dan y pennawd 'menter gymdeithasol'.”

Gallai fod yn ddefnyddiol i wneud segmentu mentrau cymdeithasol yn fasnachol yn ôl math, er enghraifft cwmni cymdeithasol, yn ôl sector, er enghraifft ailgylchu, neu yn ôl lefel yr incwm a enillir, er enghraifft, y rhai a chanddynt fwy na 75% ac eraill sy'n chwilio am strategaethau cynaliadwy mwy cymysg.

Cafwyd cefnogaeth i'r syniad bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu ymgyrch gyfathrebu. Fodd bynnag, cafwyd pryder ynglŷn â'r modd y byddai hyn yn cael ei ddylunio a'i reoli. Roedd llawer o'r farn mai'r mentrau cymdeithasol eu hunain a ddylai fod yn llywio unrhyw ymgyrch farchnata o'r fath.

“Mae angen i ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â photensial cymdeithasau tai i chwarae rhan mwy arloesol fel menter gymdeithasol gael ei harwain gan yr ymarferwyr eu hunain. Rwy'n teimlo'n gryf y dylai ein corff masnachu, Cartrefi Cymunedol Cymru a rhwydweithiau eraill fel y Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu, arwain unrhyw ymgyrch hyrwyddo.”

Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn pwysleisio'r angen i amlygu'r union hyn y gall mentrau cymdeithasol ei gyflawni mewn ieithwedd syml.

Roedd y sylwadau'n gymysg ynghylch datblygu nod barcud ar gyfer mentrau cymdeithasol. Roedd rhai'n teimlo mai brandio oedd “y peth pwysicaf un” er mwyn datblygu mentrau cymdeithasol. O'i wneud yn gywir a'i gymryd o ddifrif, gallai hyn helpu i godi cydnabyddiaeth gyhoeddus a'r galw am wasanaethau mentrau cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd mentrau cymdeithasol (iau yn bennaf) eraill yn teimlo y gallai hyn olygu bod y rhai sy'n ennill nod barcud yn cael eu trin fel achosion arbennig, gan amharu ar ddatblygiad mentrau cymdeithasol datblygol.

Ar y cyfan, ceir ymdeimlad clir bod angen gwneud mwy i gyfathrebu a marchnata manteision mentrau cymdeithasol i'r sector cyhoeddus a'r cyhoedd.

5. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r astudiaeth fapio hon yn creu darlun o faint, cwrpas, amlygrwydd a nodweddion sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar arolwg graddfa fawr a chyfweliadau manwl â rhanddeiliaid allweddol yn y sector mentrau cymdeithasol.

Mae'r rhai sy'n arwain ac yn cefnogi mentrau cymdeithasol o'r farn fod modelau busnes mentrau cymdeithasol yn fwy perthnasol nag erioed yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Maent yn cynnig y posibilrwydd o adeiladu economi sy'n cael ei hysgogi'n fwy gan gymdeithas a'r amgylchedd.

Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd fod angen ymrwymiad gwleidyddol a chefnogaeth integredig gyson ar bob lefel o du'r llywodraeth er mwyn i fenter gymdeithasol allu gwireddu'i haddewidion. Mae hi'n gyfnod cynnar iawn o hyd yn y broses o ddatblygu'r rhan fwyaf o fodelau mentrau cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi sefydlu ei hymrwymiad tuag at fentrau cymdeithasol yng Nghynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009. Mae'r cynllun yn cynnwys 20 o gamau allweddol i helpu'r sector i ehangu, i dyfu mentrau sy'n bodoli eisoes, ac i helpu mentrau cymdeithasol newydd i'w sefydlu eu hunain. Bydd angen cryn gymhelliad, ymrwymiad a chydweithrediad ar draws y llywodraeth, mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymorth er mwyn cyflawni'r camau hynny.

Yn yr adran olaf hon, nodir ein casgliadau cyffredinol o'r astudiaeth fapio, a'r argymhellion sy'n deillio o hynny. Rydym wedi trefnu'r rhain o dan benawdau amrywiol sy'n cydweddu â'r argymhellion a'r camau a wnaed eisoes yng Nghynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009, ac yn ychwanegu atynt.

Argymhelliad 1: Cynnal a gwella'r sylfaen hon o wybodaeth am weithgarwch mentrau cymdeithasol

Er mwyn darparu cymorth priodol a pharatoi cyllid ar gyfer mentrau cymdeithasol yng Nghymru mae angen gwybodaeth fanwl gywir, ddiweddar a chadarn ynglŷn â maint, cwrpas a pherfformiad mentrau cymdeithasol, yn ogystal â natur a maint y problemau y maent yn eu hwynebu a'r modd y mae'r rhain yn newid.

Gallai sylfaen wybodaeth gadarn o ansawdd uchel fod yn offeryn pwysig iawn i gynyddu'r wybodaeth am fentrau cymdeithasol, y galw am eu gwasanaethau a'r cyflenwad o gyllid. Gallai hefyd ddarparu'r sylfaen wybodaeth sydd ei hangen i farchnata a chyfathrebu â mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Gobeithiwn fod yr astudiaeth fapio hon yn gam cyntaf yn hyn o beth. Mae'n darparu ffigurau pennawd ynghylch niferoedd cyffredinol a maint y sefydliadau a chanddynt weithgarwch menter gymdeithasol, a'r heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu hwynebu. Rydym yn argymhell cyfres o gamau i sicrhau bod gwybodaeth yr astudiaeth fapio hon yn fan cychwyn gwerthfawr er mwyn datblygu ac asesu perfformiad gweithgarwch mentrau cymdeithasol yn y dyfodol. Yn benodol, argymhellir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n:

- *Cynnal, yn diweddar ac yn rhannu'r gronfa ddata hon ar weithgarwch mentrau cymdeithasol er budd yr holl randdeiliaid, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cyrff cefnogi mentrau cymdeithasol, asiantaethau llywodraethol, noddwyr a chwmnïau preifat a chanddynt ddiddordeb. Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cefnogi SEC Cymru i ddatblygu'r capasiti i reoli a gwneud defnydd effeithiol o'r gronfa ddata hon.*
- *Ailadrodd yr astudiaeth fapio hon yn rheolaidd, bob blwyddyn fyddai orau, ond o leiaf bob tair blynedd.*

Argymhelliad 2: Cydnabod amrywiaeth mentrau cymdeithasol yng Nghymru a chynllunio cyfathrebiadau a chymorth i gyfateb â hynny.

Mae'r astudiaeth fapio hon yn tanlinellu amrywiaeth y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n amrywio rhwng sefydliadau fel Glas Cymru, busnes proffidiol gwerth amryw o filiynau o bunnau sy'n darparu gwasanaethau dŵr ledled Cymru, a sefydliadau bach cymunedol, sy'n darparu gwasanaethau gofal dydd i drigolion lleol, wedi'u hariannu'n bennaf drwy grantiau. Gellir ystyried y sefydliadau hyn yn rhan o un "sector" yn yr ystyr bod ganddynt oll yr un nodweddion menter gymdeithasol o ran cyfeiriadaeth menter, nodau cymdeithasol a pherchnogaeth gymdeithasol. Serch hynny, mae'r

gwahaniaeth rhyngddynt yn anferthol o ran maint, gallu a nodau busnes, diwylliant, nodau cymdeithasol a'u model ariannu.

Credwn ei bod hi'n bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'r data o'r astudiaeth hon i segmentu sefydliadau a chanddynt weithgarwch menter gymdeithasol. O wneud hyn, bydd modd i'r Llywodraeth dargedu ei chyfathrebu mewn modd sy'n gwneud synnwyr i'r sector yn ôl y ffordd y maent yn eu diffinio'u hunain a'u huchelgeisiau.

Argymhellir yn benodol y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cefnogi mentrau cyhoeddus:

- *Gydnabod amrywiaeth eang marchnadoedd, nodau cymdeithasol a threfniadau incwm mentrau cymdeithasol er mwyn cydbwysu'r ffocws cyfredol ar gymunedau dan anfantais â chydabyddiaeth o rolau economaidd ac effeithiau ehangach mentrau cymdeithasol. O ganlyniad i hyn, dylai mentrau cymdeithasol fod wedi'u hymwreiddio yn holl waith a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru*
- *Edrych ar y sector menter gymdeithasol mewn modd mwy segmentiedig gyda chymorth data'r astudiaeth fapio, a chynllunio rhaglenni cymorth sy'n cyfateb â mathau arbennig o fentrau cymdeithasol.*
- *Cofio nad yw nifer o fentrau cymdeithasol yn eu galw'u hunain yn hynny, ac mewn unrhyw waith marchnata i gefnogi sefydliadau a allai elwa ar gymorth menter, boed hynny ar gyfer y sefydliad cyfan neu ran ohono, dylai'r dull o gyfathrebu alluogi sefydliadau i'w hadnabod eu hunain a sylweddoli bod y cymorth yn addas iddynt hwy. Bydd hyn yn helpu i gynyddu'r defnydd priodol o wasanaethau yn hytrach na defnyddio'r term 'menter gymdeithasol' i gyfeirio at bawb.*
- *Yn arbennig, cydnabod y gwahaniaethau rhwng y sefydliadau hynny sy'n eu hystyried eu hunain yn fusnesau (a chanddynt bwrpas cymdeithasol) ac sy'n gallu tyfu'n realistig i fod yn fentrau cymdeithasol hunangynhaliol, rhai a allai fod yn ceisio gweithredu'n briodol ar ffrwd gymysg o incwm drwy gyfuno grantiau, incwm a enillir a chontractau sector preifat, a rhai sy'n eu hystyried eu hunain yn bennaf fel elusennau ac sy'n dibynnu ar grantiau. Mae mwy o alw am gyfleoedd masnachol ymysg yr enghraifft gyntaf, ac am gael eu trin fel busnesau, yn hytrach na fel rhan o'r gymuned neu'r trydydd sector.*
- *Ystyried cynnal adolygiadau a datblygu amgylchedd sy'n galluogi a chynlluniau buddsoddi ar gyfer mentrau cymdeithasol mewn sectorau twf allweddol neilltuoel, fel ailgylchu gwastraff, cynhyrchu ynni glân, bwyd lleol/organig, y celfyddydau a diwylliant. Mae cymdeithasau tai'n gefnogol iawn o Adolygiad Essex ac yn awyddus iawn i weld yr Adolygiad yn cael ei weithredu. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried gwerth datblygu strategaethau manylach ar gyfer sectorau mentrau cymdeithasol eraill. Dylid integreiddio'r rhain i bolisiau prif-ffrwd, e.e. i reoli gwastraff ar gyfer ailgylchu*

Argymhelliad 3: Cynnwys awdurdodau lleol yn rhagweithiol i weithio â mentrau cymdeithasol

Mae awdurdodau lleol yn rhanddeiliaid craidd yn natblygiad y sector mentrau cymdeithasol, fel partneriaid a phrynwyr y gwasanaethau. Er enghraifft, maent yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan mai eiddo awdurdod lleol a all gael eu trosglwyddo'n bennaf. Maent hefyd yn brif brynwyr a chefnogwyr gwasanaethau mentrau cymdeithasol, fel tai cymdeithasol, iechyd a gofal cymdeithasol, ailgylchu a gwasanaethau cyllid cymunedol.

Ceir arfer da lle bydd awdurdodau lleol yn cydweithio â mentrau cymdeithasol, ond mae angen prif-ffrydio hyn a'i fwyhau. Wrth symud tuag at gyllid cydgyfeiriol, ceir hefyd fwy o angen i awdurdodau lleol gydweithio dros ardaloedd daearyddol ac ymuno â'i gilydd i gefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol.

Mae mentrau cymdeithasol yn disgwyl i Lywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i ymgysylltu â mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau, drwy drosglwyddo mwy o asedau a chomisiynu cyhoeddus. Argymhellir bod:

- *Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â chyrff cefnogi mentrau cymdeithasol a llywodraeth leol, yn datblygu strategaeth ragweithiol a chynllun gweithredu i gynnwys pob awdurdod lleol yn y gwaith o ddatblygu mentrau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol ymysg yr holl adrannau caffael, gan ddatblygu capasiti mentrau cymdeithasol fel eu bod yn gallu caffael contractau cyhoeddus a datblygu partneriaethau rhwng y naill a'r llall. Dylai cynllun o'r fath*

gynnwys enghreifftiau ymarferol o arfer da wrth gaffael cyhoeddus neu bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i ledaenu'r arfer da.

- *Bod corff y mae gan lywodraeth leol ran ynddo, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn cynnal gwerthusiad trylwyr o ddatrysiadau mentrau cymdeithasol ar gyfer nodau caffael a pholisi cyhoeddus er mwyn darparu mwy o dystiolaeth ynglŷn â'u cynaliadwyedd a'u heffeithiolrwydd mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus penodol.*
- *Bod pob corff sector cyhoeddus yn sicrhau bod contractau'n cael eu hasesu i weld a oes angen eu darparu ar y raddfa honno, neu a ellid eu torri'n unedau llai i sicrhau eu bod yn fwy effeithiol, ac/neu fel bod sefydliadau llai, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn gallu cael mynediad gwell atynt.*
- *Bod pob corff sector cyhoeddus yn cadw'n llym at delerau talu o fewn 30 diwrnod er mwyn osgoi achosi problemau llif arian a all arwain at ganlyniadau difrifol i sefydliadau bach.*

Argymhelliad 4: Cryfhau proffesiynolrwydd a ffocws y cymorth busnes er mwyn adeiladu mentrau cymdeithasol cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynllunio i hyrwyddo a hwyluso cydweithio, cydweithrediad ac integreiddio effeithiol rhwng pob gwasanaeth, asiantaeth a noddwr sy'n darparu cymorth datblygu busnes i fentrau cymdeithasol.

Mae angen mwy o gymorth i helpu mentrau cymdeithasol i ddatblygu fel busnesau cynaliadwy. Mae'r rhan fwyaf yn dda ar agweddau "cymdeithasol" eu gwaith, ond mae llawer llai ohonynt yn cael eu rhedeg fel busnesau effeithiol a dichonadwy. Nid oes gan lawer o fentrau cymdeithasol a chyrrff rhwydweithio ddigon o gapasiti dynol perthnasol i ymdrin â'r gwaith o adeiladu busnesau dichonadwy, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth fapio hon yn awgrymu rhai meysydd lle mae angen canolbwyntio cymorth ymhellach. Awgrymir yr argymhellion hyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyrrff sy'n ariannu cymorth busnes a'r sefydliadau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu cymorth busnes i fentrau cymdeithasol, fel Cylch, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cyngor Defnyddwyr Cymru a CGGC:

- *Mae angen canfod mecanweithiau i helpu mentrau cymdeithasol i gysylltu â darparwyr cymorth arbenigol annibynnol sy'n diwallu eu hanghenion penodol. Dylai mecanweithiau o'r fath gynnwys cydweithio rhwng holl gyfryngwyr mentrau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyfeirio sefydliadau i'r manau gorau. Dylid datblygu strategaeth i Gymru sy'n cysylltu awdurdodau lleol, darparwyr presennol, cyrrff a phobl sy'n rhoi cymorth i fentrau cymdeithasol yn ogystal â Llygad Busnes, fel yr hyn a wnaed ar gyfer amgylchiadau penodol rhanbarthau penodol o Loegr.*
- *Un syniad i'w ystyried fyddai creu rhaglen cymorth technegol sy'n cysylltu unigolion o'r sector preifat sydd wedi colli swydd dros dro neu'n cael eu tangyflogi i ddarparu gwasanaethau i fentrau a rhwydweithiau cymdeithasol. Gallai llawer o unigolion o'r fath fod yn barod i ddarparu eu gwasanaethau ar sail pro bono neu gost ostyngol. Gallai eu cymhelliant i wneud hynny amrywio rhwng dymuniad i "wneud rhywbeth cymdeithasol" a bod eisiau dangos rhywbeth ar eu CV ar gyfer cyfnod a fyddai fel arall yn wag.*
- *Ceir galw clir am fwy o rwydweithio a chymorth rhwng cymheiriaid. Mae angen canfod mecanweithiau hwyluso er mwyn gwireddu hyn. Ceir galw am rwydweithiau cymheiriaid sy'n canolbwyntio ar faterion cyffredinol, fel mwylhau, yn ogystal â rhwydweithiau'n seiliedig ar faterion technegol ar gyfer mentrau cymdeithasol mewn meysydd neilltuoel.*
- *O ran cymorth, mae'r arbenigedd i wneud ceisiadau'n hyderus am gontractau sector preifat yn hanfodol ac angenrheidiol. Mae i'w weld yn amlwg yn llawer o'r adborth a gafwyd, a dylid rhoi blaenoriaeth i hynny.*
- *Mae marchnata'n faes arall y mae angen canolbwyntio mwy arno. Nid oes gan nifer o fentrau cymdeithasol ond ychydig o sgiliau i farchnata'u gwasanaethau a diffyg adnoddau i gynnal ymgyrchoedd marchnata. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei gwaith ym meysydd cymorth busnes a chyfathrebu, chwilio am ffyrdd effeithiol o helpu mentrau cymdeithasol i farchnata i'r cyhoedd, i'r gymuned fusnes ac i awdurdodau lleol.*

- Cefnogi datblygiad a rhannu arfer da er mwyn helpu mentrau cymdeithasol i ddatblygu partneriaethau a chonsortia effeithiol. Dim ond rhywfaint o dystiolaeth o gydweithredu sy'n bodoli rhwng mentrau cymdeithasol mewn meysydd tebyg neu gyflenwol, a gall hyn danseilio'u heffeithiolrwydd wrth gael mynediad at gyfleoedd am gontractau llywodraeth yn ogystal â diwallu'r anghenion mwy cymhleth o fewn cymdeithas a'r economi.
- Mae cynyddu effaith o ddiddordeb craidd i nifer o fentrau cymdeithasol. Gallai rhai sefydliadau fod eisiau tyfu eu heffaith drwy un sefydliad, a gallent elwa ar astudiaethau achos rhyngwladol o'r modd y gellir gwneud hyn, drwy e.e. greu partneriaeth â'r sector preifat, cael mynediad at gyllid priodol. Mae mwyhau drwy ailadrodd yn fodel deniadol i fentrau cymdeithasol eraill. Mae angen sefydlu strwythurau cymorth proffesiynol er mwyn cefnogi'r broses honno o ailadrodd, e.e. drwy gyflwyno cymorth masnachfaint gymdeithasol i fentrau cymdeithasol sy'n benthyca dulliau masnachfaint y sector preifat.

Argymhelliad 5: Ystyried canolbwyntio mwy ar gefnogi datblygiad darparwyr cyllid cymdeithasol cynaliadwy, a rhoi cyllid uniongyrchol iddynt o bosib, er mwyn cefnogi twf mentrau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru.

Nododd deuparth ohonynt fynediad at ffynonellau cyllid priodol yn un o'r prif ffactorau a fyddai'n helpu eu sefydliad i lwyddo yn y dyfodol, ac roedd bron hanner ohonynt yn ystyried mai dyma oedd y prif ffactor i sicrhau llwyddiant.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gael SEC Cymru, ar ôl iddi gael ei sefydlu, i gydweithio ag arianwyr i hyrwyddo a chydlynu'r holl ffynonellau buddsoddi sydd ar gael i fentrau cymdeithasol (Cam 18 o Gynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009). Croesewir y cam hwn, a rhagdybir y byddai'n cael ei gydlynu â'r Fforwm Cyllidwyr Cymru cyfredol. Dylai rhestr ariannwyr o'r fath fod yn gynhwysfawr a chynnwys ariannwyr yng Nghymru yn ogystal â darparwyr cyllid cymdeithasol eraill yn y DU sy'n gallu darparu cyllid i fentrau cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn, argymhellir y canlynol:

- Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried buddsoddi mewn cyfrwng/cyfyngau ariannu sy'n darparu cymysgedd strwythuredig o fuddsoddiadau, gan symud o grantiau i fenthyciadau meddal i fasnachol a chyllid o natur ecwiti wedi'i gynllunio'n arbennig i gyfateb ag anghenion ariannu a datblygu mentrau cymdeithasol. Dylid dysgu o ymagweddau llywodraeth a gymerwyd yn Lloegr a'r Alban tuag at ariannu mentrau cymdeithasol .
- O ran grantiau, mae'r rhan fwyaf o fentrau cymdeithasol yn ceisio buddsoddiadau grant tair i bum mlynedd i adeiladu eu sefydliad yn hytrach na chyllid grant tymor byr ar gyfer prosiectau penodol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio annog ariannwyr grant i fabwysiadu ymagwedd mwy sefydliadol ac o natur mwy buddsoddiadol tuag at ariannu. Dylid hefyd gynnwys cyllid yn gymorth i adeiladu capasiti er mwyn adeiladu'r capasiti rheoli, cadernid y sefydliad a pharodrwydd mentrau cymdeithasol yn y pen draw i dderbyn cymorth heblaw am grantiau gan fuddsoddwyr.
- Mae angen cefnogi gwybodaeth a gallu mentrau cymdeithasol i reoli cyllid. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr cymorth busnes ystyried cefnogi addysg a hyfforddiant ariannol ymysg mentrau cymdeithasol er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o weithredu fel busnes cynaliadwy, y ffurfiau gwahanol o gyllid heblaw am grantiau sydd ar gael i fentrau cymdeithasol, pa rai sydd fwyaf addas a'r dulliau mwyaf effeithiol o'u defnyddio. Byddai hyfforddiant o'r fath yn helpu i gynyddu parodrwydd mentrau cymdeithasol ar gyfer buddsoddi, a'r galw am gyllid presennol heblaw am grantiau.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gadw golwg ar sefyllfa ariannol mentrau cymdeithasol, yn enwedig yn y farchnad bresennol. Gellid bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried neilltuo rhai o'i hadnoddau ei hunan i ariannu mentrau cymdeithasol, yn enwedig mewn meysydd â blaenoriaeth. Gellid gwneud hyn mewn modd sy'n ysgogi cyllid heblaw am grantiau.
- Ymchwilio ymhellach i'r galw am gyllid o natur ecwiti a chefnogi'r cynnydd yn narpariaeth y dull arloesol hwn o ariannu sy'n diwallu anghenion mentrau cymdeithasol.

Argymhelliad 6: Buddsoddi i wella'r gwaith o fonitro perfformiad a didwylledd mentrau cymdeithasol

Cytunai rheolwyr mentrau cymdeithasol eu hunain yn ogystal â chynrychiolwyr llywodraeth fod y “dull o fesur effeithiau menter gymdeithasol yn wan. Gellid gwneud llawer mwy i fesur a chyhoeddi budd y sefydliadau hyn”. Dim ond un elfen o berfformiad yw effaith (sef newidiadau yn amodau'r cleient neu'r gymuned sy'n deillio'n uniongyrchol o raglenni). Mae perfformiad cymdeithasol yn edrych ar y broses sy'n creu'r effaith yn ei chyfanrwydd.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu nad oes gan nifer o fentrau cymdeithasol, hyd yma, y capasiti fel sefydliad i ddylunio a gweithredu systemau effeithiol a chadarn i reoli a monitro perfformiad cymdeithasol.

Mae'n ymddangos bod yr adroddiadau a'r data sydd ar gael ar berfformiad cymdeithasol, wedi cael eu cefnogi gan gyrff ambarél fel Cylch a Chartrefi Cymunedol Cymru. Argymhellir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff sy'n rhoi cymorth i fentrau cymdeithasol:

- *Yn archwilio ffyrdd i wella'r lefelau o fonitro a gwerthuso perfformiad cymdeithasol ac effaith, a'r data sydd ar gael o fewn y sector mentrau cymdeithasol, mewn partneriaeth â chyrrff ambarél a darparwyr cymorth, gan gynnwys darparu cyllid ar gyfer gwaith o'r fath.*
- *Ystyried mabwysiadu ymagwedd segmentiedig - gan geisio adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd mewn sectorau allweddol, a chan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan Cylch a Chartrefi Cymunedol Cymru .*

Argymhelliad 7: Cefnogi ymgyrch(oedd) ymwybyddiaeth a marchnata graddfa fawr ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n cyrraedd y cyhoedd ehangach.

Yr her wrth gyfathrebu yw sicrhau bod mentrau cymdeithasol yn dod yn fwy adnabyddus ymysg y cyhoedd a'r gymuned fusnes yng Nghymru, nid y rhai hynny sydd yn y sector eisoes, fel bod y galw am eu nwyddau a'u gwasanaethau'n cynyddu. Mae Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys nifer o gamau'n gysylltiedig â chyfathrebu fel comisiynu SEC Cymru i baratoi, lansio a chynnal ymgyrch graddfa fawr i godi ymwybyddiaeth; trefnu cynhadledd fawr ddwyflynyddol ar gyfer mentrau cymdeithasol; hyrwyddo mentrau cymdeithasol ymysg entrepreneuriaid ifanc. Mae'n bwysig nad yw'r ymdrechion hyn yn troi'n rhy fewnblyg, ond eu bod yn anelu i hyrwyddo mentrau cymdeithasol ymysg y cyhoedd ehangach.

- *Ceir galw mawr am ymgyrch i godi ymwybyddiaeth wedi'i harwain gan y sector mentrau cymdeithasol ei hun. Felly gan dybio bod cryn barch tuag at yr SEC, bydd hyn yn cael ei groesawu.*
- *Fodd bynnag, ceir pryder ynghylch ymgyrch "un math sy'n gweddu pawb" o ystyried y gwahaniaethau rhwng y mathau gwahanol o fentrau cymdeithasol a'r nodau sydd ganddynt. Dyma faes lle gellid defnyddio canlyniadau'r arolwg i ganfod pa fathau o sefydliadau sy'n eu disgrifio'u hunain, yn ddigymell, fel mentrau cymdeithasol, a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny, a sicrhau bod ieithwedd yn cael ei chreu sy'n cyfateb â'r ffordd y mae'r sefydliadau eu hunain am gael eu hyrwyddo.*
- *Ystyried cael rhwydweithiau o wahanol fathau o fentrau cymdeithasol i arwain rhannau o'r ymgyrch.*

Gobeithiwn y bydd yr argymhellion hyn yn ychwanegu at werth Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 ac y'u defnyddir er mwyn helpu i gyfarwyddo ac atgyfnerthu gwaith pawb sy'n cymryd rhan yn natblygiad mentrau cymdeithasol. Gall datblygiad o'r fath helpu i adeiladu economi mwy cynaliadwy a theg, sydd mor hanfodol yn ystod y cyfnod hwn o ddirwasgiad economaidd, ac er budd dyfodol Cymru.

Cyfeiriadau

- 1) Advantage West Midlands (AWM). (2007) West Midlands Social Enterprise Baseline Mapping. England, West Midlands
http://www.advantagewm.co.uk/Images/West%20Midlands%20Social%20Enterprise%20Framework%20-%20Final_tcm9-7453.pdf
- 2) Atkinson J, Tuohy S, Williams C, Annual Small Business Survey. (2005) URN 06/389, Department of Trade and Industry / Small Business Service. (November 2006)
www.cabinetoffice.gov.uk/~media/assets/www.cabinetoffice.gov.uk/third_sector/survey_social_enterprise_across_uk%20pdf.ashx www.berr.gov.uk/files/file38237.pdf
- 3) Cabinet Office, Office of the Third Sector. (November 2006) Social enterprise action plan: Scaling New Heights. England, London
- 4) Cabinet Office, Office of the Third Sector. (15 November 2007) Social enterprise action plan - One year on. Social Enterprise Day. England, London
- 5) Cartrefi Cymunedol Cymru ac Uned Ymchwil Economi Cymru. (2008) Cymdeithasau Tai Cymru: Mesur Effaith. Cymru
- 6) Greater London Authority Economics. (October 2007) Social Enterprise in London. A Review of London Annual Business Survey (LABS) Evidence. Greater London Authority. England, London
- 7) ECOTEC Research and Consulting Limited (2003) Guidance on Mapping Social Enterprise. Final Report to the DTI Social Enterprise Unit, C2453
www.cabinetoffice.gov.uk/~media/assets/www.cabinetoffice.gov.uk/third_sector/guidance_mapping_se%20pdf.ashx
- 8) East Midlands Development Agency (emda) (2001) Social Enterprise in the East Midlands
www.emda.org.uk/uploaddocuments/boardpapers/se.pdf
- 9) Cronfa Ddata GuideStar <http://www.guidestar.org.uk/guidestar.aspx>
- 10) IFF Research Ltd. (July 2005) The Small Business Service (SBS) A Survey of Social Enterprises Across the UK
- 11) Llewellyn, R (2007) Cylch - Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru; Adroddiad 'Let's Prove It!' 2007-2008. Cylch. Cymru, Caerdydd
- 12) Oliver Reichardt, David Kane, Belinda Pratten & Karl Wilding. (February 2008) Research on the Civil Society Economy The UK Civil Society Almanac, NCVO
- 13) Social Enterprise Support Infrastructure. (2004) Unlocking Enterprise - Infrastructure support for Social Enterprise in Herefordshire & Worcestershire - Research report on customer needs and support priorities. England, Hereford and Worcester
- 14) Prifysgol Morgannwg. (2003) Programme for Community Regeneration - 'Developing the Social Economy in Wales'. Cymru, Morgannwg
- 15) Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2002) Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i Gymru: Gwneud Iddo Ddigwydd. Cymru, Cynulliad Cymru: Caerdydd
- 16) Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2009) Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru. Cymru, Cynulliad Cymru: Caerdydd
<http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/090209seactionplan09e.pdf>
- 17) Westall, A. (October 2007) Policy and future sources of EU funding for the social economy
<http://www.equal-works.com/resources/contentfiles/5371.pdf>

Atodiadau

- A – Tabl o'r categorïau a gafodd eu cynnwys a'u heithrio
- B - Methodoleg
- C - Mapiau dosbarthiad
- D - Ymatebion i'r arolwg - canlyniadau llinell uchaf
- E - Holiadur yr arolwg
- F - Canllaw i'r testunau - cyfweiliadau manwl â'r sector cyhoeddus a sefydliadau cymorth
- G - Canllaw i'r testunau - cyfweiliadau manwl â mentrau cymdeithasol
- H - Rhestr o'r rhai y cyfwelwyd â hwy'n fanwl

Atodiad A: Tabl o gategoriâu a gafodd eu cynnwys a'u heithrio

Dangosyn 6.1: penderfyniadau ar 'achosion anodd' a chymhariaeth â methodoleg mapio SEEDA

Sector	Penderfyniad SEEDA	Penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â sylwadau'r tîm prosiect
Cymdeithasau Tai	Dylid eu cynnwys os ydynt wedi'u cofrestru fel elusennau a bod ganddynt amcanion cymdeithasol. Mae'r anawsterau'n codi gyda rhai sydd o natur cwbl fasnachol a rhai lle mae'r awdurdod lleol yn dal i'w rheoli.	Gan fod rhai cymdeithasau tai'n Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a bod canllawiau mapio diweddar yr OTS ar gyfer y trydydd sector yn awgrymu y dylid cynnwys pob un ohonynt, gwnaethom gynnwys pob cymdeithas tai heblaw am eithriadau amlwg.
Clybiau chwaraeon	Mae gan bob clwb chwaraeon amcanion cymdeithasol. Gellir eu hystyried yn fenter gymdeithasol os oes ganddynt fynediad agored a'u bod yn amlwg yn anelu i hyrwyddo cynhwysiant ac/neu adfywio cymdeithasol. Eithriadau yw'r rhai hynny sy'n codi ffioedd sy'n gwahardd y rhan fwyaf o'r boblogaeth. Cynnwys elusennau cofrestredig o fewn y diffiniad ehangach.	Gwnaethom gynnwys pob gweithgaredd chwaraeon, p'un ai a oedd yn elusennol ai peidio, gyda rhai eithriadau a benderfynwyd fesul achos - fel y rhai a oedd yn amlwg wedi'u cyfyngu i bobl a chanddynt incwm sylweddol. Y rheswm dros y gwahaniaeth hwn yw bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod chwaraeon yn weithgarwch menter gymdeithasol, a byddai'r holl sefydliadau celfyddydol yn cael yr un driniaeth.
Cymdeithasau Trigolion	Dylid eu cynnwys os oes ganddynt agenda ar gynhwysiant cymdeithasol a'u bod yn gwneud mwy na rheoli eiddo.	Cytuno na ddylid cynnwys y rhain oni chânt eu dynodi gan ffynonellau o'r gwaelod i fyny fel mentrau cymdeithasol gweithgar.
Sefydliadau ffydd	Wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad ehangach os ceir mwy na 25% o incwm drwy fasnachu, ac yn y diffiniad cul fel canolfannau cymuned os cânt eu dynodi drwy ymagweddau o'r gwaelod i fyny.	Canfuwyd mentrau cymdeithasol drwy ffynonellau o'r gwaelod i fyny, gan nad canolfannau cymuned yn unig yw sefydliadau ffydd.
Cwmnïau Cydweithredol	Dadl ynghylch a yw cwmnïau cydweithredol wedi'u cyfyngu, ynteu a ydynt yn rhoi budd i'r cyhoedd ehangach.	Gwnaethom gynnwys pob cwmni cydweithredol gan gynnwys prynwyr a chynhyrchwyr, oni bai fod rhesymau clir dros eu heithrio.
Prifysgolion a sefydliadau addysg uwch	Wedi'u cynnwys yn y diffiniad ehangach gan fod amheuaeth ynglŷn â'u hannibyniaeth oddi wrth y wladwriaeth.	Gwnaethom eithrio pob sefydliad o'r fath.
Cymdeithasau Llafur a chyrrff proffesiynol eraill	Cafodd y rhain eu heithrio oni bai fod ganddynt nodau cymdeithasol penodol neu eu bod wedi'u dynodi o'r gwaelod i fyny.	Cytuno.
Clybiau a grwpiau diddordeb	Os oes ganddynt statws elusen neu eu bod wedi'u dynodi o'r gwaelod i fyny.	Cytuno.

Sector	Penderfyniad SEEDA	Penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â sylwadau'r tîm prosiect
Sefydliadau diwylliannol	Dim ond y rhai a chanddynt statws elusen sydd wedi'u cynnwys yn eu diffiniad cul.	Cafodd pob sefydliad celfyddydol ei gynnwys, p'un ai a oedd yn elusen ai peidio, oni bai ei bod yn amlwg wedi'i gyfyngu ar gyfer pobl a chanddynt lefelau sylweddol o incwm.
Sefydliadau/pleidiau gwleidyddol	Sefydliadau/pleidiau gwleidyddol ac undebau llafur: Dadleuir a ystyrir bod gan y rhain nodau cymdeithasol, er bod llawer o sefydliadau gwleidyddol yn gallu bod â statws elusen o dan Ddeddf Elusennau 2006. Codir cwestiynau hefyd os daw mwy na 75% o'u hincwm o ffioedd aelodaeth nad ydynt yn wasanaethau penodol a ddarperir i unigolion. Peidio cynnwys undebau llafur na phleidiau gwleidyddol.	Cytuno.
Ysgolion annibynnol a chanddynt statws elusen a chymdeithasau ysgolion	Wrth i sylw cynyddol gael ei roi i statws elusen rhai ysgolion annibynnol, cwestiynir a yw'r rhain yn fentrau cymdeithasol. Ni fydd y sefydliadau hyn yn cael eu cynnwys.	Cytuno, oni bai fod rhai enghreifftiau o'r gwaelod i fyny'n cael eu dynodi, fel mentrau addysg cydweithredol newydd.

Atodiad B: Methodoleg

Gofynnwyd i GuideStar am sefydliadau a chanddynt fwy na 15% o incwm a enillir o'u cronfa ddata. Defnyddiwyd y trothwy hwn gan fod tri chategori o fenter gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru:

- 15-25% o incwm a enillir – mentrau cymdeithasol **eginol**;
- 25%-50% o incwm a enillir – mentrau cymdeithasol **datblygol**; a
- 50%-100% o incwm a enillir – mentrau cymdeithasol **sefydledig**.

Gofynnwyd hefyd am gael cynnwys y meini prawf canlynol er mwyn gallu ymchwilio ymhellach i'r sefydliadau, eu cyllid, eu gweithgareddau a'r tebygolrwydd mai menter gymdeithasol ydynt ai peidio:

- Pwrpas cymdeithasol/dosbarthiad gan gynnwys cod SIC a disgrifiadau byr;
- Data cyllid gan gynnwys incwm drwy werthiant dros dair blynedd, elw cyn treth, defnydd o warged, cyfanswm yr asedau;
- Dyddiad corffori;
- Nifer y cyflogeion a chostau staff; a
- Statws cyfreithiol

Glanhau a rhannu cronfa ddata GuideStar yn categorïau

Darparwyd cronfeydd data ar wahân ar gyfer elusennau, cwmnïau cyfyngedig trwy warant a chymdeithasau diwydiannol a darbodus. Y rheswm am hyn yw bod lefelau'r wybodaeth a gofnodwyd a'r systemau adrodd ar gyfer gweithgarwch sefydliadau ac entrepreneuriaeth gymdeithasol, yn y gorffennol, yn amrywio yn ôl y math o sefydliad.

I ddechrau, aethom ati i lanhau'r set ddata drwy wirio cysondeb y data a chael gwared â data'r sefydliadau hynny a ymddangosai ddwywaith gan eu bod yn gwmnïau cyfyngedig trwy warant yn ogystal ag elusennau.

Canfuwyd hefyd:

- Nad oedd y gyfran o incwm a enillir wedi'i chynnwys yn y gronfa ddata Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, ac felly gallai rhai o'r cymdeithasau a gafodd eu cynnwys fod yn anghymwys gan eu bod yn cael eu hariannu'n bennaf drwy grant.
- Nid yw'r gronfa ddata Cwmnïau Cyfyngedig trwy Warant yn rhoi trawstoriad o gyllid yn ôl grant neu incwm a enillir a gallai rhai fod wedi'u hariannu'n llwyr neu'n bennaf drwy grantiau.
- Nid oedd gan sefydliadau a oedd yn eu galw eu hunain yn elusennau yn y gronfa ddata CCtW bob amser rifau o natur elusen yn y gronfa ddata CCtW nac wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata elusennau fel elusen.
- O ddadansoddiadau blaenorol, mae GuideStar wedi datblygu dull hewristig sy'n debygol o gael gwared â sefydliadau sy'n annhebygol o fod yn fentrau cymdeithasol. Fodd bynnag, wrth archwilio'r rhestr hon, canfuwyd sefydliadau y dylid eu cynnwys yn fentrau cymdeithasol posibl.
- Roedd sefydliadau eraill a oedd ar y rhestr eithrio yn ôl GuideStar mewn gwirionedd yn cynnwys mentrau cymdeithasol posibl yr oedd yn rhaid i ni eu hailgodio wrth gategoreiddio:
 - Meithrinfeydd, cyn-ysgol ac ar ôl yr ysgol, gofal plant
 - Mentrau cymdeithasol eraill posibl
 - Chwaraeon
 - Canghennau o sefydliadau cenedlaethol gan na allwn wybod a ydynt yn sefydliadau ymreolaethol ar wahân ai peidio, fel maent wedi'u nodi ar y gronfa ddata ar hyn o bryd

Gan ddefnyddio'r meini prawf a nodwyd yn Nhabl 1 ar gyfer achosion anodd fel canllaw, aethom ati i edrych ar bob un o'r cronfeydd data er mwyn canfod sefydliadau y dylid eu cynnwys neu eu heithrio o'r gronfa ddata derfynol.

Y Gronfa Ddata Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus

Mae'r rhan fwyaf o'r data a ddarparwyd gan GuideStar eisoes wedi'i godio'n categorïau amrywiol, ac mae rhai o'r cymdeithasau'n perthyn i amryw o gategorïau. Roedd peth o'r data heb ei godio, ac fe grëwyd categorïau i reoli'r rhain. O'r gronfa ddata Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (CDDau), mae'r drefn o ran cynnwys neu eithrio categorïau presennol neu gategorïau a grëwyd o'r newydd wedi'i nodi yn y tabl isod.

Dangosyn 7.1: Cynnwys ac eithrio o'r gronfa ddata CDDau

Cynnwys	Eithrio
Categorïau presennol	
- Undebau credyd a chymdeithasau adeiladu - Rhandir - Cwmni cydweithredol (mae rhai ohonynt yn dai, ond heb eu codio felly) - Clwb Gweithwyr (wedi'u cynnwys oherwydd awgrymwyd mewn trafodaeth â thîm mapio Canolbarth Lloegr mai mentrau cymdeithasol yw llawer o'r rhain, ond eu heithrio os oeddynt hefyd yn bleidiau gwleidyddol) - Cymdeithas Tai - Siop y pentref, cludiant cymunedol - Marchnadoedd, ffermwyr, tyfwyr - Clwb cefnogwyr pêl droed - Chwaraeon, clwb athletau, pêl droed, rygbi, hoci	- Neuadd Seiri Rhyddion - Clwb - Clwb Llafur - Clwb Ceidwadwyr - Clwb Rhyddfrydwyr - Clwb cymdeithasol - Lleng Brydeinig Frenhinol - Milwyr - Y Llynges Frenhinol - Cymdeithas Trigolion
Categorïau a grëwyd o'r newydd	
- Ymddiriedolaethau tir cymunedol - Grwpiau busnes amrywiol e.e. cwmnïau meddygon cydweithredol y tu allan i oriau gwaith, cylchoedd peiriannau, cwmnïau cynhyrchwyr cydweithredol - Lles - Cymorth i Ferched - Gofal a thrwsio - Y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a'r cyfryngau - Cyllid (yn ychwanegol at undebau credyd a chymdeithasau adeiladu)	- Grwpiau magu anifeiliaid - Rhai sy'n ymddangos fel pe baent yn gysylltiedig â'r sector preifat

Y Gronfa Ddata Elusennau

Er mwyn cynnwys ac eithrio sefydliadau, penderfynwyd eithrio'r canlynol:

- Pob un y cyfeiriodd GuideStar ato fel "lluniwr grantiau yn unig"
- Pob un y cyfeiriodd GuideStar ato fel 'menter gymdeithasol annhebygol' oherwydd meini prawf a oedd yn cynnwys bod yn gronfa elusennol, yn gymdeithasau athrawon a rhieni neu'n ysgolion, yn gyfeillion neu'n gatraddau. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd y gallai rhai o'r sefydliadau yn y dosbarth 'annhebygol' fod yn fentrau cymdeithasol mewn gwirionedd – gweler y nodyn cyffredinol uchod.

Yn deillio o'r penderfyniadau a wnaed â grŵp llywio'r prosiect, datblygwyd dull o gategoreiddio fel bo modd penderfynu cynnwys neu eithrio sefydliadau. Roedd yr wybodaeth a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar y categorïau a ddarparwyd gan GuideStar yn ogystal â disgrifiad, os oedd un ar gael, o weithgarwch y sefydliad, neu pan nad oedd y naill na'r llall ar gael, ar y categori sydd fwyaf tebygol yn ôl eu henw neu o chwiliadau ar y we, lle bo hynny'n bosibl.

Dangosyn 7.2: Cynnwys ac eithrio o'r gronfa ddata elusennau

Cynnwys	Eithrio
• Cymorth/cyngor busnes a mathau eraill o gymorth/cyngor sefydliadol • Gyrfaoedd, cyflogaeth a hyfforddiant (ddim i blant) • Chwaraeon 1 - heb eu hystyried yn fenter gymdeithasol ar y cyfan • Chwaraeon 2 - yn debygol o gael eu hystyried yn fenter gymdeithasol • Ailgylchu a'r amgylchedd • Y celfyddydau a'r cyfryngau • Canghennau cenedlaethol • Gofal iechyd, gofal cymdeithasol a lles, cymorth i ferched • Lleoliadau, neuaddau, caeau chwaraeo, tir hamdden • Tai • Addysg i blant neu gymdeithasau plant, ond nid ysgolion • Cyllid (ond nid cronfeydd elusennol na gwaddolion) • Meithrinfeydd, cyn-ysgol ac ar ôl yr ysgol, gofal plant • Siambrau a rhwydweithiau busnes • Cludiant cymunedol • Mentrau cymdeithasol amrywiol tebygol • Mentrau cymdeithasol annhebygol	• Grwpiau proffesiynol neu fusnes • Ysgolion • Plaid wleidyddol neu'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth • Eglwysi • Darparwyr grant a chronfeydd elusennol • Seiri Rhyddion • Rotari • Ysbytai a sefydliadau'n gysylltiedig ag ysbytai e.e. Cyfeillion • Prifysgolion ac athrofeydd neu fusnesau sy'n eiddo i brifysgolion

Y Gronfa Ddata Cwmnïau Cyfyngedig trwy Warant

- Gwnaethom eithrio'r rhai y nododd GuideStar eu bod 'wedi'u heithrio o'r trydydd sector' neu'n gyfrifon segur, a chynnwys y rhai y nododd GuideStar eu bod yn Gwmnïau Buddiannau Cymunedol

Yna cafodd y gweddill eu rhannu'n gategorïau ar sail disgrifiadau o'u gweithgarwch neu eu henwau, wedi'u cyflenwi gan chwiliadau ar y we lle bo hynny'n bosibl, yn yr un modd â'r elusennau:

Dangosyn 7.3: Cynnwys ac Eithrio o'r Gronfa Ddata Cwmnïau Cyfyngedig trwy Warant

Cynnwys	Eithrio
- Cymorth/cyngor busnes a mathau eraill o gymorth/cyngor sefydliadol - Gyrfaoedd, cyflogaeth a hyfforddiant (ddim i blant) - Chwaraeon 1 - heb eu hystyried yn fenter gymdeithasol ar y cyfan - Chwaraeon 2 - yn debygol o gael eu hystyried yn fenter gymdeithasol - Ailgylchu a'r amgylchedd - Y celfyddydau a'r cyfryngau - Canghennau cenedlaethol - Gofal iechyd, gofal cymdeithasol a lles, cymorth i ferched - Lleoliadau, neuaddau, caeau chwaraeo, tir hamdden - Tai - Addysg i blant neu gymdeithasau plant, ond nid ysgolion - Cyllid (ond nid cronfeydd elusennol na gwaddolion) - Meithrinfeydd, cyn-ysgol ac ar ôl yr ysgol, gofal plant - Siambrau a rhwydweithiau busnes - Cludiant cymunedol - Mentrau cymdeithasol amrywiol tebygol - Mentrau cymdeithasol annhebygol	- Grwpiau proffesiynol neu fusnes - Ysgolion - Plaid wleidyddol neu'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth - Eglwysi - Darparwyr grant a chronfeydd elusennol - Seiri Rhyddion - Rotari - Cwmnïau rheoli eiddo - Ysbytai a sefydliadau'n gysylltiedig ag ysbytai e.e. Cyfeillion - Prifysgolion ac athrofeydd neu fusnesau sy'n eiddo i brifysgolion

Setiau data ychwanegol

Yn ogystal â'r setiau data a ddarparwyd gan GuideStar, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru setiau cronfa ddata o gronfa ddata aelodaeth y Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu a sefydliadau o gronfa ddata Canolfan Cydweithredol Cymru. Buom hefyd yn pori drwy restrau Ymddiriedolaeth Ddatblygu tir CIC. Ar ôl dileu'r dyblygiadau, roedd hyn yn creu cronfa ddata o oddeutu 3,500 o sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol.

Categoriâu cynnwys

Defnyddiwyd y categorïau cynnwys i ddatblygu system godio ar gyfer y mentrau cymdeithasol posibl yn sampl y gronfa ddata. Cynhaliwyd asesiad llinell wrth linell o bob sefydliad yn seiliedig ar ei enw a'r wybodaeth a oedd ar gael ynglŷn â'i weithgarwch. O angenrheidrwydd, proses o amcanu'n ddeallus fu hon yn hytrach na phroses wyddonol.

Dangosyn 7.4: Categoriâu cynnwys

Categori	Disgrifiad
C	Cymorth/cyngor busnes a mathau eraill o gymorth/cyngor sefydliadol
D	Gyrfaedd, cyflogaeth, hyfforddiant
J	Chwaraeon - menter gymdeithasol debygol
K	Ailgylchu a'r amgylchedd
M	Y celfyddydau, y cyfryngau a'r Gymraeg
N	Canghennau cenedlaethol
O	Gofal iechyd, gofal cymdeithasol
P	Llefydd, lleoliadau, neuaddau ac ati
Q	Tai (cymdeithasau)
R	Adwerthu
S	Cyllid (ond nid cronfeydd neu ymddiriedolaethau)
U	Meithrinfeydd, cyn-ysgol ac ar ôl yr ysgol, gofal plant
V	Arlwyo/siopau cymunedol
W	Cludiant cymunedol
X	Mentrau cymdeithasol amrywiol tebygol
1	Undebau credyd

Dibynadwyedd ystadegol y canlyniadau

Mae'r tabl isod yn dangos yr ystodau a ragwelir ar gyfer canlyniadau canrannol a samplau o faint amrywiol ar "gyfwng hyder 95%" ar gyfer sampl gynrychioliadol.

Dangosyn 7.5: Dibynadwyedd ystadegol ar gyfer samplau o faint amrywiol

Maint y sampl y mae canlyniadau'r arolwg wedi'u seilio arni.	Brasamcan o oddefiadau samplu sy'n berthnasol i ganrannau ar y lefelau hyn neu'n agos atynt		
	10% neu 90%	30% neu 70%	50%
	+/-	+/-	+/-
100 o gyfweiliadau	6	9	10
200 o gyfweiliadau	4	6	7
400 o gyfweiliadau	3	4	5
618 o gyfweiliadau	2	3	4

Er enghraifft, lle bydd 28% o'r 98 o fentrau cymdeithasol eginol yn rhoi ateb neilltuol, ceir tebygolrwydd o 19 ym mhob 20 y bydd y "gwir" werth (a fyddai wedi cael ei gyfrifo pe bai'r holl boblogaeth wedi cael ei chyfweld) o fewn ystod o +/-9% i ganlyniad y sampl (28% +/-19%).

Pan fydd canlyniadau'n cael eu cymharu rhwng grwpiau gwahanol o fewn sampl, mae'n bosibl y ceir canlyniadau gwahanol. Gallai'r gwahaniaeth fod yn "wirioneddol", neu gallai fod wedi digwydd ar hap (gan na chafodd yr holl boblogaeth ei chyfweld)


Er mwyn profi a oes gwir wahaniaeth - h.y. a yw'n "ystadegol arwyddocaol", mae angen inni unwaith eto wybod beth yw maint y samplau, y ganran sy'n rhoi ateb neilltuol, a'r raddfa o hyder a ddewiswyd. Os tybiwn fod "cyfwng hyder 95%", mae'n rhaid i'r gwahaniaethau rhwng canlyniadau'r ddau sampl fod yn fwy na'r gwerthoedd yn y tabl isod:

Dangosyn 7.6: Arwyddocâd ystadegol

Maint y samplau a gymharwyd	Gwahaniaethau sydd eu hangen er mwyn bod yn arwyddocaol, ar y lefelau canran hyn neu'n agos atynt		
	10% neu 90%	30% neu 70%	Tua 50%
Mentrau cymdeithasol eginol (98) o'u cymharu â mentrau cymdeithasol sefydledig (410)	+/- 7	+/- 10	+/- 11


ATODIAD C: Mapiau dosbarthiad yn ôl meysydd gweithgarwch

Dangosyn 8.1: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Diwylliant, y Celfyddydau a'r Cyfryngau




Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhychir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Dangosyn 8.2: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Gofal Plant, Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol




Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhychir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Dangosyn 8.3: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg




Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhychir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Dangosyn 8.4: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Cymorth Busnes, Menter Gymdeithasol a'r Sector Gwrfoddol




Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Dangosyn 8.5: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Bwyd ac Arlwyo, Cadwraeth a Threftadaeth ac Ynni a Chyfleustodau



Ffynhonnell: Geoeconomics. ONS, Terfynau Ardaloedd Cynnyrch. Hawlfraint y Goron 2003. Atgynhychir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Dangosyn 8.6: Canlyn nodau'r sefydliad drwy gyfrwng Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth



